Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>30 EBRILL 2018<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>30 APRIL 2018<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

John Griffith, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

2 **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2018.

4 **COFNODION - PANEL RHIANT CORFFORAETHOL** (Tudalennau 15 - 22)

Cyflwyno i'w mabwysiadu, gofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19 Mawrth, 2018.

5 **COFNODION ER GWYBODAETH** (Tudalennau 23 - 26)

Cyflwyno er gwybodaeth, gofnodion drafft y Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2018.

6 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 27 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

7 **CYLLIDEB REFENIW I MELIN LLYNNON** (Tudalennau 43 - 46)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

8 **CYNLLUN LLESIANT - BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS** (Tudalennau 47 - 72)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

9 **MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL LLANGEFNI - ADRODDIAD YN DILYN YR YMGYNGHORI STATUDOL (CORN HIR, BODFFORDD A HENBLAS)** (Tudalennau 73 - 108)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

10 **STRATEGAETH GWRTH DLODI** (Tudalennau 109 - 124)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**11** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 125 - 126)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**12** **BENTHYCIAD PONTIO I GRWP NEUADD BENTREF LLANDDONA**
(Tudalennau 127 - 132)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd) (Yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, John Griffith, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, RG Parry, OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas |
| **YN BRESENNOL:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolwr Adfywio (ar gyfer eitem 14)<br>Rheolwr Gwasanaeth Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi)<br>Prif Swyddog Datblygu (Cefnogi Pobl) (ar gyfer eitem 9)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Aled M. Jones, Eric Jones, Bryan Owen, Alun Roberts, Dylan Rees, Peter Rogers, Shaun Redmond |

---

Croesawodd y Cynghorydd Ieuan Williams, yr Is-gadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith, a esboniodd y byddai'n cadeirio oherwydd bod yr Arweinydd a'r Cadeirydd, y Cynghorydd Llinos Medi Huws, yn absennol oherwydd salwch.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Gwnaeth y Cynghorydd Carwyn Jones ddatganiad o ddiddordeb personol a rhagfarnus yn eitem 12. Eglurodd, er mwyn gallu cynrychioli ward Seiriol yn llawn yn y trafodaethau ar y mater hwn fel un o'r Aelodau Lleol ei fod wedi gofyn am ac wedi cael caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2017 i gymryd rhan trwy gydol y ddadl.

Gwnaeth y Cynghorydd Alun Roberts (nad yw’n aelod o’r Pwyllgor gwaith) ddatganiad o ddiddordeb personol yn eitem 12.

DRAFT

**2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim i'w adrodd.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar fore 19 Chwefror, 2018 (cyfarfod y Gyllideb) a phrynhawn 19 Chwefror, 2018 (Cyfarfod Arferol) i'w cadarnhau

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau a'r amseroedd isod fel rhai cywir:**

**19 Chwefror, 2018 (A.M.) (Cyfarfod Cyllideb)**
**19 Chwefror, 2018 (P.M.) (Cyfarfod Arferol)**

**4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd, 2018 ar gyfer cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar eitemau a oedd yn newydd i'r Rhaglen Waith fel a ganlyn -

Eitem 10 - Craig y Don, Amlwch wedi ei raglennu dros dro ar gyfer ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 21 Mai, 2018
Eitem 11 - Adroddiad Blynyddol Safonau Iaith Gymraeg 2017/18 – wedi ei raglennu ar gyfer penderfyniad dirprwyedig ym mis Mehefin, 2018
Eitem 13 - Safonau Ansawdd Tai Cymru (Methiannau Derbyniol) wedi ei raglennu i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod 18 Mehefin, 2018
Eitem 14 - Trefnwyd i'r Polisi Gwaith a Safonau Cynnal a Chadw Tai gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod 18 Mehefin, 2018
Eitem 16 - Cyfrifon Terfynol Drafft 2017/18 wedi ei raglennu i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf, 2018
Eitem 21 - Adolygiad o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2017/18 wedi ei raglennu i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Medi, 2018
Eitem 22 - Strategaeth Ariannol Tymor Canol i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Medi, 2018
Eitem 25 - Cynllun Strategol Cyllideb Gyfalaf 2019/20 wedi ei raglennu i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 29 Hydref, 2018
Eitem 26 - Cyllideb 2019/20 (cynigion drafft cychwynnol) wedi ei rhaglennu i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd, 2018.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Ebrill 2018 i Tachwedd 2018 wedi ei diweddaru ac fel y cafodd ei chyflwyno.**

DRAFT

## 5. CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 3 2017/18

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2017/18 ar gyfer ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol bod perfformiad, yn gyffredinol, wedi bod yn galonogol yn Chwarter 3 gyda'r mwyafrif o ddangosyddion ar y trywydd iawn ac yn Wyrdd neu'n Felyn. Roedd pum dangosydd yn tanberfformio ac yn Goch yn erbyn eu targed blynyddol ar hyn o bryd, roedd un yn ymwneud â'r Gwasanaethau Oedolion a phedwar yn ymwneud â'r Gwasanaethau Plant; ceir manylion am y rhain ynghyd â'r camau lliniaru yn adrannau 2.3.3 a 2.3.4 yr adroddiad. Yn ogystal, mae dau ddangosydd perfformiad yn y Gwasanaeth Dysgu wedi tanberfformio yn ystod y flwyddyn, y naill mewn perthynas â chanran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni L2 + yng Nghyfnod Allweddol 4 a'r llall mewn perthynas â chanran y disgyblion sy'n cyflawni'r CSI / FPI yn y Cyfnod Sylfaen. Ar y llaw arall, mae'r perfformiad yn erbyn rhai dangosyddion yn dda iawn, megis canran y sefydliadau bwyd sy'n bodloni safonau hylendid bwyd sy'n 98% o gymharu â'r targed o 80% a chanran y gwastraff sirol a gasglwyd ac a baratowyd ar gyfer ei ailddefnyddio ac/neu a gafodd ei ailgylchu sydd wedi dangos gwelliant cyson. Ar hyn o bryd mae perfformiad yn hyn o beth yn 73.24% yn erbyn targed o 67%.

O ran Gwasanaeth Cwsmer, mae perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol o ran ymateb i gwynion Cam 1 hyd at ddiwedd Chwarter 3 wedi llithro o gymharu â Chwarter 2. Fodd bynnag, roedd perfformiad yn well ar gyfer trafodaethau Cam 1 gyda thrafodaeth yn cael ei chynnig i'r achwynydd o fewn y cyfnod amser penodedig yn achos 24 o'r 28 cwyn i'r Gwasanaethau Plant ac ar gyfer 6 o'r 10 cwyn i'r Gwasanaethau Oedolion hyd at ddiwedd Chwarter 3.

O ran Rheolaeth Ariannol, rhagamcenir gorwariant cyffredinol o £ 1.624m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth, 2018. Mae hyn yn cael ei fonitro ac mae Penaethiaid Gwasanaeth y meysydd hynny sy'n wynebu'r pwysau ariannol mwyaf yn ymwybodol o'r materion ac yn gweithio i ostwng lefel y gorwariant sydd o fewn eu rheolaeth erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r duedd mewn perthynas â Rheoli Pobl yn parhau'n gadarnhaol gyda gwelliant pellach yn y cyfraddau salwch o'i gymharu â'r un cyfnod ar gyfer 2016/17 (6.88 o gymharu â 7.21 yn Ch3 2016/17). Os yw'r duedd yn parhau ac ar yr amod na fydd anhwylderau'r gaeaf yn arwain at unrhyw effeithiau negyddol, rhagwelir y bydd lefelau salwch ar ddiwedd y flwyddyn yn cyfateb i 9.81 diwrnod ar gyfer pob ALIC. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith pellach yn enwedig mewn perthynas â gwella perfformiad o ran cynnal cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith lle mae perfformiad yn parhau i fod yn is na'r targed.

Soniodd y Cynghorydd Dylan Rees am waith y Panel Sgriwtini Cyllid. Cadarhaodd fod y Panel wedi bod yn craffu'r gorwariant ar y gyllideb refeniw yn enwedig mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu lle mae lefel y gorwariant ar ei huchaf. Mae'r Panel wedi gofyn i'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol adrodd yn ôl ar eu strategaeth ar gyfer lleihau'r gorwariant a rheoli eu cyllidebau ac mae'n disgwyl cael diweddariad ar gynnydd yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, 2018.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth a nododd hefyd bod rhai Dangosyddion Perfformiad yn Tanberfformio'n gyson, e.e. Gwasanaethau Plant. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa ac yn disgwyl i'r gwaith lliniaru sy'n cael ei wneud yn y gwasanaethau hynny arwain at ganlyniadau yn y chwarter nesaf. Nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach y perfformiad ar gyfer

DP 25 ar y cerdyn sgorio mewn perthynas â'r nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymer i osod unedau llety y gellir eu gosod (heb gynnwys eiddo anodd eu gosod) fel enghraifft o welliant parhaus dros gyfnod o amser gyda'r nifer o ddyddiau a gymerwyd i osod yr unedau y gellir eu gosod wedi gostwng o 33.7 diwrnod yn 2015/16 i 17.7 diwrnod yn awr.

Soniodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith y gwnaed cyhoeddiad yng nghyfarfod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr wythnos flaenorol lle roedd dangosyddion perfformiad yn un o'r pynciau dan sylw, y bydd disgwyl i awdurdodau lleol adrodd ar 14 Dangosydd Perfformiad newydd o Ebrill, 2018 ymlaen.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn a nodi'r Adroddiad Monitro ar y Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 3 2017/18 a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel y cânt eu crynhoi yn adran 1.3.1 yr adroddiad.**
- **Derbyn a nodi'r mesurau lliniaru a amlinellir yn yr adroddiad**

## 6. POLISI TALIADAU TAI DEWISOL 2018/19

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo Cynllun diwygiedig ar gyfer y Polisi Taliadau Tai Dewisol Lleol ar gyfer 2018/19.

Nododd yr Aelod Portffolio Cyllid mai bwriad y Cynllun Taliadau Tai Dewisol (TTD) yw rhoi cymorth pellach i gwsmeriaid sy'n derbyn Budd-dal Tai neu elfen dai'r Credyd Cyffredinol gyda'u costau tai lle mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod angen cymorth o'r fath. Rhaid gwneud pob taliad TTD o fewn y terfynau arian cyffredinol a bennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP). Mae'r AGP yn dyfarnu swm blynyddol i'r Awdurdod fel cyfraniad y Llywodraeth tuag at weinyddu'r cynllun. Gall yr Awdurdod ychwanegu 150% (sef y cyfanswm a ganiateir) at Gyfraniad y Llywodraeth os yw'n dymuno gwneud hynny. Bydd Credyd Cynhwysol yn cael ei weithredu ar Ynys Môn o fis Tachwedd, 2018 (wedi cael ei roi yn ôl o fis Mehefin, 2018); ar hyn o bryd mae oedi o ran dyfarnu Credyd Cynhwysol; mae'n rhaid nodi felly na fedrir dyfarnu TTD hyd oni fydd  yr hawl i elfen costau tai'r Credyd Cynhwysol (neu Fudd-dal Tai) wedi'i sefydlu.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mai'r bwriad yw y bydd y Polisi TTD yr adroddwyd arno'n flynyddol ond yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Gwaith os bydd angen gwneud newidiadar iddo yn y dyfodol. Fodd bynnag, parheir i adrodd ar gostau'r cynllun yn yr adroddiad chwarterol ar fonitro'r gcyllideb. Dywedodd y Swyddog, bod y gwariant cyffredinol ar TTD (gwirioneddol ac ymrwymedig) ar 28 Chwefror, 2018 yn £ 133,586 yn erbyn grant AGP o £ 162,656 sydd yn gadael £ 29,070 ar ôl i'w wario dros weddill y flwyddyn ariannol gyfredol. Rhagamcenir y bydd y gwariant ychydig yn is na dyraniad grant yr Adran Gwaith a Phensiynau am y flwyddyn yn sy'n golygu y bydd unrhyw grant gweddilliol sydd heb ei wario yn cael ei golli.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth. Hefyd, nododd y Pwyllgor Gwaith y bu gostyngiad nodedig yn nifer y ceisiadau TTD a gymeradwywyd yn 2017/18 o gymharu â 2016/17 ac o'r herwydd, nifer gyfatebol o wrthodiadau. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am esboniad ar y gwahaniaeth. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod llawer o'r ceisiadau yn rhai ailadroddus; fodd bynnag, oherwydd nad yw'r polisi yn fod i ddarparu budd-daliadau ychwanegol parhaol, gall y broses asesu arwain at ostyngiad yn y taliadau neu at

DRAFT

wrthod taliadau mewn achosion lle nad yw ymgeiswyr yn fodlon gwneud cyfaddawd rhesymol o ran eu gwariant a'u ffordd o fyw. Rhaid i'r grant gael ei ddosbarthu i'r rhai sydd mewn angen ac mae wedi'i gynllunio i weithredu fel rhwyd ddiogelwch dros dro i'r rheini sy'n profi anhawster o ran cwrdd â'u costau tai.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Polisi Lleol diwygiedig ar gyfer y Cynllun Taliadau Tai Dewisol (TTD) am 2018/19 a'r blynyddoedd dilynol fel y'i gwelir yn Atodiad A yr adroddiad. Nodi y bydd y Cynllun a gymeradwyir yn berthnasol am y blynyddoedd dilynol ac ni fydd yn dod yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith oni bai y bydd angen ei ddiwygio yn y dyfodol.**

## 7. YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN - DATGANIAD CYFRIFON 2016/17

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 Swyddog a oedd yn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer 2016/17.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa – Cronfa Waddol David Hughes a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Ymddiriedolaeth Addysg Ynys Môn 2/3 sy'n darparu buddion penodol ar gyfer addysg. Cymeradwywyd Cyfrifon ac Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer blynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16 gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, 2018. Mae'r Fantolen yn dangos bod cyfanswm yr asedau net, h.y. gwerth yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth, 2017 yn £ 2,835,879 o'i gymharu â £ 3,179,220 ar 31 Mawrth, 2016. Mae'r gostyngiad oherwydd gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn ar adnewyddu'r mân-ddaliadau a phrynu Fferm Hendre sy'n golygu y gall yr Ymddiriedolaeth ennill mwy o incwm yn y tymor hir.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod y cyfrifon yn dangos mai cyfanswm yr incwm ar gyfer 2016/17 oedd £ 138,632 a chyfanswm y gwariant oedd £ 65,905. Mae'r cyfrifon hefyd yn cynnwys eitem eithriadol o £ 446,203 ar gyfer Amhariad, sef y prif reswm dros y gostyngiad yng ngwerth y Gronfa. Bydd y gwariant o £ 710,545 yn ystod y flwyddyn ar y mân-ddaliadau yn cynyddu eu gwerth ar y farchnad; fodd bynnag, at ddibenion y cyfrifon, caiff y mân-ddaliadau eu prisio ar sail defnydd cyfredol, h.y. ar sail yr incwm y bydd yr asedau'n ei gynhyrchu dros amser pan fydd tenantiaid ynddynt. Mae'r prisiad hwn i ddibenion y cyfrifon ac mae'n llai na gwerth marchnad yr eiddo, dyna'r rheswm am gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer amhariad.

**Penderfynwyd cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am 2016/17 a nodi'r diweddariad mewn perthynas â Stad Mân-ddaliadau David Hughes.**

## 8. STRATEGAETH LEOL AR GYFER CYFRANOGIAD TENANTIAID 2018-23

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith - adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn ymgorffori Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid 2018-23 i bwrpas ymgynghori yn ei chylch.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau mai pwrpas y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol yw sicrhau bod tenantiaid yn deall beth mae cyfranogiad tenantiaid yn ei olygu a sut y gallant gymryd rhan. Mae cyfres o 5 o weithdai ar y cyd wedi cael eu cynnal ac wedi arwain at adborth cadarnhaol. Mae hefyd yn bwysig bod cefnogaeth yn dal i gael ei darparu ar gyfer tenantiaid a allant gael eu heffeithio gan y mesurau diwygio lles.

DRAFT

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Tai, gan fod cyfranogiad tenantiaid yn golygu bod tenantiaid a landlordiaid yn cydweithio, mae'n bwysig felly bod y strategaeth yn cael ei hysgrifennu mewn partneriaeth â thenantiaid; mae tenantiaid wedi cymryd rhan weithredol yn y broses o ddatblygu'r strategaeth gan gynnwys ei nodau a'i hamcanion. Mae angen gwneud gwaith pellach ar y cyd â thenantiaid ar ddatblygu trefniadau monitro a darparu tystiolaeth gliriach ynghylch llwyddiannau a gwelliannau.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y byddai'n briodol adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Tai ynghylch cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Cyfranogiad Tenantiaid.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid 2018-23 fel y gellir ymgynghori yn ei chylch.**

**9. CYNLLUN COMISIYNU'R RHAGLEN CEFNOGI POBL**

Cyflwynwyd er sylw a chymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith - adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn ymgorffori Cynllun Comisiynu a Gwariiant Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ynys Môn 2018/19.

Cymeradwyodd yr Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau y Cynllun i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd Prif Swyddog Datblygu'r Gwasanaethau Tai mai un o ofynion y cyllid Rhaglen Cefnogi Pobl yw bod yr Awdurdod yn paratoi Cynllun Comisiynu i hysbysu Llywodraeth Cymru a phob partner a rhanddeiliad o'i fwriadau a'i flaenoriaethau comisiynu. Mewn llythyr a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr, 2017 cadarnhawyd mai'r dyraniad ar gyfer Ynys Môn am 2018/19 fyddai £ 2,643,866, sef yr un lefel o gyllid â'r pedair blynedd flaenorol. Bydd 2018/19 yn flwyddyn drosiannol ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru gyda 7 awdurdod lleol yn gweithredu dan drefniant gwahanol ac yn cymryd rhan mewn cynllun peilot a fydd yn gweld 10 grant sy'n rhan o'r Rhaglen Taclo Tlodi yn cael eu cyfuno mewn un gronfa - sef y Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi - gellir trosglwyddo 100% o'r cyllid hwn o un rhaglen i'r llall. Yn ystod yr un cyfnod, bydd gan Ynys Môn ynghyd â'r 14 awdurdod arall yr opsiwn i drosglwyddo hyd at 15% o unrhyw danwariant o un rhaglen i'r llall. Bydd y trefniant newydd ar draws y 7 awdurdod lleol yn cael ei werthuso yn ystod y flwyddyn. Dywedodd y Swyddog, er y dylid croesawu cydweithio agos ar draws y ffynonellau cyllid, mae'r trefniant yn peri risg i'r Rhaglen ar ei ffurf bresennol fel y disgrifir ym mharagraff 1.8 yr adroddiad, ac mae'n creu peth ansicrwydd i ddyfodol y Rhaglen sydd yn bodoli ers 2003 ac sydd wedi profi ei gwerth yn ystod y cyfnod hwnnw i'r Gwasanaeth Tai, y Gwasanaethau Cymdeithasol ac i wasanaethau eraill megis Prawf ac Iechyd.

Mae'r Cynllun Cefnogi Pobl yn cynnwys rhaglen o adolygiadau o feysydd gwasanaeth a gynhelir bob tair blynedd. Yn ystod 2018/19, cynhelir adolygiadau manwl mewn perthynas â chamdriniaeth ddomestig, rhieni sengl bregus, pobl hŷn, pobl sy'n gadael y carchar, iechyd meddwl a phobl hŷn (cefnogaeth hyblyg). Mae'r gwasanaeth hefyd yn bwriadu cynnal ymarfer tendro llawn ar gyfer cefnogaeth hyblyg barhaus ym Mai, 2018.

Mae aelodau Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol Gogledd Cymru yn awyddus i ddatblygu gwasanaethau a gomisiynir yn rhanbarthol mewn meysydd penodol; er mwyn cyflawni'r nod hwn, cynigiwyd ar lefel ranbarthol a'i gymeradwyo mewn Byrddau Grwpiau Cynllunio lleol ar draws Gogledd Cymru, y dylai pob awdurdod lleol wneud cyfraniad o 0.5% yn uniongyrchol i'r dyraniad blynyddol ar gyfer Cefnogi Pobl. Yn achos Ynys Môn, byddai hynny'n arwain at

ostyngiad o £ 13,219 yn y grant ar gyfer darpariaeth leol. Mae Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi nodi'r meysydd gwasanaeth a restrir ym mharagraff 4.3 fel blaenoriaethau rhanbarthol.

Amlygodd y Swyddog newidiadau yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu hariannu fel y cyfeirir at hynny yn adran 5 yr adroddiad. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer pobl sy'n gadael y Carchar yn cynyddu 72.5% o ganlyniad i'r buddsoddiad o £ 35,243 yn swydd y Swyddog Adsefydlu. Yn flaenorol, roedd y swydd yn cael ei hariannu o'r grant Adran 180 ar gyfer Digartrefedd - bydd y cyllid ar gael yn awr i ddibenion eraill sy'n gysylltiedig ag atal digartrefedd.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth a gofynnodd am sicrwydd ynghylch y pwyntiau canlynol -

- Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ynghylch a oedd unrhyw effeithiau sy'n deillio o ddatblygiad Wylfa Newydd yn ystyriaeth yn y Cynlluniau Cefnogi Pobl. Dywedodd Prif Swyddog Datblygu'r Gwasanaethau Tai fod y gwasanaeth yn ymwybodol o effeithiau posibl datblygiad Wylfa Newydd a allai arwain at lefel gynyddol o ddigartrefedd os yw'r sector rhentu preifat yn ceisio sicrhau'r incwm rhent mwyaf posibl ar draul tenantiaethau cyfredol. Mae hyn wedi bod yn nodwedd mewn rhai ardaloedd yn Lloegr lle mae rhenti wedi cynyddu tair gwaith yn uwch na rhent y farchnad. Felly, er bod manteision ariannol sylweddol i ddatblygiad Wylfa Newydd, mae ochr arall i'r geiniog, ac mae angen i'r Awdurdod fod yn ymwybodol o'r ffactor digartrefedd a'r risg sy'n deillio o hynny.
- Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am sicrwydd na fydd symud swydd y Swyddog Adsefydlu o'r Rhaglen Atal Digartrefedd i'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn golygu colli swydd o fewn y ddarpariaeth atal digartrefedd. Cadarnhaodd Prif Swyddog Datblygu'r Gwasanaethau Tai mai mater ydyw o symud arian o un rhaglen i'r llall; bydd swydd y Swyddog Adsefydlu yn eistedd yn well yn y Rhaglen Cefnogi Pobl, gan golygu y gall yr arian gael ei ddefnyddio at ddibenion eraill sy'n ymwneud ag atal digartrefedd.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod lefelau digartrefedd ar gynnydd yn genedlaethol. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad o'r sefyllfa yn lleol. Dywedodd Prif Swyddog Datblygu'r Gwasanaethau Tai fod tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod lefelau digartrefedd yn cynyddu ar Ynys Môn hefyd gyda mwy o bobl mewn lleoliadau gwely a brecwast; mae yna hefyd nifer o faterion sy'n ymwneud â thlodi a materion cymdeithasol y gellir eu priodoli i ddigartrefedd. Mae'r gwasanaeth yn disgwyl i'r materion hyn waethygu am gyfnod gyda dynesiad diwygiadau lles y Llywodraeth sydd ddim yn argoeli'n dda am y dyfodol.

**Penderfynwyd cymeradwyo -**

- **Y Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl ar gyfer 2018-21 a'r argymhellion ynddo.**
- **Dyrannu arian i bob maes gwasanaeth fel yr amlinellir yn y Cynllun Gwariant ar dudalen 45 y Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl.**

## 10. CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI 2018-2048

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn ymgorffori Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai am 2018-48.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Tai mai'r Cynllun Busnes yw'r prif offeryn ar gyfer cynllunio ariannol er mwyn darparu a rheoli tai'r Cyngor ac mae'n dangos sut mae'r Cyngor yn dod â'i holl stoc i fyny i Safonau Ansawdd Tai Cymru; y modd y mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal a rhagori

DRAFT

ar y Safonau hyn a'r buddsoddiad sydd ei angen i gynyddu'r stoc dai. Mae'r Cynllun Busnes yn rhagdybio rhaglen ddatblygu o 45 uned yn 2018-19, 60 uned yn 2019/20 a 100 uned yn ystod 2021-22 sy'n cynnwys 40 o unedau tai gofal ychwanegol newydd yn ardal Seiriol.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith a oedd hi'n ymarferol o gofio bod stoc dai yr Awdurdod wedi bodloni Safonau Tai Ansawdd Cymru (SATC) ers 2012, i ostwng y ddarpariaeth ariannol yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ac i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu tai Cyngor newydd. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 fod rhaid i'r Awdurdod, ar ôl cyflawni SATC, sicrhau ei fod yn cynnal y safonau ac yn parhau i uwchraddio'r stoc. Mae'r Cynllun Busnes wedi'i seilio ar ragamcanion mewn perthynas â'r adnoddau sydd ar gael ac mae'n ofynnol i gynnal y safonau, yn ogystal â sicrhau capasiti ar gyfer adeiladu tai newydd. Rhaid taro cydbwysedd rhwng cynnal y stoc bresennol i Safonau Tai Ansawdd Cymru a sicrhau bod arian ar gael i ddatblygu tai cyngor newydd i ddiwallu anghenion tai. Dywedodd y Swyddog ei bod yn bwysig nodi hefyd fod y Cynllun Busnes wedi cael prawf straen i gymryd i ystyriaeth y risgiau e.e. y cynnydd mewn chwyddiant, cyfraddau llog uwch, mwy o gostau o ran gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ac ati er mwyn sicrhau hyfywedd y Cynllun a chynaliadwyedd y CRT yn y tymor hir.

Nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach fod y niferoedd ar y rhestr aros ar gyfer tai 1 a 2 ystafell wely yn llawer uwch na'r nifer ar gyfer tai 3 a 4 ystafell wely ; gofynnodd am esboniad am y gwahaniaeth. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Tai y gwelwyd newid yn y galw; mae'r gwasanaeth yn cynnal prawf fforddiadwyedd cyn i deuluoedd symud i mewn i dai cymdeithasol oherwydd nad yw teuluoedd bob amser yn gallu fforddio cartrefi 3 ystafell wely. Hefyd, bu newid demograffig gyda chynnydd yn nifer y bobl sengl a hŷn sy'n chwilio am gartrefi un ystafell wely.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2018-48 ac yn benodol, y gyllideb CRT ar gyfer 2018/19 fel y'i nodir yn y Cynllun ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**
- **Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer Tai am 2018/19 fel y caiff ei nodi yn Atodiad 3.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau i'r Cynllun Busnes cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**

**11. MODERNEIDDIO YSGOLION ARDAL LLANGEFNI (YSGOL Y GRAIG AC YSGOL TALWRN): ADRODDIAD YN DILYN YR AIL YMGYNGHORIAD**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith - adroddiad y Pennaeth Dysgu yn cynnwys yr adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol ar y cynnig i ehangu Ysgol y Graig i letya disgyblion Ysgol Talwrn ac i gau Ysgol Talwrn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid y cynhaliwyd ymgynghoriad anstatudol ar yr opsiynau ar gyfer moderneiddio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni gyda chyfeiriad at Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn rhwng Ionawr a Mawrth, 2017. Yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf, 2016, cynhaliwyd proses ymgynghori statudol rhwng 26 Medi a 13 Tachwedd, 2017. Cafwyd cyfnod o seibiant ac adolygu rhwng 18 Rhagfyr, 2017 a 9 Chwefror, 2018.

DRAFT

Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at adran 3, paragraff E o adroddiad ysgrifenedig y Swyddog lle mae Swyddog Monitro'r Cyngor yn nodi, gan nad oedd yr adroddiad ar yr adroddiad ymgynghori wedi'i gyhoeddi o fewn y cyfnod ymgynghori statudol (hyd at 13 wythnos o ddiwedd y cyfnod ymgynghori), mai'r cyngor cyfreithiol oedd ailgychwyn y cyfnod ymgynghori statudol (sydd yn gorfod cael ei gynnal am 42 diwrnod o leiaf) ar gyfer y cynnig hwn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod felly'n cynnig, yn unol â'r cyngor cyfreithiol, y dylid gohirio'r penderfyniad ar foderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni mewn perthynas ag Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn er mwyn caniatáu i broses ymgynghori statudol newydd ddigwydd. Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cytuno â'r cynnig.

Siaradodd y Cynghorydd Dylan Rees, Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fel Cadeirydd cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2018 lle ystyriwyd y mater hwn (roedd y Cadeirydd - Y Cynghorydd Aled Morris Jones yn absennol oherwydd salwch). Dywedodd y rhoddwyd cyfle i gynrychiolwyr o Gorff Llywodraethol Ysgol Talwrn a rhieni a phreswylwyr Talwrn annerch y cyfarfod. Siaradodd dau o Gynghorwyr Ward y Canolbarth hefyd fel Aelodau Lleol. Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees, wedi ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y cyfarfod, bod y Pwyllgor wedi penderfynu cefnogi'r argymhellion yn adroddiad y Pennaeth Dysgu o ran ehangu Ysgol y Graig ond roedd wedi argymell na ddylid cau Ysgol Talwrn.

**Penderfynwyd gohirio gwneud penderfyniad ynghylch moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni mewn perthynas ag Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn hyd oni fydd proses ymgynghori statudol newydd wedi ei chwblhau.**

**12. MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL SEIRIOL**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith - adroddiad y Pennaeth Dysgu yn cynnwys yr adroddiad ar y broses ymgynghori statudol mewn perthynas ag ysgolion yn ardal Seiriol.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid y cynhaliwyd ymgynghoriad anstatudol ar yr opsiynau ar gyfer moderneiddio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol am gyfnod rhwng Mehefin a Gorffennaf 2017. Yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref, 2017, cynhaliwyd proses ymgynghori statudol o 20 Tachwedd, 2017 hyd 6 Chwefror, 2018. Ystyriwyd yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2018.

Dywedodd yr Aelod Portffolio mai un o'r pethau y beirniadwyd yr Awdurdod yn ei gylch o ran ei broses gwneud penderfyniadau, yn enwedig mewn perthynas ag addysg, yw nad yw'n gwrando ar farn rhanddeiliaid, a bod materion yn cael eu penderfynu ymlaen llaw sy'n golygu mai ymarfer ticio blwch yn unig yw ymgynghori. Pwysleisiodd yr Aelod Portffolio bod yr Awdurdod yn gwrando ac yn yr achos hwn mae wedi nodi'r sylwadau cryf a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 12 Mawrth mewn perthynas â'r cynigion a gyflwynwyd - yn benodol mewn perthynas â chau Ysgol Biwmares - yn ogystal â'r sylwadau a wnaed yn ystod y broses ymgynghori yn enwedig gan gymuned Biwmares. O gofio'r farn a fynegwyd, dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod felly'n cynnig y dylid cynnal proses ymgynghori statudol newydd ar gyfer ardal Seiriol; bydd yr adroddiad ymgynghori yn adlewyrchu barn Estyn a rhanddeiliaid eraill a bydd yn seiliedig ar gynigion i gau naill ai Ysgol Biwmares neu Ysgol Llangoed am y rheswm bod yn rhaid i'r Awdurdod symud ymlaen â'r rhaglen i foderneiddio ysgolion ar yr Ynys.Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'rr cynnig.

DRAFT

Dywedodd y Pennaeth Dysgu, bod nifer o faterion a chwestiynau wedi cael eu codi cyn ac yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ond ar ôl i'r cyfnod ymgynghori gau; yn ogystal, cyflwynwyd opsiynau amgen. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth wedi rhoi'r pedwar opsiwn amgen a gyflwynwyd gan Gorff Llywodraethol Ysgol Biwmares yn ogystal ag opsiwn arall a gyflwynwyd gan Gadeirydd Pwyllgor Ymateb Ysgol Biwmares drwy'r broses sgorio; mae canlyniad y broses hon wedi'i nodi yn Atodiad 10 i'r adroddiad. Yn Atodiad 11, mae'r Gwasanaeth wedi ceisio mynd i'r afael â'r materion a'r cwestiynau ychwanegol a godwyd. Dywedodd y Swyddog fod rhai o'r sgorau ar gyfer yr opsiynau amgen yn debyg i'r sgôr ar gyfer yr opsiwn a ffefrir gan y Gwasanaeth; a dyna'r rheswm dros y cynnig i gynnal yr ymgynghoriad eto.

Siaradodd y Cynghorydd Dylan Rees, Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fel Cadeirydd cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2018 lle trafodwyd y mater hwn. Dywedodd fod cynrychiolwyr o Ysgol Biwmares a Chyngor Tref Biwmares wedi cael y cyfle i fynd i annerch y cyfarfod. Siaradodd dau o gynghorwyr ward Seiriol fel Aelodau Lleol a darllenwyd datganiad ar ran un Aelod o'r Ward. Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees, ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd a'r sylwadau a wnaed, ac yng ngoleuni'r lefel o bryder a fynegwyd a'r nifer o faterion sydd, yn nhŷb y Pwyllgor, yn dal i fod heb eu hateb, roedd y Pwyllgor wedi penderfynu argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid gohirio gwneud penderfyniad ar foderneiddio ysgolion yn ardal Seiriol er mwyn rhoi mwy o amser i adolygu ac i asesu'r effaith ar y gymuned, a hefyd i ffurfio grŵp rhanddeiliaid i edrych yn fanwl ar ffyrdd eraill o liniaru'r risgiau yn yr ardal.

Siaradodd y Cynghorydd Lewis Davies, Aelod Lleol, i gydnabod y bwriad i ymgynghori eto ar y ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol yn wyneb y farn gref a fynegwyd gan gymuned Biwmares a'r opsiynau amgen a gyflwynwyd. Pwysleisiodd ei fod yn Aelod lleol ar gyfer Ward Seiriol yn ei chyfanrwydd a dywedodd ei fod wedi bod yn gyson drwy gydol y broses yn ei gefnogaeth ar gyfer pob ardal yn y ward. Roedd wedi bod yn aelod o Gorff Llywodraethol Ysgol Llangoed ers 10 mlynedd ac wedi cadeirio'r Corff Llywodraethol ac wedi ymladd yn galed i gadw'r ysgol yn agored. Fe'i hetholwyd hefyd gan drigolion Biwmares ac felly fe ofynnwyd iddo ymladd dros y gymuned honno a'i hysgol. Roedd wedi rhoi sicrwydd y byddai'n gwneud ei orau iddynt hwy hefyd a dyna'r rheswm am y sylwadau a wnaed ganddo ar ran yr ysgol ac am dai cymdeithasol ar gyfer tref Biwmares. Yn anffodus, ac yn anghywir, mae hynny wedi cael ei ddehongli gan rai fel petai o blaid cau Ysgol Llangoed.

**Penderfynwyd gohirio gwneud penderfyniad ynghylch moderneiddio ysgolion yn ardal Seiriol fel y gellir cynnal ymgynghoriad statudol newydd ar y cynigion ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal.**

### 13. ASESIAD DIGONOLRWYDD CHWARAE

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith - adroddiad y Pennaeth Dysgu yn cynnwys adolygiad o Gynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae 2017/18.

Cymeradwyodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid yr adroddiad a'r Cynllun Gweithredu i'r Pwyllgor Gwaith.

Cadarnhaodd y Pennaeth Dysgu nad oes pryderon nad yw'r Awdurdod yn bodloni'r gofynion statudol o ran cyfleoedd chwarae a digonolrwydd chwarae. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae swydd y Swyddog Chwarae yn cael ei hariannu wedi newid. Ariannwyd y swydd yn flaenorol

DRAFT

drwy'r grant Teuluoedd yn Gyntaf; oherwydd y bydd telerau'r grant yn newid o fis Ebrill, 2018 ac oherwydd bod hwn yn ofyniad statudol, ni ellir defnyddio'r grant at y diben hwn. O ganlyniad, ac oherwydd bod deilydd y swydd wedi gadael, mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi ymgorffori dyletswyddau'r swydd o fewn ei Uned Cefnogi Teuluoedd a bydd yn cyfuno'r cyfrifoldebau statudol â rhai’r asesiad digonolrwydd gofal plant. Bydd hyn yn caniatáu cyflawni, targedu adnoddau a datblygu mewn modd cydlynol ar draws y ddau sector. Dywedodd y Swyddfa bod yr adolygiad o'r cynllun gweithredu yn mynd i'r afael â naw maes gwaith y mae gofyn statudol i’r Awdurdod adroddi arnynt yn cynnwys gwaith a wnaed gydag ysgolion a chymunedau i sicrhau gweithgareddau chwarae am ddim / cost isel, cyfleoedd chwarae mewn ardaloedd gwledig a chyfleoedd chwarae i ddiwallu anghenion penodol plant a phobl ifanc. Mae'r cynllun gweithredu yn adrodd ymhellach ar y modd y mae'r Awdurdod yn sicrhau bod gweithgareddau chwarae yn digwydd o fewn amgylchedd diogel.

Nododd y Pwyllgor Gwaith fod gwahoddiadau i wneud cais am gyllid ar gyfer mannau chwarae yn cael eu cyhoeddi gyda therfynau amser tynn iawn (llai na 24 awr mewn rhai achosion) sy’n ei gwneud hi'n anodd i grwpiau / sefydliadau wneud cais oni bai bod cynlluniau parod ganddynt ar y silff y gallant eu cyflwyno ar fyr rybudd. Nododd y Pwyllgor Gwaith, er ei bod yn ddoeth o beth i grwpiau fod â chynlluniau yn barod, y dylid pwyso hefyd ar Lywodraeth Cymru fod angen i'r amserlen ar gyfer cyflwyno cynlluniau / ceisiadau o'r fath fod yn realistig.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu, er bod yr arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei ryddhau yn flynyddol yn ychwanegol at y grant cyfleoedd chwarae yn tueddu i fod yn hwyr, bod y rhan fwyaf o bartneriaid yr Awdurdod sy’n ymwneud â chwarae wedi llunio cynlluniau erbyn hyn sy’n golygu mai mater yn unig o sicrhau bod y cais yn cael ei gyflwyno ydyw wedyn.

**Penderfynwyd cymeradwyo’r Cynllun Gweithredu drafft ar gyfer Digonolrwydd Chwarae am 2017-18 ac anfon y Cynllun i Lywodraeth Cymru yn unol â’r gofyniad statudol.**

## 14. CYNLLUN ADFYWIO GOGLEDD CYMRU A CHYLLID TRIP

Cyflwynwyd er sylw’r Pwyllgor Gwaith - adroddiad ar y cyd rhwng y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r Rhaglen Buddsoddiad Adfywio a Dargedir (TRIP).

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd fod TRIP wedi cael ei lansio i ddarparu cyllid adfywio cyfalaf yng Nghymru o fis Ebrill 2018 ac mae'n disodli'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP) ar gyfer 2014-17. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd pob un o'r pedair partneriaeth datblygu economaidd rhanbarthol i ddatblygu strategaethau adfywio hirdymor i lywio'r buddsoddiad TRIP yn eu rhanbarthau. Mae swyddogion o Grŵp Swyddogion Adfywio Gogledd Cymru a Grŵp Rheoli Rhaglen Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) wedi arwain ar ymateb Gogledd Cymru i'r cyfle hwn. Cytunwyd y dylid cael Strategaeth Adfywio ar gyfer Gogledd Cymru gyda'r blaenoriaethau a nodir yn yr adroddiad. Mae'n rhaid i gynlluniau gael cefnogaeth yr holl 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru er mwyn i Ogledd Cymru gael mynediad at gyllid TRIP.

Yn seiliedig ar gyngor gan Lywodraeth Cymru, cynigir 12 tref fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymyriadau adfywio trefol yng Ngogledd Cymru; mae'r rhain wedi'u nodi gan ddefnyddio safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer lefelau cyffredinol amddifadedd yn seiliedig ar bresenoldeb Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACHI) sydd ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dim ond un ACHI sydd gan Ynys Môn yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Morawelon) ac oherwydd hyn mae Caergybi yn ymddangos ar y

DRAFT

rhestr o 12 ardal adfywio ond nid felly'r trefi eraill yn Ynys Môn, ac mae'r niferoedd poblogaeth cymharol is yng Nghaergybi yn golygu nad yw ymhlith y pedwar ardal ar gyfer buddsoddiad blaenoriaeth (Y Rhyl, Wrecsam, Bangor a Bae Colwyn). Nodwyd bod y fethodoleg hon yn nodi crynodiadau tlodi sy'n gysylltiedig â threfi ac aneddiadau trefol ar draul trefi llai ac ardaloedd gwledig. Er bod yr angen i fynd i'r afael â materion tlodi ac adfywio mewn trefi llai ac ardaloedd gwledig wedi'i gydnabod, nid oes unrhyw fesurau i fynd i'r afael â'r anghenion hynny.

Dywedodd yr Aelod Portffolio fod swm yr arian sydd ar gael yn gymharol fach, tybir y bydd £22m ar gael dros dair blynedd i Ogledd Cymru. Ni all TRIP ariannu buddsoddiadau cyfalaf yn unig a bydd yn darparu hyd at 70% o gostau prosiect (neu 50% ar gyfer datblygu prosiectau). Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno mewn egwyddor y gall peth o gyllid Gogledd Cymru gael ei ddefnyddio ar gyfer rhaglenni thematig sy'n cwmpasu mwy nag un sir - un rhaglen o'r fath sy'n cael ei hystyried yw adeiladau gwag yn Ynys Môn / Gwynedd.

Rhestrir cynigion dros dro ar gyfer cyllid Prosiect TRIP yn Ynys Môn yn yr adroddiad; bydd gwaith pellach yn digwydd dros yr wythnosau nesaf i gwblhau'r cynigion yn barod i'w cyflwyno yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod tlodi ac amddifadedd hefyd yn bodoli mewn trefi / pentrefi / ardaloedd gwledig llai a bod y defnydd o ddata lefel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru / ACHI yn golygu ei fod yn aml yn guddiedig. Mae Strategaeth Adfywio Gogledd Cymru sy'n esblygu yn cydnabod bod angen mynd i'r afael ag anghenion ardaloedd gwledig, ond nid yw'r rhaglen TRIP bresennol yn anelu at wneud hynny; felly rhaid gwneud gwaith i fynd i'r afael â'r bwlch hwn.

Cadarnhaodd y Rheolwr Adfywio y bydd Ynys Môn yn gweithio ar y cyd â Chyngor Gwynedd ar y Thema Eiddo Gwag gydag Ynys Môn yn gweithredu fel corff y arweiniol. Yn ychwanegol at hyn, bydd y mynegeion ystadegol yn cael eu hadolygu yn 2019, gan olygu y bydd cyfle i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n well y tlodi a'r amddifadedd mewn ardaloedd gwledig yn y dyfodol.

**Penderfynwyd awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) a'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) i -**

- **Gymryd rhan yn y broses o baratoi Strategaeth Adfywio Ranbarthol gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) ar gyfer ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru;**
- **Trafod dyraniadau ariannol a chyflwyno ceisiadau am arian o'r Rhaglen TRIP i Lywodraeth Cymru, ar yr amod bod y Swyddog A151 yn cytuno;**
- **Derbyn a gwario'r arian TRIP a gymeradwywyd, gan gynnwys dyfarnu grantiau i eraill ar gyfer prosiectau cymwys, ar yr amod bod y Swyddog A151 yn cytuno;**
- **Ceisio denu cymaint o gyllid TRIP ag sy'n bosibl i Ynys Môn, a pharatoi prosiectau yn barod ar gyfer cyfleon posib i sicrhau cyllid ychwanegol;**
- **Lobïo i geisio creu cronfa adfywio sydd wedi ei dylunio i gynorthwyo prosiectau adfywio mewn trefi llai ac ardaloedd gwledig.**
- **Trafod a dod i gytundeb gyda chynghorau sir eraill yng Ngogledd Cymru ble mae angen hynny er mwyn ymgeisio am neu dderbyn cyllid TRIP, yn amodol ar gytundeb y Swyddog A151 a Swyddog Monitro'r Cyngor.**

**Y Cynghorydd Ieuan Williams**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Dr Gwynne Jones (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorydd Margaret M. Roberts (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)<br>Dr Caroline Turner (Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Fôn Roberts (Pennaeth Gwasanaethau Plant)<br>Gwyneth M. Hughes (Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiad Ysgolion)<br>Huw Owen (Swyddog Adolygu Annibynnol)<br>Heulwen Owen (Swyddog Cyswllt Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal)<br>Llyr ap Rhisiart (Rheolwr Ymyrraeth Gynnar ac Atal) (ar gyfer eitem 5)<br>Ffion Rhisiart (Arweinydd Ymarfer) (ar gyfer eitem 9)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg), y Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau) Liz Fletcher (BIPBC), Douglas Watson (Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn), Llyr Bryn Roberts (CSYM) Llinos Edwards (CSYM), Rona Jones (CSYM) |

1

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 11 RHAGFYR, 2017**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2017 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3 MATERION YN CODI**

- Mewn perthynas â'r cyflwyniad a wnaed ar recriwtio a chadw gofalwyr maeth, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod y gwasanaeth yn bwriadu ymgorffori mwy o fanylder yn y cyflwyniad ar ôl y Pythefnos Maethu ym mis Mai. Rhoddir cyflwyniad ar waith y tîm Teuluoedd Gwydn i'r Panel Plant ar 20 Mawrth, 2018.
- Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at blant yr Awdurdod sy'n derbyn gofal i gydnabod eu llwyddiant mewn arholiadau.
- Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant ei fod wedi bod mewn cysylltiad â Rheolwr newydd y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a

gadarnhaodd y byddai'n fodlon mynychu'r Panel Rhiant Corfforaethol unwaith y flwyddyn i ddiweddaru'r Panel ar y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl.

**CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Gwasanaethau Plant i gadarnhau presenoldeb CAMHS yng nghyfarfod nesaf y Panel ar 11 Mehefin, 2018.**

**4 GWERTHUSO GWASANAETHAU RHIANT CORFFORAETHOL CSYM - ADRODDIAD Y SWYDDOGION ADOLYGU ANNIBYNNOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddogion Adolygu Annibynnol i'r Panel. Roedd yr adroddiad yn dadansoddi ansawdd gweithredoedd yr Awdurdod mewn perthynas â'i ddyletswyddau rhianta corfforaethol a chynllunio gofal ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, ac roedd yn canolbwyntio ar gynllunio gofal ac adolygu yn y Gwasanaethau Plant.

Dywedodd Huw Owen, Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA) fod yr adroddiad yn seiliedig ar nifer o werthusiadau o ymarfer a gynhaliwyd yn Chwarter 3 2017/18 ac yr adroddwyd / gweithiwyd arnynt yn Chwarter 4. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol -

- Dadansoddiad thematig o ymarfer fel yr adlewyrchir gan gynlluniau amddiffyn plant, cynlluniau gofal a chymorth a gwaith paratoi ar gyfer adolygiadau / cynadleddau ym Medi, 2017;
- Atborth o drosolwg a goruchwyliaeth chwarterol gan y swyddogion diogelu annibynnol mewn Adroddiad ar Ansawdd Ymarfer ar gyfer Chwarter 3;
- Gwersi a ddysgwyd o adolygiadau rheoli penodol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod.

Dywedodd y SAA fod canfyddiadau'r dadansoddiad o'r dystiolaeth fel y cyfeirir ato uchod wedi eu crynhoi isod-

- Cynllunio gwael cyn adolygu. Nid yw Cynlluniau Gofal / Cynlluniau Gofal a Chymorth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ar gael yn gyson ar gyfer adolygiadau. Gall diffyg dogfennaeth berthnasol gael effaith ar weithredu cynllun yn llwyddiannus ar gyfer y plentyn a gall effeithio ar waith paratoi ar gyfer plant a'u teuluoedd yn ogystal ag effeithiolrwydd y broses adolygu.
- Anghysondeb ymarfer. Rhoddir gormod o ddibyniaeth ar weithwyr cymdeithasol unigol. Mae angen gwell rheolaeth ansawdd gan Arweinwyr Ymarfer er mwyn sicrhau ymarfer cyson.
- Mae'r data perfformiad yn dangos y cydymffurfir â'r amserlenni o ran amseroldeb yr adolygiadau. Fodd bynnag, mae ansawdd y gwaith paratoi ar gyfer adolygiadau a chynadleddau yn parhau i fod yn wael.
- Canfuwyd enghreifftiau lle na weithredwyd ar argymhellion adolygiadau blaenorol. Gall peidio â gweithredu neu gwblhau'r fath gamau arwain at oedi a diffyg cynnydd i'r plentyn.
- Mae angen sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Lleoli â Rhieni ym mhob achos. Mae'r SAA yn nodi ac yn croesawu'r archwiliad a gynhaliwyd o Leoliadau â Rhieni er mwyn monitro cydymffurfiaeth ac i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth.
- Nodwyd arfer da o ran y gwaith a wneir i ddiddymu gorchmynion gofal mewn nifer o achosion - mae rhai ohonynt wedi'u cydnabod ers tro fel achosion lle dylid diddymu gorchmynion.
- Cafwyd cryn dipyn o oedi mewn achos na ellid ei briodoli'n unig i'r Gwasanaethau Plant. 'Roedd Asiantaethau Partner wedi cyfrannu at yr oedi drwy gyfeirio atgyfeiriadau yn ôl neu drwy gymryd amser maith i ymateb. Mae angen

gwella arferion o ran asesu anghenion gofal a chymorth a gwneud penderfyniadau amserol ar sefydlogrwydd.

Cyfeiriodd y SAA at yr argymhellion a wnaed ar gyfer y gwasanaeth yn adran 4 yr adroddiad i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd ac yr adroddwyd arnynt. Nodwyd pum amcan gwella fel y nodwyd hwy yn yr adroddiad a nodwyd argymhellion ar gyfer gweithredu yn erbyn pob un. Mae'r rhain yn y broses o gael eu gweithredu. O ran argymhelliad 2, roedd y SAA yn pryderu nad oedd gan nifer o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gynllun gofal - mae pob achos wedi cael ei adolygu ers hynny. Yn ystod y chwarter diwethaf, mae'r SAA wedi bod yn gweithio gydag Arweinwyr Ymarfer i drosi'r argymhellion yn gynllun gwella. Mae angen newid rhai prosesau ac arferion er mwyn gwneud y broses adolygu yn gadarnach ac yn hwylusach i'r plentyn.

Cyfeiriodd y SAA at bro-fforma drafft newydd ar gyfer adroddiad gwaith cymdeithasol yng nghyswllt adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi ei atodi i'r adroddiad. Mae'r templed newydd yn ceisio cynnwys y materion pwysig yn y cyfnod ers yr adolygiad blaenorol trwy ychwanegu "cronoleg o ddigwyddiadau arwyddocaol" i'r adroddiad ynghyd ag adran sy'n caniatáu dadansoddiad byr o'r digwyddiadau, y cynnydd a wnaed gan y plentyn ac unrhyw newidiadau dilynol i'r cynllun gofal. Bydd gallu cyfeirio at gronoleg o ddigwyddiadau yn helpu i wneud y broses adolygu'n fwy trylwyr. Ymgynghorir ar yr adroddiad drafft newydd gydag Arweinydd Ymarfer a Gweithiwr Cymdeithasol a chynhelir trafodaeth ehangach wedi hynny.

Gorffennodd y SAA drwy ddweud y bu arwyddion positif bod ymarfer yn gwella ers diwedd Chwarter 3, gan gynnwys sicrhau bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal gynllun gofal.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant fod ychydig o gynlluniau gofal angen sylw ar ddechrau Chwarter 3 ; mae'r rheini wedi'u cwblhau ers hynny. Mae'r gwasanaeth yn edrych ar sut mae cynlluniau gofal yn cael eu llunio ac a fyddai'n fwy priodol gwneud hynny mewn cyfarfod neu y tu allan i gyfarfod. Mae'r gwasanaeth hefyd yn trafod yr argymhelliad y dylai asesiad cyfoes o anghenion pob plentyn gynnwys llun a disgrifiad byr o bob plentyn ar y ffeil. O ran yr adroddiad drafft gwaith cymdeithasol newydd ar gyfer adolygiadau plant y gofelir amdanynt , er y cydnabyddir bod yn rhaid i'r adroddiad gynnwys y wybodaeth berthnasol a bod raid iddo fod yn fwy na ymarfer ticio blwch, mae'r gwasanaeth yn awyddus i osgoi ychwanegu at faich gwaith gweithwyr cymdeithasol; efallai bod y wybodaeth y gofynnir amdani gan yr adroddiad ar gael eisoes ar y system a gellid cael gafael ar wybodaeth o'r fath trwy ddulliau electronig.

Ystyriodd y Panel y wybodaeth a gwnaeth y pwyntiau canlynol -

- Nododd a chytunodd y Panel y dylai'r adroddiad gwaith cymdeithasol ar gyfer adolygiadau plant y gofelir amdanynt ddarparu lefel briodol o wybodaeth gan gynnwys cronoleg o ddigwyddiadau ers yr adolygiad diwethaf. Nododd y Panel hefyd, os yw'r wybodaeth eisoes yn cael ei chasglu ac ar gael trwy ddulliau eraill e.e. yn electronig trwy System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yna dylid ymchwilio i hynny. Nododd y Panel na ddylai cynhyrchu'r wybodaeth fod yn dasg arall i weithwyr cymdeithasol.
- Nododd y Panel anghysondeb rhwng y ffigurau a ddyfynnwyd ar gyfer Medi, 2017 mewn perthynas ag argaeledd adroddiadau / dogfennau trefniadau adolygu cyn yr

adolygiadau a'r ffigyrau canran cyfatebol. Gofynnodd y Panel am eglurhad ar y data ar gyfer y cyfarfod nesaf.

- Cytunodd y Panel y dylai'r adroddiad nesaf i'r Panel gan yr Uned Ansawdd a Diogelu ganolbwyntio ar gynnydd yn erbyn y cynllun gwella.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL:**

- **SAA i egluro'r ffigyrau / canrannau yn yr adroddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.**
- **Pennaeth Gwasanaethau Plant i adrodd i gyfarfod nesaf y Panel ar gynnydd yn erbyn yr amcanion gwella a nodir gan yr adroddiad Uned Ansawdd a Diogelu.**
- **Pennaeth Gwasanaeth Plant i ymchwilio a yw'r wybodaeth y mae ei hangen ar gyfer yr adroddiad gwaith cymdeithasol ddrafft newydd yn cael ei chasglu eisoes ac ar gael.**

## 5 DATA YNGHYLCH PLANT SYDD AR GOLL

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth (Ymyrraeth Gynnar ac Atal) gyflwyniad i'r Panel ar amddiffyn plant sydd ar goll rhag cael eu hecsbloetio.

Tynnodd y Swyddog sylw at y canlynol mewn perthynas â phlant sy'n mynd ar goll -

- Gall plant sy'n mynd ar goll gael eu hecsbloetio'n rhywiol neu'n droseddol; gallai patrwm rheolaidd o fynd ar goll o’r cartref fod yn arwydd o blant sy'n cael eu hecsbloetio.
- Yn ôl y diffiniad cyfreithiol, ystyrir bod plentyn ar goll o’i gartref pan na wyddys ble mae mewn cyfnod o chwe awr neu ar unrhyw amser ar ôl hanner nos. Ystyrir bod absenoldeb yn "absenoldeb anawdurdodedig" os yw plentyn wedi bod i ffwrdd o'r lleoliad am gyfnod o chwe awr neu tan hanner nos ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb. Mae rhai plant yn profi'r ffiniau ac ni chysylltir â’r Heddlu yn eu cylch; staff y cartref gofal neu'r gofalwr maeth sy’n gyfrifol am reoli’r agwedd hon. Fodd bynnag, efallai y bydd angen ymateb cyflymach yn achos rhai plant, yn dibynnu ar eu hasesiad risg. Rhaid i blant yn y categori hwn fod yn destun asesiad risg parhaus tra bônt yn absennol.
- Y llynedd, bu 148 o ddigwyddiadau lle cafwyd gwybod am blant ar goll yn Ynys Môn. Roedd y mwyafrif helaeth o’r plant hyn yn fregus ac roeddynt naill ai'n blant mewn gofal neu'n blant yr oedd y gwasanaethau cymdeithasol i blant yn gwybod amdanynt. Nid oedd pob un o'r digwyddiadau hyn yn ymwneud â phlant a phobl ifanc a oedd yng ngofal Cyngor Sir Ynys Môn neu blant a phobl ifanc yr oedd y cyngor yn gwybod amdanynt - roedd 27 mewn perthynas â phlant yng ngofal Cyngor Gwynedd sydd mewn lleoliadau ar Ynys Môn; a 44 yn blant yng ngofal awdurdodau eraill mewn lleoliadau ar Ynys Môn.
- Pan fydd plant yn mynd ar goll o gartref / lleoliad, mae'r gofynion ymarfer yn golygu bod rhaid cynnal cyfweliad dychwelyd i'r cartref o fewn tri diwrnod; Rhaid cynnal asesiad SERAF (Fframwaith Asesu Risg Camfanteisio Rhywiol); cyfeirir y mater at y tîm ONYX (Heddlu Gogledd Cymru) a chynhelir cyfarfod strategaeth aml-asiantaethol.
- O ran mynd i'r afael â’r mater plant sy'n mynd ar goll, mae’r Panel Rhanbarthol CSE wedi argymell y dylid creu tîm penodol o weithwyr cymdeithasol i gynnal y cyfweliadau dychwelyd i’r cartref gyda phob cyngor ar draws rhanbarth Gogledd Cymru yn cyfrannu £ 20k tuag at gost y tîm rhanbarthol. Mae'r trafodaethau ynglŷn â

DRAFT

sefydlu'r gwasanaeth hwn yn parhau. (Byddai hyn yn cymryd lle'r gwasanaeth a ddarparwyd gan Barnado’s yn y gorffennol gyda chymorth a chyllid gan yr Heddlu – mae’r cyllid hwnnw bellach wedi dod i ben.) Ystyrir hefyd y posibilrwydd o gytuno ar strategaeth ar y cyd ar lefel fwy lleol gyda Chyngor Gwynedd.

- Mae'r Gwasanaeth yn cymryd camau i wella ei allu i gasglu gwybodaeth ac i fonitro perfformiad o ran cynnal cyfweliadau dychwelyd i'r cartref o fewn yr amserlen. Nid yw'n broses arbennig o gymhleth a disgwylir y bydd y gwasanaeth yn gallu dangos gwelliant mewn ymarfer yn ystod y 12 mis nesaf a hefyd yn gallu gwneud y cysylltiad ag ecsbloetio gan fod cysylltiad agos rhwng y ddau faes.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant nad yw'r broses ar gyfer delio â phlant sy'n mynd ar goll yn arbennig o anodd ond fe’i cymhlethir gan achosion plant sy'n mynd ar goll o dan ofal awdurdodau eraill mewn lleoliadau ar Ynys Môn ond nad ydynt o reidrwydd yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod yn Ynys Môn.

Nododd y Panel, mewn perthynas â’r bwriad i sefydlu tîm rhanbarthol i gynnal cyfweliadau dychwelyd i’r cartref, y gallai bod modelau amgen, mwy cost-effeithiol ar gyfer sicrhau bod y cyfweliadau'n cael eu cynnal o fewn yr amserlen ac sy’n cwrdd yn well ag anghenion Ynys Môn. Gallai'r Awdurdod ddefnyddio'r cyfraniad o £20k tuag at dîm rhanbarthol i sefydlu ei wasanaeth ei hun a fyddai ar gael i blant sydd yng ngofal y gwasanaeth yn Ynys Môn yn unig. Nododd y Panel mai'r flaenoriaeth yw sicrhau bod y cyfweliadau dychwelyd i’r cartref yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion ac, os oes angen, bod trefniadau lleol amgen yn cael eu gwneud yn y tymor byr, hyd nes y ceir cadarnhad o sefydlu gwasanaeth rhanbarthol, i sicrhau bod hynny'n digwydd.

**Cytunwyd i dderbyn a nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL: Pennaeth Gwasanaethau Plant mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol i ystyried gwneud trefniadau amgen i sicrhau bod cyfweliadau dychwelyd i'r cartref yn cael eu cynnal ar gyfer plant a fu ar goll, hyd nes y ceir cadarnhad o sefydlu gwasanaeth rhanbarthol.**

## 6 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Cytunwyd dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 7 isod ar y sail ei fod yn golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 7 GWOBRAU SÊR

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Cyfranogiad mewn perthynas â threfnu ail ddigwyddiad Gwobr Sêr ym mis Tachwedd, 2017 ar gyfer ystyriaeth y Panel.

Adroddodd y Swyddog Cyswllt Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal y cynhaliwyd y Gwobrau Sêr cyntaf ffurfiol i ddathlu llwyddiannau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan Gyngor Sir Ynys Môn ym mis Hydref, 2015. Rhoddwyd y gwersi a ddysgwyd o'r profiad a’r argymhellion dilynol ar waith pan drefnwyd y dathliadau ar gyfer 2017 (cynhelir y gwobrau bob dwy flynedd). Fel rhan o hyn, roedd Gwobrau Sêr 2017 yn agored i blant dan 5 oed a chawsant eu trefnu a’u cynllunio mewn partneriaeth â grŵp o Blant sy'n Derbyn Gofal yn Ynys Môn.

Cyfeiriodd y Swyddog at linell amser y trefniadau a arweiniodd at y noson wobrwyo yn 2017. Fe gymerodd plant a phobl ifanc y gofelir amdanynt gan yr Awdurdod ran weithredol wrth drefnu'r digwyddiad, gan gynnwys dewis y lleoliad, y thema, yr adloniant a'r fwydlen.

Daeth dros 120 o bobl i'r gwobrau ym mis Tachwedd, 2017 a gynhaliwyd dros ddau ddigwyddiad - un seremoni i blant oed ysgol gynradd ac ail seremoni i blant hŷn, pobl ifanc a rhai sy'n gadael gofal - gan gynnwys 56 o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Rhoddwyd gwobr i'r holl blant a phobl ifanc a enwebwyd, p'un a oeddent wedi mynychu ai peidio. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y noson yn llwyddiant ysgubol ac roedd pawb a oedd yn bresennol, yn enwedig y plant a'r bobl ifanc, wedi mwynhau. Roedd yn ddigwyddiad llawn hwyl ac emosiynol, gan adlewyrchu cyflawniadau cadarnhaol plant a phobl ifanc Ynys Môn sy'n derbyn gofal.

Dangosodd y Swyddog Cyswllt Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ffilm fideo fer i'r Panel o ddigwyddiad gwobrau Sêr 2017, gan gynnwys cyfraniadau gan rai a gymerodd ran.

Y neges allweddol o ddigwyddiad o'r fath yw pwysigrwydd cydnabod a dathlu cyflawniadau plant a phobl ifanc Ynys Môn sy'n derbyn gofal ac y bydd llawer ohonynt wedi bod trwy gyfnodau anodd. Mae'r gwobrau'n dangos yr hyn y gellir ei gyflawni gyda dewrder, penderfyniad a chymorth. Mae'r gwobrau hefyd yn dangos balchder yr Awdurdod fel rhiant corfforaethol ; maent yn gwneud i blant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hybu hunan-barch pobl ifanc ac yn eu hannog i barhau i gyflawni a datblygu.

Dywedodd y Swyddog, yn dilyn ymlaen o ddigwyddiad 2017, y gwnaethpwyd argymhellion i hwyluso'r gwaith trefnu ar gyfer y gwobrau yn y dyfodol a bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth baratoi ar gyfer Gwobrau Sêr nesaf yn 2019.

Mynegodd y Panel ei werthfawrogiad o'r gwaith a wnaed i drefnu Gwobrau Sêr 2017 a'r brwdfrydedd yr oedd y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod wedi cyfrannu at gynnal y digwyddiad. 'Roedd y Panel yn gytûn bod digwyddiad 2017 wedi adeiladu ar lwyddiant y gwobrau cyntaf yn 2015. Cytunodd hefyd y dylid dangos y clip fideo i holl Aelodau Etholedig y Cyngor (e.e. ar ddiwedd cyfarfod o'r Cyngor Llawn), fel y gallant, fel rhieni corfforaethol, rannu yng nghyflawniadau'r plant a'r bobl ifanc y maent ar y cyd yn gyfrifol am ofalu amdanynt fel Cyngor.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad a chefnogi'r argymhellion o ran trefnu gwobrau Gwobrau Sêr 2019.**

**CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL: Pennaeth y Gwasanaethau Plant, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, i drefnu i'r clip fideo o Wobrau Sêr 2017 gael ei ddangos i Aelodau Etholedig y Cyngor fel rhieni corfforaethol.**

## 8 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Cytunwyd dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 9 isod ar y sail ei fod yn golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 9 ASTUDIAETH ACHOS

Cafodd y Panel amlinelliad gan Ffion Rhisiart, Arweinydd Ymarfer o achos penodol lle'r oedd person ifanc yng ngofal yr Awdurdod wedi goresgyn heriau sylweddol i wneud cynnydd tuag at ddyfodol mwy disglair.

Rhoddodd yr Arweinydd Ymarfer broffil o'r person ifanc a oedd yn destun yr astudiaeth achos a disgrifiodd y problemau a oedd wedi arwain at y person ifanc yn cael ei roi mewn gofal. Dywedodd bod y gwasanaeth wedi ceisio gweithio ochr yn ochr â'r person ifanc ac yn arbennig wedi ceisio gwrando'n ofalus ar yr hyn yr oedd y person ifanc yn ei ystyried oedd yn bwysig er mwyn gallu symud ymlaen. 'Roedd y gwasanaeth wedi trefnu addysg o fewn y lleoliad gofal a hefyd wedi darparu therapi priodol.

Dywedodd yr Arweinydd Ymarfer bod yr enghraifft yn dangos sut y llwyddodd yr Awdurdod i gadw person ifanc bregus yn ddiogel o fewn y gymuned heb orfod gwneud trefniadau all-sirol. Mae hefyd yn dangos, gyda'r math iawn o gefnogaeth ac ymagwedd, y gellir cyflawni canlyniadau da ar gyfer plant a phobl ifanc, er gwaethaf yr amgylchiadau.

Diolchodd y Panel i'r Arweinydd Ymarfer am y wybodaeth. Nododd y Panel y canlynol -

- Pwysigrwydd cael mynediad i'r lleoliad cywir gyda'r gefnogaeth briodol er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal
- Gwerth lleoliad preswyl yn y tymor byr.
- Pwysigrwydd mewnbwn gan CAMHS fel rhan o'r gefnogaeth a ddarperir.

'Roedd y Panel yn gytûn y dylid rhannu'r wybodaeth gydag Aelodau Etholedig y Cyngor yn eu rôl fel rhieni corfforaethol fel enghraifft o sut mae'r Awdurdod wedi cael dylanwad cadarnhaol ar fywyd person ifanc yn ei ofal.

**Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.**

**CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL** : **Pennaeth Gwasanaethau Plant, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, i drefnu i'r astudiaeth achos gael ei chyflwyno i Aelodau Etholedig y Cyngor fel rhieni corfforaethol.**

## 10 Y CYFARFOD NESAF

Nododd y Panel y cynhelir cyfarfod nesaf y Panel am 2:00 pm ar ddydd Llun, 11 Mehefin, 2018.

**Dr Gwynne Jones**
**Cadeirydd**



DRAFT

# PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Alun Mummery (Cadeirydd)<br><br>**Yr Awdurdod Lleol**<br><br>Y Cynghorwyr Kenneth P Hughes, Gwilym O Jones |
| **WRTH LAW:** | Mr J Huw Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd - CSYM)<br>Mrs Sian Purcell (Prif Swyddog - Medrwn Môn)<br>Ms Lindsey Williams (Lleisiau Leol - Medrwn Môn)<br>Mr Andrew M Hughes (Medrwn Môn)<br>Ms Sandra Roberts (Age Cymru - Gwynedd a Môn)<br>Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Llinos Medi, R Meirion Jones<br>Mr Islwyn Humphreys (Samariaid)<br>Ms Eirian Wynne Williams (BIPBC) |

---

**1. CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Alun Mummery yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyswllt hyd at ddiwedd Mawrth, 2018.

**2. IS-GADEIRYDD**

Gohiriwyd ethol yr Is-Gadeirydd tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyswllt.

**3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**4. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 12 Ionawr, 2017 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**Yn codi o’r cofnodion: -**

**Eitem 6 – Lleisiau Lleol**

Cafwyd diweddariad gan Ms Lindsey Williams, Medrwn Môn ar y prosiect Lleisiau Lleol, a ddaeth i ben ddiwedd Mawrth, 2017. Dywedodd fod cyllid wedi'i ymestyn, o dan y Portffolio Lleisiau Lleol newydd, tan 31 Mawrth, 2018, gyda chyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer y prosiect "Llais Ni" (Cyngor Ieuenctid Môn). Nodwyd y byddai'r portffolio yn parhau i fod yn rhan o brosiectau sy'n ymwneud ag adeiladu cymunedau ar ôl Mawrth 2018, a byddai'r gwaith a fabwysiadwyd yn flaenorol gan Lleisiau Lleol yn parhau drwy'r Bwrdd Gwasanaeth ac Ymgysylltu.

**5. GRŴP TRYDYDD SECTOR**

Ni thrafodwyd yr eitem hon.

**6. CYNLLUN GWEITHREDU DRAFFT AR GYFER PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL**

Cyflwynodd Prif Swyddog Medrwn Môn fersiwn ddrafft o Gynllun Gweithredu i'r Pwyllgor o'r enw 'Gyda'n Gilydd', sef dogfen ar gyfer y bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn, Medrwn Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Nododd bod y Cynllun Gweithredu yn ddogfen weithredol sy'n esblygu'n barhaus.

**Gweithredu:**

- **Y Prif Swyddog, Medrwn Môn i drafod Y Cynllun Gweithredu drafft ymhellach gyda swyddogion o'r Cyngor;**
- **Cyflwyno diweddariad pellach i'r cyfarfod nesaf.**

**7. CYLCH GORCHWYL AR GYFER Y PWYLLGOR**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd 'Gylch Gorchwyl' y Pwyllgor fel y gellid adolygu ei gynnwys.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog, Medrwn Môn at Eitem 2 - bod dwy sedd wag ar hyn o bryd ar gyfer aelodaeth y Trydydd Sector ar y Pwyllgor Cyswllt. Nodwyd fod gan y Sector dri aelod etholedig ar y Pwyllgor ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD: -**

**diwygio 'Cylch Gorchwyl' y Pwyllgor fel a ganlyn: -**

- **Adrannau 3-8 – newid y gair 'Bwrdd' i 'Pwyllgor';**
- **Adran 6 – bod y Pwyllgor yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn gyda'r amod y gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol os bydd angen.**
- **Bod y Prif Swyddog, Medrwn Môn yn hysbysebu'r ddwy swydd wag am gynrychiolwyr Trydydd Sector ar y Pwyllgor Cyswllt.**

## 8. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Chwefror a Medi 2018 er gwybodaeth ac i'w nodi.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y Rhaglen Waith yn cael ei diweddaru bob mis, a'i chyflwyno i'r Trydydd Sector er gwybodaeth. Mae hyn yn rhoi syniad da i'r Sector o'r hyn sy'n digwydd, ynghyd â gwybodaeth sylfaenol i gefnogi ymgysylltu / mewnbwn gyda'r Sector.

## 9. Y CYFARFOD NESAF

Cytunwyd y dylid cynnal cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyswllt am 2.00 pm ar 10 Gorffennaf 2018 yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm

**Y CYNGHORYDD ALUN MUMMERY**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **30 Ebrill 2018** |
| **Pwnc:** | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mai – Rhagfyr 2018;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i chylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Bydd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn llywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mai – Rhagfyr 2018. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2018

Diweddarwyd 23 Ebrill 2018

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaenraglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.



Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Mai – Rhagfyr 2018** ar y tudalennau dilynol.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH
Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2018

Diweddarwyd 23 Ebrill 2018

Tudalen 31

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mai 2018** | | | | | | |
| 1 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mai 2018 | |
| 2 | **Y Cyngor i fabwysiadu pwerau a dirprwyaeth i Swyddog**<br><br>Argymell i'r Cyngor llawn y dylid mabwysiadu deddfwriaeth amrywiol a'u dirprwyo i Bennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith i wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd / Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro /<br>Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mai 2018 | Cyngor llawn:<br><br>I'w gadarnhau |
| 3 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>4 Mehefin 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mai 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2018

Diweddarwyd 23 Ebrill 2018



| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Mai, 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mai 2018 | |
| 5 | **Arolwg AGGCC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>4 Mehefin, 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mai 2018 | |
| 6 | **Craig y Don, Amlwch** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mai 2018<br>(i'w gadarnhau) | |
| 7 | **Cytundeb Cwrs Golff Llangefni** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn ddilyniant i benderfyniadau blaenorol a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith. | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mai 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2018

Diweddarwyd 23 Ebrill 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mehefin 2018** | | | | | | |
| 8 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2017/18**<br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2018 | |
| | | | | | | | |
| 9 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018 | |
| 10 | **Cymeradwyo Achos Busnes i'r Bid Twf Gogledd Cymru: Cytundeb Rhyng-Awdurdod 1 (S)** | Penderfyniad cyfunol – gan fod mynd i mewn i'r cytundeb yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith oherwydd ei bwysigrwydd. | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro /<br>Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng. Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018 | Gorffennaf 2018 |

Tudalen 33

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2018

Diweddarwyd 23 Ebrill 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | **Bargen Twf Gogledd Cymru: Blaenoriaethu Prosiectau** | Penderfyniad cyfunol – mae'r drafodaeth, y dealltwriaeth a'r gefnogaeth i flaenoriaethu'r prosiectau'n benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith, a hynny er mwyn sicrhau cyfranogiad a chytundeb llawn. | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng. Carwyn Jones | | Dyddiad i'w gadarnhau | |
| 12 | **Strategaeth Trawsnewid Addysg a Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn** | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018 | |
| 13 | **Prosiect Ysgol Santes Dwynwen**<br><br>Cymeradwyaeth i symud dyddiad cwblhau'r rhybudd statudol. | Penderfyniad cyfunol, i gydymffurfio gyda'r Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2018

Diweddarwyd 23 Ebrill 2018

Tudalen 35

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | **Strategaeth Digartrefedd**<br><br>Cymeradwyo strategaeth ddrafft ar gyfer ymgynghori. | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018<br>I'w gadarnhau | |
| 15 | **Cymunedau Ymlaen Môn** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018 | |
| 16 | **Ffoaduriaid Syria** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018 | |
| | | | | **Gorffennaf 2018** | | | |
| 17 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2018

Diweddarwyd 23 Ebrill 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | **Cyfrifon Terfynol Drafft ar gyfer 2017/18** | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018 | |
| 19 | **Strategaeth Taclo Tlodi**<br><br>Cymeradwyaeth ar y ddogfen yn dilyn cyfnod o ymgynghori | O fewn rhaglen weithredu Cynllun Corfforaethol y Cyngor | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Mehefin/ Gorffennaf 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018<br>(I'w gadarnhau) | |
| 20 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni (Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn)**<br><br>Ystyried adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol newydd | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018 | |

Tudalen 36

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2018

Diweddarwyd 23 Ebrill 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2017/18 (S)**<br><br>Derbyn yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor Sir. | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Caroline Turner<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol – Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>4 Mehefin 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018 | 25 Medi 2018 |
| | | | | | | | |
| 22 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol**<br><br>Ystyried adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol newydd | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Gorffennaf 2018 | |
| | | | | **Medi 2018** | | | |
| 23 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 24 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>3 Medi 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

Tudalen 37

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2018

Diweddarwyd 23 Ebrill 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | Panel Sgriwtini Cyllid –<br>3 Medi 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 26 | **Adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 27 | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 28 | **Arolwg AGGCC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>3 Medi, 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2018

Diweddarwyd 23 Ebrill 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | **Safonau Ansawdd Tai Cymru – methiannau Derbyniol** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 30 | **Polisi ymdrin â gwaith a safonau Cynnal a Chadw Tai** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| | | | | **Hydref 2018** | | | |
| 31 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Hydref 2018 | |
| 32 | **Cynllun Strategol y Gyllideb Gyfalaf 2019/20** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Hydref 2018 | |

*\ Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH
Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2018

Diweddarwyd 23 Ebrill 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tachwedd 2018** | | | | | | |
| 33 | **Cyllideb 2019/20 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 24 Hydref 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Tachwedd 2018 | |
| | | | | | | | |
| 34 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |
| 35 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |
| 36 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2018

Diweddarwyd 23 Ebrill 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagfyr 2018** | | | | | | | |
| 37 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |
| 38 | **Strategaeth Digartrefedd**<br><br>Cymeradwyo'r ddogfen yn dilyn y cyfnod ymgynghori. | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>5 Tachwedd 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |

Tudalen 41

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **30 EBRILL 2018** |
| **Pwnc:** | **CYLLIDEB REFENIW AR GYFER MELIN LLYNNON** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD J GRIFFITH** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES (EST 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES – PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151**<br>**EST 2601**<br>rmjfi@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae'r mater o drosglwyddo Melin Llynnon i drydydd parti (boed yn fusnes sector preifat neu'n grŵp cymunedol) wedi bod yn mynd rhagddo ers cryn amser ac mae'r Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu marchnata'r Felin unwaith eto yn unol â'r Polisi Gwaredu Asedau cyfredol. Tra bydd y broses hon yn cael ei chynnal, bydd y Felin yn parhau i fod ar agor fel atyniad i ymwelwyr yn ystod tymor 2018 a'r Cyngor fydd yn gyfrifol am y costau staffio a'r costau rhedeg am flwyddyn arall neu hyd nes y bydd y Felin wedi cael ei throsglwyddo i gorff arall.

Fel rhan o'r arbedion refeniw ar gyfer 2017/18, cafodd cyllideb refeniw Melin Llynnon ei chynnwys fel rhan o'r pecyn arbedion ac fe'i tynnwyd o'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y Cyngor. O ganlyniad, nid oes cyllideb ar gael i gwrdd â chostau rhedeg y Felin am 2018/19.

Dyma'r gyllideb ar gyfer y Felin:-

| **MATH O WARIANT** | **£** |
|---|---|
| Costau'r Gweithwyr | 36,290 |
| Costau'n ymwneud â'r adeiladau | 21,300 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 5,190 |
| Arian wrth gefn | 4,060 |
| **GWARIANT GROS** | **66,840** |
| Incwm | (24,670) |
| **INCWM NET** | **42,170** |

Mae'r gyllideb yn seiliedig ar Felinydd yn gweithio am ddeuddydd yr wythnos, gyda'r sawl sy'n rhedeg y caffi yn cyfrannu £2,500 tuag at gost cyflogi'r Melinydd.

**Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo cyllideb o £42,170 i ariannu'r gost o redeg y Felin fel atyniad i ymwelwyr yn 2018. Caiff y gyllideb hon ei hariannu o Falansau Cyffredinol y Cyngor.

| | | |
|---|---|---|
| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | | |
| Ystyriwyd trefnu trosglwyddo'r Felin i barti â diddordeb heb ddilyn gofynion y Polisi Gwaredu Asedau ond roedd hynny'n groes i gyngor Swyddog Monitro'r Cyngor a'r Prif Swyddog Prisio (Stadau).<br><br>Oherwydd y sefyllfa bresennol gyda chyllideb y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes, nid oes modd trosglwyddo cyllideb sydd heb ei hymrwymo o gyllideb y Gwasanaeth. | | |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | | |
| Fel rhan o'r Penderfyniad i osod y Dreth Gyngor am 2018/19, penderfynodd y Cyngor:-<br><br>Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2018/19 ac ar gyngor y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau), y pŵer i ryddhau hyd at £500k o falansau cyffredinol i ddelio gyda blaenoriaethau yn codi yn ystod y flwyddyn. | | |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Na – pwrpas yr adroddiad yw cymeradwyo cyllideb bellach. | | |
| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cefnogi'r cynnig cyfredol |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Wedi rhoi cyngor ar yr opsiynau ac yn cefnogi'r camau gweithredu hyn |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Cefnogi'r cynnig cyfredol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| 7 | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Wedi bod yn rhan o'r drafodaeth ar ddyfodol y Felin |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amherthnasol |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | Dim |
| 2 | **Gwrthdlodi** | Dim |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | Dim |
| 4 | **Amgylcheddol** | Dim |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Dim |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | Dim |
| 7 | **Arall** | Dim |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Dim | | |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| Dim | | |

This page is intentionally left blank

V3.1 030418

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn |
| **Dyddiad:** | Pwyllgor Gwaith - 30 Ebrill, 2018<br>Cyngor – 15 Mai, 2018 |
| **Pwnc:** | Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Dr Gwynne Jones, Prif Weithredwr |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost** : | Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Nid oes wnelo'r mater hwn â ward benodol |

**A-Argymhelliad / rhesymau / rhesymau / au**

Mae'r argymhellion fel a ganlyn:

**I'r Pwyllgor Gwaith:**
Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell i'r Cyngor Llawn:

**A1** Ei fod yn cymeradwyo'r Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer ei gyhoeddi gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd.
**A2** Ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun Llesiant a'i fod yn cael ei ymgorffori fel rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor i ddisodli'r Cynllun Integredig Sengl yng Nghyfansoddiad y Cyngor.
**A3** Mai'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fydd y pwyllgor sgriwtini dynodedig ar gyfer craffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
**A4** Y dylid diwygio adran 3.2 o Gyfansoddiad y Cyngor i gynnwys cymeradwyo penderfyniadau mewn perthynas â'r "Cynllun Llesiant" fel swyddogaeth na fedr ond y Cyngor llawn ei harfer; a dileu'r cyfeiriad at y "Cynllun Integredig Sengl".
**A5** Y dylid diwygio adran 2.6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn penodi'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fel y pwyllgor sgriwtini dynodedig ar gyfer craffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
**A6** Awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Buses y Cyngor) / Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud yr holl newidiadau angenrheidiol a chanlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu bod y materion a restrir uchod wedi cael eu cymeradwyo.
**A7** Awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i wneud unrhyw welliannau yn y dyfodol, fel a pan fyddant yn codi, i gyfansoddiad y Cyngor (a) pan fyddant yn ymwneud â, neu (b) yn codi o ganlyniad i'r materion uchod, yn amodol a ymgynghoriad gydag arweinwyr grwpiau a dim gwrthwynebiadau yn codi.

**I'r Cyngor Llawn:**
Argymhellir bod y Cyngor Llawn:
**A1** Yn cymeradwyo Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd ar gyfer ei gyhoeddi gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
**A2** Yn mabwysiadu'r Cynllun Llesiant a'i fod yn cael ei ymgorffori fel rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor i ddisodli'r Cynllun Integredig Sengl yng Nghyfansoddiad y Cyngor.
**A3** Mai'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fydd y pwyllgor sgriwtini dynodedig ar gyfer craffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
**A4** Y dylid diwygio adran 3.2 o Gyfansoddiad y Cyngor i gynnwys cymeradwyo penderfyniadau mewn perthynas â'r "Cynllun Llesiant" fel swyddogaeth na fedr ond y Cyngor llawn ei harfer; a dileu'r cyfeiriad at y "Cynllun Integredig Sengl".
**A5** Y dylid diwygio adran 2.6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn penodi'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fel y pwyllgor sgriwtini dynodedig ar gyfer craffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
**A6** Awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Buses y Cyngor) / Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud yr holl newidiadau angenrheidiol a chanlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu bod y materion a restrir uchod wedi cael eu cymeradwyo.
**A6** Awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Buses y Cyngor) / Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud yr holl newidiadau angenrheidiol a chanlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu bod y materion a restrir uchod wedi cael eu cymeradwyo.
**A7** Awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i wneud unrhyw welliannau yn y dyfodol, fel a pan fyddant yn codi, i gyfansoddiad y Cyngor (a) pan fyddant yn ymwneud â, neu (b) yn codi o ganlyniad i'r materion uchod, yn amodol a ymgynghoriad gydag arweinwyr grwpiau a dim gwrthwynebiadau yn codi.

**CEFNDIR**

1.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 **(y Ddeddf)** wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru. Mae'r Byrddau ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd wedi penderfynu cydweithio er mwyn cyflawni eu hamcanion. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth ar y lefel uchaf ar draws sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn yr ardal fel a ganlyn:

**Aelodau Statudol** :

- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Gwynedd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Cyfranogwyr a Wahoddwyd:**

- Llywodraeth Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Medrwn Môn
- Mantell Gwynedd
- Gwasanaeth Prawf Cymru
- Prifysgol Bangor
- Cartrefi Cymunedol Gwynedd
- Grŵp Llandrillo Menai.

1.2 Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i asesu llesiant yn eu hardaloedd a chreu Cynllun Llesiant sy'n amlinellu'r modd y bwriedir gwella llesiant trigolion yr ardal.

**ASESIAD LLESIANT**

1.3 Cam cyntaf y gwaith o greu'r Cynllun Llesiant oedd cynnal asesiad o lesiant yn lleol a chynnal ymchwil er mwyn deall a dysgu mwy am yr ardaloedd hynny. Yn ogystal, cynhaliwyd nifer o sesiynau ymgynghori cyhoeddus yn yr ardaloedd hyn er mwyn casglu mwy o wybodaeth a rhoi cyfle i drigolion fynegi eu barn.

1.4 Ym mis Mai 2017, cyhoeddwyd Asesiadau Llesiant Lleol ar gyfer ardaloedd Ynys Môn a Gwynedd gyda'r ddwy sir wedi eu rhannu'n 14 o ardaloedd llai (wyth yng Ngwynedd a chwech yn Ynys Môn).

1.5 Ar ôl ystyried y data a barn pobl leol, amlygwyd naw o brif negeseuon yn yr asesiadau ar gyfer yr ardal gyfan:

- Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach
- Pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol
- Deall effaith newidiadau demograffig
- Gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg
- Hyrwyddo'r defnydd o adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn y tymor hir
- Gwella cysylltiadau trafnidiaeth i alluogi mynediad i wasanaethau a chyfleusterau
- Yr angen am swyddi o ansawdd da a chartrefi fforddiadwy i bobl leol
- Effaith tlodi ar lesiant
- Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo.

Cynhaliwyd cyfres ychwanegol o weithdai ym mis Awst 2017 yn seiliedig ar y prif negeseuon a nodwyd (uchod) er mwyn trafod sut y byddai'n bosibl ymateb i'r materion a amlygwyd.

**AMCANION LLESIANT**

2.1 Mae'r Cynllun yn amlinellu modd y mae'r BGC yn bwriadu gwneud gwahaniaeth i fywydau trigolion trwy gydweithio er mwyn cyflawni ar gyfer yr ardal gyfan (Gogledd Orllewin Cymru).

2.2 Mae'r **Amcanion Llesiant** wedi cael eu llunio yn dilyn dadansoddiad o'r prif negeseuon a amlygwyd yn yr Asesiad Llesiant (uchod) ac wedi ystyried darnau o ymchwil ac asesiadau eraill e.e. Asesiad Poblogaeth Rhanbarthol yn y maes iechyd a gofal.

2.3 Mae yna 2 amcan llesiant gyda chwe blaenoriaeth y bydd y BGC yn canolbwyntio arnynt er mwyn gwireddu'r amcanion hyn. Nodir bod y blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar y negeseuon a amlygwyd fel rhan o'r Asesiad Llesiant:

**Amcanion Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

1. **Cymunedau sy'n ffynnu ac sy'n llewyrchus yn y tymor hir**
   - Yr iaith Gymraeg
   - Cartrefi i bobl leol
   - Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau
   - Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau

2. **Preswylwyr sy'n iach ac yn annibynnol gydag ansawdd bywyd da**
   - Iechyd a gofal oedolion
   - Lles a chyflawniad plant a phobl ifanc

2.4 Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn credu bod y rhain yn feysydd lle gallai partneriaid gwasanaethau cyhoeddus gydweithio'n well yn eu cylch yn ystod cyfnod o doriadau sylweddol i adnoddau'r sector cyhoeddus, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl sy'n byw yn Ynys Môn a Gwynedd.

**CYNLLUN LLESIANT**

3.1 Erbyn hyn, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymeradwyo'r fersiwn derfynol o'r Cynllun Llesiant. Mae'r Cynllun ynghlwm fel **ATODIAD 1** .

3.2 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[1], os yw'r awdurdod lleol yn ymarfer trefniadau pwyllgor gwaith, **ni chaiff** y pwyllgor gwaith gymeradwyo'r cynllun llesiant lleol ar gyfer ei gyhoeddi dan y trefniadau hynny.

[1] Rhan 4, Adran 43 (5)

Felly, bydd angen cymeradwyaeth y Cyngor.

3.3 Bydd angen i bob un o aelodau statudol y Bwrdd[2] gymeradwyo'r Cynllun yn ffurfiol cyn ei gyhoeddi yn ystod Mai, 2018. Yn lleol, bydd y Cynllun Llesiant yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 30 Ebrill, 2018 a'i gyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w cymeradwyo yn ystod mis Mai, 2018.

**CRAFFU'R CYNLLUN LLESIANT**

4.1 Cynhaliodd y BGC Gyfnod ymgynghori statudol o dri mis ar y Cynllun Llesiant drafft, a daeth y cyfnod hwnnw i ben ar 30 Mawrth, 2018.

4.2 Fel ymgynghorai statudol a'r pwyllgor dynodedig, cafodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio gyfle i graffu'r Cynllun Llesiant Drafft ar 8 Mawrth 2018. Yn dilyn cwestiynau cadarn gan Aelodau, penderfynodd y Pwyllgor argymell cymeradwyo'r Cynllun drafft ac awdurdodi'r Cadeirydd i gyflwyno ei ymateb ffurfiol i Gadeirydd y BGC. Atodir ymateb y Pwyllgor i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn **ATODIAD 2** .

**NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I GYFANSODDIAD Y CYNGOR**

5.1 Mae gweithredu'r Ddeddf yn golygu y bydd angen gwneud newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor:

- Er mwyn penodi pwyllgor sgriwtini, sef y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
- I ymgorffori'r "Cynllun Llesiant" fel rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor (cyfrifoldeb y Cyngor llawn fydd gwneud penderfyniadau arno). Mae'r Cynllun Llesiant yn disodli'r Cynllun Integredig Sengl a bydd angen dileu'r cyfeiriadau ato yn y Cyfansoddiad.

| B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn gosod gofynion deddfwriaethol ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyhoeddi'r Cynllun Llesiant ym mis Mai 2018. Oni fydd y Cynllun Llesiant yn gael ei gyhoeddi gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, fel y rhagnodir mewn deddfwriaeth, bydd angen i Lywodraeth Cymru gael gwybod y rhesymau am hynny. |

[2] Cynghorau Môn a Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru

| C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| I wneud newidiadau i'r Cyfansoddiad, mae angen cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith yn y lle cyntaf. |

| CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'r mater yn ymwneud â mabwysiadu Polisi newydd i'w gynnwys yn Fframwaith Polisi'r Cyngor. |

| D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Dim goblygiadau ariannol ychwanegol sy'n benodol i'r Cyngor. |


| DD – Gyda phw wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Ystyriwyd gan UDA ar 9/4/18: Dim Sylwadau |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Cyflwynwyd y Cynllun Llesiant Drafft i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 8 Mawrth 2018. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cymeradwyo'r Cynllun ac fe ymatebodd drwy anfon llythyr at Gadeirydd y BGC. Cyfeiriwch at **ATODIAD 2.** |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

| E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anrhefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| 1. Cynllun Llesiant (Fersiwn derfynol)<br>2. Llythyr dyddiedig 23/03/18 gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio at Gadeirydd y BGC. |

| FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini , Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, L77 7TW. |

# CYNLLUN LLESIANT
# GWYNEDD A MÔN



2018

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN

# CYNLLUN LLESIANT

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn ymrwymo i gyflawni newidiadau cadarnhaol i sicrhau'r dyfodol gorau posib i gymunedau ar draws y ddwy sir drwy'r Cynllun Llesiant hwn. Y nod yw gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion gan sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i gyflawni uchelgais ar gyfer y rhanbarth cyfan.

Mae gennym gymunedau cryf a balch, gyda thraddodiad o helpu'n gilydd ac o gydweithio. Bydd rôl y cymunedau hyn yn ganolog wrth gyflawni'r amcanion llesiant sydd wedi eu gosod yn y cynllun hwn.

Mae ymgysylltu gyda chymunedau yn greiddiol i lwyddiant y cynllun, ac mae'r Bwrdd yn ymrwymo i ddarparu arweiniad clir er mwyn cyrraedd ei amcanion. Fel aelodau byddwn yn cymryd cyfrifoldeb gyda'n gilydd i wireddu'r cynllun a byddwn yn cyd-weithio gyda phartneriaid i wella llesiant trigolion a'n cymunedau.

Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio na ddylid ystyried y Cynllun hwn ar ei ben ei hun ac nid yw'n ceisio cwmpasu holl wasanaethau a gweithgareddau'r cyrff cyhoeddus sy'n gweithio yng Ngwynedd a Môn. Bydd y sefydliadau unigol yn parhau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol yn ogystal â chyfrannu at amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Ffion Johnstone**
*Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn*

# DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL [CYMRU] 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant (gweler llun isod) a phump ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus. Mae hefyd yn ceisio sicrhau ein bod yn well ar wneud penderfyniadau drwy osod dyletswydd ar sefydliadau i feddwl am yr hir-dymor, i gydweithio, ac i ystyried pobl o bob oedran wrth ddatrys ac atal problemau.


Gyda'i gilydd, mae'r saith nod llesiant a'r pump ffordd o weithio wedi eu cynllunio i gefnogi cyrff cyhoeddus i gwrdd ag anghenion presennol eu cymunedau, a sicrhau nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidiol i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Ddeddf hefyd wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio i greu dyfodol gwell ar gyfer pobl Cymru. Fel rhan o hyn mae'n rhaid i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus asesu llesiant eu hardaloedd a chreu Cynllun Llesiant gyda'r nod o wella cymunedau.

Rhaid i'r Byrddau ystyried amrywiaeth o ddeddfwriaethau eraill sydd hefyd wedi eu llunio i wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deddf Newid Hinsawdd 2008
- Deddf Safonau a Fframweithiau Ysgolion 1998
- Deddf Gofal Plant 2006
- Mesurydd Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Gyda hyn oll mae'r Cynllun Llesiant yn cael ei ddatblygu mewn cyd-destun cenedlaethol a rhyngwladol gymhleth – gydag ansicrwydd economaidd a gwleidyddol yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau ac yn cael effaith ar gymunedau yn lleol ac ar draws Cymru.



# AELODAETH BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi penderfynu gweithio gyda'i gilydd fel un Bwrdd i gyflawni eu hamcanion.

Aelodau statudol y Bwrdd yw:

- Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn ogystal â'r aelodau statudol, mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd i wahodd unigolion a chyrff eraill i gyd-weithio. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi gwahodd y sefydliadau canlynol fel aelodau gwadd:

- Llywodraeth Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Mantell Gwynedd
- Medrwn Môn
- Gwasanaeth Prawf Cymru
- Prifysgol Bangor
- Cartrefi Cymunedol Gwynedd
- Grŵp Llandrillo Menai

Bydd cyfle i wahodd cyrff/ mudiadau/ sefydliadau/ partneriaid eraill i eistedd ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn y dyfodol wrth i amcanion a gweithrediadau penodol ddod i'r amlwg.

# ASESIAD O LESIANT LLEOL

Ym mis Mai 2017 cyhoeddwyd Asesiad o Lesiant Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Penderfynodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn rannu'r ddwy sir yn 14 o ardaloedd llai a chafodd gwaith ymchwil ei wneud er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Roedd wyth o'r ardaloedd yma yng Ngwynedd a chwech yn Ynys Môn.

Unwaith roedd y data wedi ei gasglu a'r gwaith ymchwil wedi ei gwblhau cynhyrchwyd llyfrynnau unigol ar gyfer pob un o'r 14 ardal. Roedd y llyfrynnau yn edrych ar lesiant yng nghyd-destun y pedwar prif bennawd yn y Ddeddf – sef Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol. Mae pennawd ychwanegol wedi ei ychwanegu, sef 'Poblogaeth a Iaith' gan fod y Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd y thema benodol yma i'r ardal.


Cafodd 28 o sesiynau cyhoeddus eu cynnal, dau ym mhob un o'r ardaloedd, i gasglu mwy o wybodaeth ac i roi cyfle i drigolion i leisio barn. Gofynnwyd i bobl a oeddent yn adnabod eu hardal o'r llyfrynnau, beth oedd yn bwysig iddynt, a beth oeddent yn hoffi am eu cymuned yn ogystal â beth fyddent yn hoffi ei weld yn newid. Gofynnwyd hefyd beth oedd yn bwysig o ran llesiant yr unigolyn a llesiant cymunedol.

Roedd hi'n bwysig i glywed lleisiau amrywiol ar draws yr ardal – felly cynhaliwyd sesiynau mewn ysgolion a chyda grwpiau cymunedol hefyd. Yn ogystal roedd trafodaethau rhanbarthol gyda grwpiau anoddach i'w cyrraedd.

Roedd ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a chafwyd erthyglau yn y wasg leol ac ar wefannau partneriaid er mwyn hyrwyddo'r asesiad ac i annog trigolion i gwblhau holiadur ar-lein ynglŷn â'u hardaloedd nhw.

Mae'r llyfrynnau gwybodaeth ar gyfer pob ardal yn parhau i fod ar gael ar y wefan.


**www.LlesiantGwyneddaMon.org.**



WWW.LLESIANTGWYNEDDAMON.ORG

# BETH YW LLESIANT?

Nid oes un diffiniad pendant o 'lesiant'. Mae trafodaethau cyson ynglŷn â'r ystyr ac mae'n debyg bod llesiant yn golygu rhywbeth gwahanol i bawb. Gall llesiant ddisgrifio'r pethau hynny sy'n effeithio ar ba mor dda yw bywyd unigolyn. Mae'n llesiant personol yn gallu cynnwys teimladau o hapusrwydd, safon bywyd, a'r cysyniad o fyw bywyd i'r eithaf. Mae'n cymunedau, ein diwylliant, ein hiechyd, yr amgylchedd, a'r economi oll yn effeithio ar lesiant a safon bywyd. Mae beth sy'n bwysig i lesiant personol hefyd yn debyg o newid fel mae rhywun yn mynd trwy'r gwahanol gyfnodau o fywyd. Mae'n dilyn hefyd fod llesiant personol pobl yn cael effaith ar lesiant eu teuluoedd, y cymunedau a'r ardaloedd maen nhw yn rhan ohonynt.



# BETH YW LLESIANT I BOBL GWYNEDD A MÔN?

Dyma flas ar yr hyn a ddywedodd ein trigolion:

**Beth sy'n braf am fyw yn eich ardal chi?**

Mae'r ffaith bod hon yn ardal Gymreig gyda chanran uchel yn siarad Cymraeg, ac ysbryd cymunedol cryf yn bwysig i bobl. Nododd nifer bod cael byw mewn ardal ddiogel yn bwysig iawn hefyd, yn ogystal â'r amgylchedd naturiol a'r golygfeydd o'u cwmpas.

**Beth sydd ddim cystal?**

Mae diffyg swyddi o safon uchel yn bryder i drigolion. Nodwyd hefyd bod y pellter oddi wrth wasanaethau a chyfleusterau a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus addas yn broblem. Ffactorau eraill oedd yn achosi pryder oedd prisiau uchel ar gartrefi ac eiddo, ac edrychiad strydoedd mewn ambell i dref.

**Beth sy'n hybu eich llesiant ac yn cyfrannu at ansawdd bywyd yn eich ardal?**

Mae'r cyfle i wneud gweithgareddau awyr agored, yr amgylchedd naturiol, cyfleusterau lleol, ac ysbryd cymunedol i gyd yn ffactorau sy'n cael effaith gadarnhaol ar lesiant trigolion yr ardal. Mae hyn oll yn ogystal â chefnogaeth teulu, ffrindiau a chymdogion yn cyfrannu at hybu llesiant ac yn gwella ansawdd bywyd pobl Gwynedd ac Ynys Môn.

**Beth fyddech chi'n ei newid am eich ardal i'w wneud yn lle brafiach i fyw?**

Y ffactorau y byddai trigolion yn eu newid am eu hardal fyddai trafnidiaeth gyhoeddus, creu mwy o swyddi gyda chyflogau uwch, datblygu gweithgareddau a chyfleusterau lleol a gwella edrychiad strydoedd.

# BETH OEDD YR ASESIAD YN EI DDWEUD WRTHYM AM LESIANT EIN HARDALOEDD?

Man cychwyn oedd yr asesiad – braslun o lesiant yr ardal a oedd yn mynd law yn llaw â'r llyfrynnau ardal er mwyn helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall Gwynedd a Môn yn well.

Wedi ystyried y data a barn pobl yn lleol, daeth y Bwrdd i gasgliad ar brif negeseuon yn yr asesiad, sef:

1. YR ANGEN I GYNNAL YSBRYD CYMUNEDOL IACH
2. PWYSIGRWYDD GWARCHOD YR AMGYLCHEDD NATURIOL
3. DEALL EFFAITH NEWIDIADAU DEMOGRAFFEG
4. GWARCHOD A HYRWYDDO'R IAITH GYMRAEG
5. HYBU DEFNYDD ADNODDAU NATURIOL I WELLA IECHYD A LLESIANT YN YR HIR DYMOR
6. GWELLA CYSYLLTIADAU TRAFNIDIAETH I ALLUOGI MYNEDIAD AT WASANAETHAU A CHYFLEUSTERAU
7. YR ANGEN AM SWYDDI O SAFON UCHEL A CHARTREFI FFORDDIADWY I BOBL LEOL
8. EFFAITH TLODI AR LESIANT
9. SICRHAU CYFLE I BOB PLENTYN LWYDDO

Dyma'r prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg ond mae'r Bwrdd yn cydnabod bod ffactorau eraill pwysig heb eu hamlygu. Mae'n bosib mai un o'r rhesymau am hyn yw bod y gweithredu sydd eisoes yn digwydd yn effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau trigolion.

**Bydd y Bwrdd yn adolygu'r data yn yr Asesiad yn rheolaidd ac yn ymateb i unrhyw newidiadau sylweddol sydd heb eu hadnabod eisoes fel blaenoriaethau o fewn y cynllun hwn.**

**Yn yr un modd, bydd y Bwrdd yn gweithio i gael dealltwriaeth mwy manwl ar ddatblygiadau a heriau i'r dyfodol a all gael effaith ar lesiant yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys Wylfa Newydd, gadael yr Undeb Ewropeaidd ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, fel llifogydd.**

# DATBLYGU'R CYNLLUN

## SUT CAFODD YR AMCANION LLESIANT EU CYTUNO ARNYNT?

Gyda naw prif neges wedi eu hamlygu yn yr Asesiad Llesiant cynhaliwyd cyfres o weithdai dros haf 2017 er mwyn canfod barn ynglŷn â pha feysydd i flaenoriaethu. Roedd y gweithdai yn agored i gyrff cyhoeddus, y trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol.

Cynhaliwyd 18 gweithdy i gyd, dau ar gyfer pob un o'r negeseuon.

Edrychodd y gweithdai ar pob un o safbwynt:

a) uchelgais
b) dylanwad y Bwrdd
c) cadarnhau a ddylai'r neges fod yn amcan llesiant
d) sut all aelodau'r Bwrdd gyd-weithio er mwyn gwneud gwahaniaeth i drigolion

Cafodd crynodeb o'r ymatebion ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phenderfynwyd ar ba negeseuon y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer y Cynllun Llesiant hwn.

# 1. YR ANGEN I GYNNAL YSBRYD CYMUNEDOL IACH

Mae'n amlwg bod ysbryd cymunedol iach yng Ngwynedd a Môn – gyda phob un o'r 14 ardal yn dweud mor ganolog yw hyn i'w llesiant. Mae'n bwysig bod yr ysbryd hwn yn cael ei feithrin a'i hybu er mwyn creu cymunedau ac ardaloedd llewyrchus a chynaliadwy sy'n hyderus i wynebu heriau'r dyfodol.

Mae'r Bwrdd yn gweld cymunedau iach fel sail i gyflawni blaenoriaethau dros y blynyddoedd nesaf, felly bydd aelodau yn cyd-weithio i atgyfnerthu'r cryfderau hynny o fewn ein cymunedau.

Bydd y gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau a chynnal cymunedau iach yn digwydd law yn llaw gyda'r cymunedau hynny.

# 2. PWYSIGRWYDD GWARCHOD YR AMGYLCHEDD NATURIOL

Mae amgylchedd naturiol Gwynedd a Môn yn bwysig iawn i lesiant, diwylliant, iechyd ac economi'r ardal. Mae gennym gynefinoedd arbennig ar draws y ddwy sir sy'n asedau naturiol pwysig ac yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt, ac yn cyfrannu at lesiant yr ardal a'r boblogaeth yn ehangach. Mae ardaloedd eang o Wynedd a Môn hefyd wedi eu dynodi oherwydd pwysigrwydd tirlun neu gadwraeth sy'n adlewyrchu gwerth yr amgylchedd naturiol yma.

Mae'n hinsawdd yn newid ac mae'n debygol iawn y bydd yn parhau i wneud hynny – gyda lefel y môr yn codi a mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol fel llifogydd. Bydd hyn yn effeithio ar lesiant ein cymunedau a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu **ac oherwydd hyn bydd yn flaenoriaeth i'r Bwrdd**.

Mae'r Bwrdd yn ystyried bod gwarchod yr amgylchedd naturiol yn rhan amlwg o gyflawni ei flaenoriaethau a bydd yn thema cyffredin sy'n rhedeg ar draws yr holl amcanion llesiant.

# 3. DEALL EFFAITH NEWIDIADAU DEMOGRAFFEG

Mae poblogaeth Gwynedd a Môn yn mynd yn hŷn, tra bod niferoedd pobl ifanc yn ein cymunedau yn gostwng. Mae'r patrwm yma yn debyg o barhau. Bydd demograffeg yr ardal yn newid yn sylweddol a bydd natur ac anghenion ein cymdeithas yn dra gwahanol o ganlyniad.

Mae'r Bwrdd yn awyddus i ddeall yn well sut y bydd y newid yma yn effeithio ar lesiant cymunedau ac unigolion. Gall llawer o bobl hŷn barhau i weithio a chyfrannu yn llawn yn eu cymunedau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod hefyd fod pobl hŷn yn fwy tebygol o fod angen mwy o ofal a chefnogaeth a bydd angen cynllunio am hynny. Rydym yn deall nad yw poblogaeth hŷn o reidrwydd yn golygu poblogaeth llai iach ond mae rhaid cydnabod y bydd galw cynyddol am wasanaethau oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio.

# 4. GWARCHOD A HYRWYDDO'R IAITH GYMRAEG

Mae'r data ar yr iaith yn dangos yn glir y dirywiad sydd wedi bod dros y 30 mlynedd ddiwethaf yn y nifer o siaradwyr Cymraeg. Rhwng 1981 a 2011 mae'r gostyngiad o 11% yng Ngwynedd yn uwch na gweddill Cymru. Gwynedd a Môn yw'r ddwy sir ble mae'r Gymraeg ar ei chryfaf ac yn cael ei defnyddio yn ddyddiol gan ran helaeth y boblogaeth. Fodd bynnag, os yw'r dirywiad yn parhau i'r dyfodol gall rhannau o'r sir fod mewn peryg o golli'r iaith i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Bwrdd yn deall pwysigrwydd y Gymraeg o ran gwead cymdeithasol a hunaniaeth ddiwylliannol yr ardal. Mae angen i ni sicrhau bod trigolion yn gallu ac yn dewis byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau cymunedol yn y Gymraeg. **Mae hwn felly yn flaenoriaeth ar gyfer cyd-weithio i'r dyfodol**.





# 5. HYBU DEFNYDD ADNODDAU NATURIOL I WELLA IECHYD A LLESIANT YN YR HIR DYMOR




Mae ein gwybodaeth yn dangos nad yw iechyd poblogaeth Gwynedd a Môn mor dda ag y gallai fod. Er enghraifft mae **52%** o oedolion a **30%** o blant 4-5 oed yng Ngwynedd yn ordew neu dros eu pwysau. Mae'r darlun yn debyg ar Ynys Môn gyda **58%** o oedolion a **29.6%** o blant rhwng 4 a 5 oed dros eu pwysau neu yn ordew. Mae angen galluogi plant ac oedolion i fod yn fwy egnïol, ac yn enwedig yn yr awyr agored, trwy hyrwyddo a gwella mynediad i'r mannau gwyrdd naturiol yr ardal.

Mae angen annog pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu iechyd eu hunain ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau fydd yn atal salwch yn y dyfodol.

Oherwydd yr angen i wella iechyd corfforol a iechyd meddyliol y boblogaeth ac effaith hir dymor hyn ar lesiant, **bydd y maes iechyd a gofal yn flaenoriaeth i'r Bwrdd**.

# 6. GWELLA CYSYLLTIADAU TRAFNIDIAETH I ALLUOGI MYNEDIAD AT WASANAETHAU A CHYFLEUSTERAU



Roedd diffyg mynediad at wasanaethau yn un o'r materion gododd yn rheolaidd yn ystod ymgynghoriad yr Asesiad Llesiant. Mae'n amlwg bod hwn yn fater o bryder ac yn cael effaith sylweddol ar lesiant unigolion. Mae angen cynllunio gwasanaethau yn lleol felly a thargedu yr ardaloedd llesiant.

Mae cynllun penodol ar gyfer y rhanbarth wedi ei ddatblygu gan Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru sy'n cynnwys Cynllun Trafnidiaeth Lleol. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o'r farn mai cefnogi gwaith y Bwrdd Uchelgais fyddai'r ffordd orau o sicrhau gwelliant yn y maes yma yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Bydd y Bwrdd yn rhoi strwythur ffurfiol yn ei le er mwyn cyd-weithio a dylanwadu ar waith y Bwrdd Uchelgais.



# 7. YR ANGEN AM SWYDDI O SAFON UCHEL A CHARTREFI FFORDDIADWY I BOBL LEOL

## SWYDDI O SAFON UCHEL

Roedd yr angen am swyddi o safon uchel yn un o brif negeseuon yr ymgynghoriad. Mae data yn dangos fod canolrif cyflog wythnosol Gwynedd (**£347 yr wythnos**), yn is na'r un ffigwr ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r arian sydd gan bobl Gwynedd i'w wario ar ôl trethi a chostau talu am gartref yn **£14,640** y pen y flwyddyn, sydd yn **£662** yn is na Chymru gyfan. Ym Môn mae'r darlun ychydig yn well gyda chanolrif cyflog wythnosol **8%** yn uwch na'r un ffigwr ar gyfer Cymru gyfan. Dywedodd nifer o drigolion yn ystod yr ymgynghoriad fod hyn yn un o'r rhesymau pam fod pobl ifanc yn gadael eu cymunedau ac yn adnabod hyn fel mater pwysig iawn o ran llesiant cyffredinol yr ardal.

Mae'r Bwrdd yn llwyr ddeall yr angen am swyddi o safon a swyddi cynaliadwy. Rydym hefyd yn cydnabod y gwaith sy'n digwydd yn y maes yn rhanbarthol dan arweiniad  Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn y broses o lunio bid twf fydd yn mynd i'r afael ar y mater yma. Felly yn yr un modd a chyda trafnidiaeth bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyd-weithio ac yn cefnogi gwaith y Bwrdd Uchelgais er mwyn sicrhau'r budd llawn i Wynedd a Môn.

## CARTREFI FFORDDIADWY I BOBL LEOL

Wrth ystyried pris canolrif eiddo a chanolrif incwm aelwydydd mae **60%** o deuluoedd Gwynedd wedi eu prisio allan o'r farchnad dai. Mae'r canran yma yn amrywio o ardal i ardal gyda'r canran uchaf yn Llŷn ble mae **73%** o deuluoedd wedi eu prisio allan o'r farchnad. Ym Môn mae **64%** o aelwydydd wedi eu prisio allan o'r farchnad dai, gyda hyn yn codi i **72%** yn ardal Lligwy a Thwrcelyn.

Barn pobl Gwynedd a Môn yw fod hyn yn reswm arall sy'n cyfrannu at y llif o bobl ifanc o'r ardal ac mae hyn cael effaith negyddol ar lesiant y cymunedau hynny. Mae pobl eisiau tai fforddiadwy yn eu cymunedau er mwyn cefnogi a chynnal cymunedau cryf ac iach.

**Mae'r Bwrdd yn blaenoriaethu'r maes hwn** ar gyfer y cyfnod nesaf a bydd yn gweithio gyda phartneriaid i geisio cael datrysiad cyraeddadwy i'r broblem.

# 8. EFFAITH TLODI AR LESIANT

Mae tystiolaeth yn dangos yn glir bod byw mewn tlodi yn cael effaith andwyol ar lesiant unigolion – a hynny yn y tymor byr a'r hir-dymor. Mae tlodi yn cael ei achosi gan ddiffyg adnoddau, yr un mwyaf amlwg yw incwm, ond mae hefyd yn cynnwys y diffyg mewn gallu i gael nwyddau a mynediad at wasanaethau sylfaenol.

Mae'r data a gasglwyd yn amlygu materion fel y gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad addysgol disgyblion sy'n derbyn cinio am ddim a'r rhai sy'n talu. Ym Môn mae'r bwlch yn **25%**, ac yn **36%** yng Ngwynedd o'i gymharu â **33%** ar draws Cymru gyfan. Yn ogystal â hyn mae **18%** o aelwydydd Môn a **21%** o aelwydydd Gwynedd mewn tlodi tanwydd, y ddau yn uwch na'r ffigwr Cymreig o **14%**.


**Bydd y Bwrdd yn blaenoriaethu'r maes hwn** er mwyn cael dealltwriaeth manwl o'r goblygiadau o fyw mewn tlodi yn ein gwahanol ardaloedd. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r Asesiad Llesiant i gael darlun manwl o ble mae'r diffyg mynediad at wasanaethau yn fwy heriol oherwydd tlodi.

# 9. SICRHAU CYFLE I BOB PLENTYN I LWYDDO

Mae diffyg cyrhaeddiad addysgol yn gallu cael effaith ar lesiant unigolion gydol eu hoes ac felly mae angen sicrhau fod pob disgybl yn cael y cyfle i lwyddo. Mae'r data iechyd hefyd yn dangos bod gordewdra yn broblem ac mae hyn yn gallu cael effaith hir dymor ar lesiant plant a phobl ifanc.

Mae tystiolaeth glir ynglŷn ag effaith andwyol hir dymor profiadau negyddol mewn plentyndod a sut all hyn amharu ar lesiant pobl gydol eu hoes. O'r herwydd mae'r angen i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael profiadau cadarnhaol yn ystod eu plentyndod yn holl bwysig.

**Bydd y Bwrdd yn rhoi blaenoriaeth** i gefnogi teuluoedd er mwyn ceisio sicrhau fod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gweledigaeth glir ymysg partneriaid allweddol i gyflawni'r canlyniadau gorau posib i blant a phobl ifanc.






# EIN HAMCANION LLESIANT

Wedi dadansoddi'r prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg yn yr Asesiad Llesiant ac ystyried casgliadau ymchwil ac asesiadau eraill e.e. Asesiad Poblogaeth Rhanbarthol, penderfynwyd ar ddau amcan llesiant. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd wedi penderfynu bod angen canolbwyntio ar y meysydd hynny ble mae angen cydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd a Môn. Maen nhw felly, wedi blaenoriaethu chwech o feysydd penodol er mwyn gwireddu'r ddau amcan llesiant.

Mae'r lluniau ger yr amcanion llesiant isod yn dangos sut y byddent yn cyfrannu at gyrraedd nodau llesiant cenedlaethol.

## 1 CYMUNEDAU SY'N FFYNNU AC YN LLEWYRCHUS I'R HIR-DYMOR


**I WIREDDU'R AMCAN HWN BYDDWN YN BLAENORIAETHU:**




- ✓ **Yr iaith Gymraeg:** Byddwn yn cyd-weithio i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn. Byddwn yn hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg fel yr iaith ddewis ar gyfer cyfathrebu ymysg sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir.
- ✓ **Cartrefi ar gyfer bobl lleol:** Byddwn yn cydweithio gyda'r sector dai i sicrhau mwy o gartrefi addas a fforddiadwy yn y llefydd cywir er mwyn diwallu anghenion lleol. Byddwn yn cydweithio i sicrhau bod cartrefi yn rhai o ansawdd sy'n cwrdd ag anghenion trigolion.
- ✓ **Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau:** Byddwn yn datblygu dealltwriaeth fanwl o sut mae tlodi yn effeithio ar ein hardaloedd ac yn ceisio sicrhau bod y gwaith sy'n digwydd yn y maes ar draws y cyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru effaith hir dymor tlodi.
- ✓ **Effaith newid hinawdd ar lesiant cymunedau**: Byddwn yn cydweithio yn lleol ac yn gweithredu ar y cyd i geisio lliniaru effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau.

## 2 TRIGOLION SY'N IACH AC YN ANNIBYNNOL GYDA SAFON BYWYD DA

**I WIREDDU'R AMCAN HWN BYDDWN YN BLAENORIAETHU:**




- ✓ **Iechyd a gofal oedolion:** Byddwn yn cydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer y boblogaeth hŷn yn addas ar gyfer anghenion lleol. Byddwn yn cydweithio yn lleol i gynllunio ystod eang o weithgareddau ataliol ar gyfer oedolion er mwyn eu galluogi i fyw yn iach ac annibynnol.
- ✓ **Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc:** Byddwn yn cyd-gynllunio gwasanaethau a gweithgareddau ataliol i gefnogi teuluoedd cyn i'r angen am wasanaethau dwys godi. Byddwn yn annog plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella eu hiechyd er mwyn iddynt allu byw yn iach ac annibynnol o fewn eu cymunedau i'r hir dymor.

# SUT Y BYDDWN YN GWEITHREDU I'R DYFODOL?

Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn gweithredu yn unol â saith egwyddor. Mae pump o'r rhain yn egwyddorion datblygu cynaliadwy cenedlaethol a dau wedi eu hychwanegu gan y Bwrdd yn lleol. Bydd yr egwyddorion yma yn ein cynorthwyo i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau rydym yn eu hwynebu i'r dyfodol.

## YR IAITH GYMRAEG

Bydd yr iaith Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy'r cynllun. Byddwn yn hyrwyddo defnydd o'r iaith ymhob agwedd o'n gwaith ac yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

## CYDRADDOLDEB

Byddwn yn parhau i dargedu adnoddau lleol a chenedlaethol i daclo anghydraddoldeb ac anfantais er mwyn cau'r bwlch rhwng y cymunedau mwyaf breintiedig a'r cymunedau mwyaf difreintiedig.

## Y TYMOR HIR

Byddwn yn parhau i gasglu data i gael gwell dealltwriaeth o sut mae cymunedau yn edrych ar hyn o bryd, a sut y byddant yn edrych yn y dyfodol o ganlyniad i ffactorau fel newid demograffeg. Byddwn hefyd yn edrych i weld pa newidiadau cenedlaethol a rhyngwladol sydd ar y gorwel a cheisio dadansoddi'r effaith ar ein cymunedau ni. Drwy hyn gallwn gydweithio fel partneriaid a thrigolion i gynllunio'r gwasanaethau fydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.

## ATAL

Byddwn yn defnyddio data tueddiadau i adnabod y problemau fydd yn wynebu ein cymunedau yn y dyfodol ac yn datblygu a gweithredu cynlluniau i'w hatal. Byddwn yn cydweithio gyda chymunedau i'w galluogi i wneud mwy i rwystro problemau rhag datblygu a chefnogi rhaglenni all wneud gwahaniaeth go iawn yn yr hir-dymor.

## CYDWEITHIO

Byddwn yn ceisio cael gwared â'r rhwystrau sy'n atal cydweithio effeithiol. Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth ac arfer dda rhwng aelodau'r Bwrdd a'n trigolion am yr hyn sy'n cael ei wneud i wireddu amcanion a blaenoriaethau. Byddwn yn ystyried aelodaeth y Bwrdd yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y partneriaid cywir yn cael eu cynnwys er mwyn cyflawni ein hamcanion.

## INTEGREIDDIO

Byddwn yn gweithredu mewn ffordd fydd yn cyfrannu at fwy nag un amcan ble bo'n briodol ac yn unol ag amcanion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn ceisio integreiddio gwasanaethau os bydd tystiolaeth yn dangos bod hyn yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymunedau. Byddwn yn ystyried strategaethau a chynlluniau lleol a rhanbarthol eraill sy'n gweithio tuag at yr un amcanion neu amcanion tebyg ac yn cydweithio er mwyn eu cyflawni.

## CYNNWYS

Mae gan ein trigolion a'n cymunedau rôl bwysig i'w chwarae wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a byddwn yn sicrhau bod eu safbwyntiau a'u profiadau'n ganolog i'r broses o gynllunio gwaith y Bwrdd. Byddwn yn mabwysiadu'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol ar gyfer pob oedran a sicrhau bod y Bwrdd yn gweithio o fewn y safonau hynny. Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gallu cyfathrebu â'r Bwrdd yn eu hiaith a'u cyfrwng o'u dewis.

# BETH YW'R CAMAU NESAF?

Mae'r Cynllun Llesiant yn ddogfen fyw fydd yn newid a datblygu dros amser. Er ein bod wedi cadarnhau ein hamcanion llesiant a'r meysydd blaenoriaeth er mwyn gwireddu'r amcanion hynny, amlinelliad sydd yn y cynllun hwn o'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud. Bydd gwaith pellach i wneud er mwyn datblygu ein rhaglenni gwaith.

Y cam nesaf fydd llunio rhaglenni gwaith manwl ac adnabod camau gweithredu **Tymor Byr**, **Canolig a Hir** ar gyfer y chwe maes blaenoriaeth.

Bydd gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu a Scrwtini Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn. Bydd adroddiad blynyddol ar gynnydd y cynllun hwn yn cael ei baratoi hefyd.

Mae'r cyhoedd wedi cael cyfle i roi eu barn trwy gydol y broses o ddatblygu'r Cynllun Llesiant, ac mae llawer o'r sylwadau a dderbyniwyd wedi eu hymgorffori yn y Cynllun. Mae nifer o sylwadau a phwyntiau wedi eu cynnig fodd bynnag, nad ydym wedi gallu eu hystyried eto, a byddwn yn rhoi sylw i'r rhain dros y flwyddyn nesaf.

Er bod y cyfnod ymgynghori ffurfiol wedi dod i ben rydym yn parhau i fod yn awyddus i glywed eich barn. Er mwyn gwneud hynny neu dderbyn mwy o wybodaeth am waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn ewch i www.llesiantgwyneddamon.org.

## AM FWY O WYBODAETH...

**01766 771 000**
**post@llesiantgwyneddamon.org**

Gofynnwch am
**Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**

Neu cysylltwch â:
**Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor**
**Cyngor Gwynedd**
**Swyddfa'r Cyngor**
**Stryd y Jêl**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

Gwilym o Jones
Cynghorydd-councillor

Bryngwyn
6 Tre Ifan
Caergeiliog
Ynys Môn-Anglesey
Ll65 3YB

Ffôn/ tel: (01407) 740105
E-Bost / E-mail: gwilymjones@ynysmon.gov.uk

Ein Cyf-Our ref: GJ/GWR – Scrutiny Unit

Ffion Johnstone (Cadeirydd – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus / Chair- Public Services Board)
Betsi Cadwaladr University Health Board
Eryldon
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 IHU

23/03/2018

Annwyl / Dear Ffion,

**CYNLLUN LLESIANT DRAFFT GWYNEDD AC YNYS MÔN [2017]**

Rwy'n ysgrifennu'r llythyr hwn atoch fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, sef y pwyllgor sgriwtini dynodedig yn y Cyngor hwn ar gyfer ystyried materion sy'n ymwneud â gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ar 8fed Mawrth 2018, cafodd y Pwyllgor gyfle i graffu Cynllun Llesiant drafft Gwynedd ac Ynys Môn. Yn dilyn cwestiynu cadarn gan yr Aelodau, mae'n bleser gennyf eich hysbysu fod y Pwyllgor wedi penderfynu cymeradwyo'r Cynllun ac wedi rhoi'r awdurdod i mi gyflwyno ei ymateb ffurfiol.

Yn ystod ei drafodaethau, cododd y Pwyllgor nifer o faterion yr oeddynt am eu dwyn at sylw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ac rwy'n crynhoi'r rhain isod:

- Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r farn y dylai'r BGC barhau i ddatblygu yn Fwrdd rhagweithiol a dynamig, gan ddangos ei fod yn gweithio mewn partneriaeth mewn modd cryf, cydlynol a chydweithredol er mwyn gwireddu'n llawn yr uchelgeisiau a nodir yn y Cynllun Llesiant drafft. Serch hynny fe wnaeth Aelodau ddwyn sylw i'r angen i'r BGC fod yn ffocysu ar weithredoedd, byddai hyn yn lleihau'r posibilrwydd iddo gael ei weld fel "siop siarad".

- Rhoddwyd pwyslais ar bwysigrwydd sefydlu trefniadau ar gyfer adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini ar gynnydd y BGC. Nododd y Pwyllgor ofynion canllawiau diweddar Llywodraeth Cymru ar gyfer pwyllgorau sgriwtini awdurdodau lleol[1] a gofynnodd i'r BGC fod yn ymwybodol o hyn.

- Nododd yr Aelodau yr angen i'r BGC ddatblygu cynllun gweithredu cadarn y gallai'r Pwyllgor Sgriwtini ei ddefnyddio i fonitro cynnydd y BGC o ran gweithredu'r Cynllun Llesiant ac ymgysylltiad yng nghylch cynllunio'r BGC (gofynion canllawiau Llywodraeth Cymru y cyfeirir atynt uchod).

- Mynegwyd pryderon nad oedd unrhyw gyllid ar y cyd ychwanegol wedi cael ei nodi hyd yn hyn gan bartneriaid er mwyn cwrdd ag amcanion y Cynllun.

[1] Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Sgriwtini Awdurdodau Lleol ar graffu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Llywodraeth Cymru, Awst 2017)

- Cyfeiriodd y Pwyllgor Sgriwtini at bwysigrwydd ymgysylltiad effeithiol gyda dinasyddion a nododd yr angen i'r BGC godi ei broffil gyda thrigolion Ynys Môn a Gwynedd. Roedd y Pwyllgor hefyd o'r farn y byddai o fudd, o bryd i'w gilydd, i mi fynychu cyfarfod cyhoeddus o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol fel sylwedydd

- Cyfeiriodd y Pwyllgor Sgriwtini at y llifogydd a gafwyd yn ddiweddar ar yr Ynys. Ym marn y Pwyllgor, roedd hi'n bwysig i'r BGC ddelio'n rhagweithiol gyda materion o'r fath oherwydd cydnabuwyd fel blaenoriaeth "*y byddwn ni [BGC] yn gweithio gyda'n gilydd yn lleol i liniaru effeithiau newid hinsawdd ar ein cymunedau".*

- Dygodd y Pwyllgor Sgriwtini sylw at y ffaith fod gwella cysylltiadau trafnidiaeth fel y gellir cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau wedi bod yn un o brif negeseuon yr asesiad llesiant. Ystyriwyd y dylai'r BGC weithio gyda Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru er mwyn gwella'r sefyllfa yn lleol ac yn rhanbarthol.

- Roedd yr Aelodau'n croesawu'r gynrychiolaeth mewn perthynas â materion tai yn y BGC ond o'r farn y dylai cynrychiolydd o Gymdeithas Dai sy'n gwasanaethau ardaloedd y ddau Awdurdod Lleol gwahoddiad i fod yn Aelod o'r Bwrdd. Nodwyd bod cynrychiolydd o Gartrefi Gwynedd yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd fel Aelod o'r Bwrdd ond yn gwasanaethau cymunedau Gwynedd yn unig.

Mae'r pwyntiau hyn wedi cael eu tynnu o gofnodion drafft y cyfarfod, ac rwy'n amgáu er mwyn rhoi trosolwg i chi o'r cyfarfod.

I gloi, carwn, ar ran y Pwyllgor, ddiolch i bawb sydd wedi bod yn rhan hyd yma o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Llesiant drafft.

**------------------**

**GWYNEDD & ANGLESEY DRAFT WELL-BEING PLAN [2017]**

I am writing this letter in my capacity as Chair of the Partnership and Regeneration Scrutiny Committee, the designated scrutiny committee at this Council for considering matters relating to the work of the Public Services Board.

On 8th March 2018, the Committee had an opportunity to scrutinise the draft Gwynedd and Anglesey Well-being Plan. Following robust questioning by Members, I am pleased to let you know that the Committee resolved to approve the draft Plan and authorise me to submit its formal response.

During its deliberations, the Committee raised a number of matters that they wanted to bring to the attention of the Public Services Board ( PSB) which I summarise below:

- The Committee supported the view that the PSB should continue to develop as a proactive and dynamic Board, demonstrating strong, cohesive and collaborative partnership working in order to fully realise the ambitions set out in the draft Well-being Plan. Members did however draw attention to the need for the PSB to be action orientated, thus eliminating the possibility of being seen as a "talking shop".

- The importance of arrangements being made for regular reporting on progress by the PSB to the Scrutiny Committee was emphasised. The Committee noted the requirements of recent Welsh Government guidance for local authority scrutiny committees[2] and requested that the PSB to be aware of this.

[2] Guidance for Local Authority Scrutiny Committees on the scrutiny of Public Services Boards (Welsh Government, August 2017)

- Members noted the need for the PSB to develop a robust action plan which the Scrutiny Committee could use to monitor progress of the PSB's implementation of the Well-being Plan and engagement in the PSB planning cycle (requirements of the Welsh Government guidance referred to above).

- Concern was expressed that no additional joint funding had been identified thus far by partners to meet the objectives of the Plan.

- The Scrutiny Committee made reference to the importance of effective citizen engagement and noted a need for the PSB to raise its profile with the residents of Anglesey and Gwynedd. The Committee also considered that, on occasions, it would be beneficial for me to attend a public meeting of the Public Services Board as an observer.

- The Scrutiny Committee referred to incidents of flooding that have occurred on the Island. The Committee considered it important that the PSB were proactive in dealing with such matters as it had been recognised as a priority that "*we [PSB] will work together locally to mitigate the effects of climate change on our communities".*

- The Scrutiny Committee raised the point that improving transport links to enable access to services and facilities had been one of the key messages of the well-being assessment. It was considered that the PSB should work with the North Wales Ambition Board to improve the situation locally and regionally.

- Members welcomed representation of housing matters at the PSB but considered that a representative from a Housing Association serving both Local Authority areas be invited as a Member of the Board. It was noted that a representative from Cartrefi Cymunedol Gwynedd was an invited member of the Board but with the mandate of only serving the communities of Gwynedd.

These points have been extracted from the draft minutes of the meeting, which I enclose in order to give you an overview of the meeting.

Finally, on behalf of the Committee, can I thank all concerned for the work undertaken to date in preparing the draft Well-being Plan.

**Yn gywir/Yours sincerely,**

**Y Cynghorydd Gwilym Owen Jones**
**(Cadeirydd, Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio /Chair, Partnership and Regeneration Scrutiny Committee)**

Cop i / Copy to:

- Arweinydd / Leader – Cyngor Sir Ynys Môn/ Isle of Anglesey County Council
- Prif Weithredwr /Chief Executive - Cyngor Sir Ynys Môn /Isle of Anglesey County Council
- Janet Roberts – Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council
- Dewi Wyn Jones – Cyngor Gwynedd/Gwynedd Council

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **30 Ebrill 2018** |
| **Pwnc:** | **Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Statudol yn ardal Llangefni: Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Arwyn Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Emrys Bebb** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorydd Dylan Rees**<br>**Cynghorydd Nicola Roberts**<br>**Cynghorydd Robert G Parry**<br>**Cynghorydd Dafydd Roberts**<br>**Cynghorydd Eric Jones** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae'r dystiolaeth o'r ymgynghoriad yn arwain at y casgliadau a ganlyn.

- Bod angen i Ysgol Corn Hir yn sgîl nifer disgyblion, capasiti cyfredol, cost y pen ac ôl-groniad cynnal a chadw fod yn ganolog i unrhyw drefniadaeth newydd.
- Bod safonau cyfredol yr ysgol, cyflymder y gwelliant ac ansawdd arweinyddiaeth, maint yr ysgol, ôl-groniad cynnal a chadw a chost y pen yn golygu nad yw yn bosib cyfiawnhau dyfodol Ysgol Bodffordd. Dylid fodd bynnag nodi bod angen i unrhyw benderfyniad gymryd ystyriaeth o'r angen i geisio sicrhau dyfodol y ddarpariaeth gymunedol.
- Mae nifer o faterion sydd angen sylw wrth ystyried dyfodol Ysgol Henblas.
    - Mae safonau'r ysgol yn is na'r disgwyl ac wedi bod dros gyfnod o amser ac mae cyflymder y gwelliant yn siomedig iawn.
    - Mae cryn waith i'w wneud i ddatblygu arweinyddiaeth yn yr ysgol.
    - Mae maint yr ysgol yn golygu bod dosbarthiadau o oedran cymysg yn yr ysgol ac mae hyn, ynghyd â'r disgwyliad i baratoi gwaith addas ar gyfer yr ystod o alluoedd mewn dosbarth, yn cynnig lefel uwch o her i'r athrawon.
    - Yn ôl asesiad cyfredol yr Awdurdod mae cyflwr presennol yr adeilad yn foddhaol ac mae ôl-groniad cynnal a chadw o £112,000.
    - Mae cost y pen yn uwch yn yr ysgol na'r ddwy ysgol arall.
    - Mae 13% o lefydd gweigion yn yr ysgol er gwaethaf y ffaith fod % y disgyblion all-dalgylch, er wedi lleihau yn ddiweddar, yn gymharol uchel.
- Cydnabyddir fodd bynnag y gallai penderfyniad i gau Ysgol Henblas ddylanwadu ar argaeledd addysg mewn ardal wledig ynghyd â chyfarfod a dymuniad rhai rhieni am fath wahanol o ysgol. Yn sgîl hyn gellid cyflwyno achos i gefnogi Ysgol Henblas cyn belled â bo tystiolaeth bendant bod y gwelliannau diweddar yn parhau a'r cyflymder gwelliant yn cynyddu.

Dengys y dadansoddiad ariannol bod cost ôl-groniad y tair ysgol yn £406k ac y byddai'r swm hyn yn cynyddu wrth i'r adeiladau nesáu at ddiwedd eu hoes ddefnyddiol. Nodir hefyd byddai adeiladu un ysgol i gymryd lle Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas yn ddrutach nag adeiladu un ysgol ar gyfer Corn Hir a Bodffordd ond fe wrthbwysir y gost ychwanegol yma'n rhannol gan

gynnydd yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru a'r derbyniad cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu safle Ysgol Henblas. Byddai cau Henblas yn gwella gwerth am arian yr ysgol newydd gan y byddai'n arwain at fwy o arbedion refeniw.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu symud ymlaen gyda naill ai

*Opsiwn 1*
Adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd, Corn Hir a Henblas.

Neu

Opsiwn 2

Adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd a Corn Hir a pharhau i gynnal darpariaeth addysgol yn Llangristiolus. Fe allai'r ddarpariaeth yn Llangristiolus olygu cynnal Ysgol Henblas ar ei ffurf gyfredol neu ysgol aml-safle [h.y. uno Henblas gyda'r ysgol newydd a chreu un ysgol ar ddau safle]. Byddai rhaid i'r penderfyniad hwn fod yn gysylltiedig â chael sicrwydd mewn blwyddyn bod safonau yn Ysgol Henblas yn codi, bod y raddfa gwelliant cyfredol yn cynyddu a bod rhagolygon niferoedd disgyblion yn parhau'n gyson neu yn codi. Byddai rhaid i unrhyw waith cynllunio ar gyfer yr ysgol newydd gymryd ystyriaeth o hyn.

**Cefndir - Gweledigaeth y Cyngor a'r Strategaeth Moderneiddio**

Mae gan Cyngor Sir Ynys Môn yr uchelgais o sicrhau bod bob plentyn, pob unigolyn ifanc a phob dysgwr, waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau, yn cyflawni eu llawn botensial a bod yn barod i chwarae rhan ragweithiol fel dinasyddion cyfrifol a phencampwyr cymunedol y dyfodol.

Mae'r Cyngor am sicrhau bod pob ysgol yn cyflawni'r safonau uchaf fel bod pobl ifanc Ynys Môn yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael yn y byd cystadleuol sydd ohoni. Mae'n hanfodol bod safonau addysg ar Ynys Môn ymysg y gorau yn genedlaethol.

Mae'r Straegaeth Moderneiddio yn allweddol i wireddu'r weledigaeth uchelgeisiol uchod trwy sicrhau bod ysgolion effeithiol, hunan feirniadol, o'r maint cywir yn y lleoliadau cywir sydd yn cael eu harwain gan Benaethiaid a Thimau Arweinyddol ysbrydoledig sydd yn gwbl ymroddedig i godi safonau gwaith y dysgwyr yn eu gofal.

Ers cyhoeddi'r strategaeth wreiddiol yn 2013 mae'r Awdurdod wedi cydweithio gyda Phenaethiaid ac aelodau etholedig i foderneiddio'r stoc ysgolion ar yr ynys drwy gyfuno 10 o ysgolion llai ac adeiladu ysgolion y 21ain ganrif mewn tair ardal o fewn Band A, gydag un ohonynt yn agor ym Mawrth 2019.

Mae'r sefyllfa gyllidol yn heriol yn y sector gynradd. Mae'r gwahaniaeth yn y gwariant fesul disgybl yn y sector cynradd yn destun pryder ac yn anghynaladwy ar gyfer y dyfodol. Gellid dadlau fod y ffaith fod ysgolion cynradd llai yn derbyn yr hyn sy'n gyfystyr ag arian ychwanegol i gynnal isafswm o lefelau staffio yn golygu bod yr 11 ysgolion mwyaf, sydd yn aml yn gwasanaethu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn sybsideiddio'r ysgolion llai eu maint. Nid yw hyn yn gynaliadwy at y dyfodol, yn enwedig os bydd y rhaglen llymder ariannol y Llywodraeth yn parhau.

Mae'r sefyllfa o ran proffil oed Penaethiaid wedi gwella ac mae nifer o ysgolion yn rhannu timau arwain drwy weithredu trefniadau Rheolaeth Bartneriaethol, ffedereiddio anffurfiol a ffedereiddio ffurfiol Mae strategaeth ar gyfer datblygu Arweinwyr Ysgolion y Dyfodol sydd yn cynnig datblygiad proffesiynol i'r rhai sydd a'r potensial yn weithredol. Serch hynny, mae nifer ymgeiswyr ar gyfer swyddi Penaethiaid yn isel, yn enwedig ar gyfer ysgolion bach, gwledig.

Mae Estyn, yn eu hadroddiad 'Ysgolion Cynradd Bychain yng Nghymru' wedi nodi'r heriau addysgol a wynebir gan ysgolion bach. Mae'r rhain yn cynnwys yr her o addysgu dosbarthiadau oedran cymysg yn cynnwys mwy na 2 neu 3 o grwpiau oedran; maint cyfyngedig grwpiau cymheiriaid a digonolrwydd her; cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol; anawsterau gyda recriwtio a chadw staff; beichiau gormodol ar staff a'r arbenigedd uwch sy'n ofynnol i gefnogi disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig.

Mae'r Rhaglen Moderneiddio ysgolion yn rhoi sylw i'r heriau uchod a chynllunio i sicrhau bod niferoedd disgyblion digonol ar y gofrestr o fewn pob cyfnod allweddol. Golyga hyn yr angen i adolygu dyfodol ysgolion ble mae niferoedd y disgyblion yn fach, gan benderfynu ar gynaliadwyedd pob un. Bydd hyn yn lleihau'r nifer o ddosbarthiadau gyda mwy na 2 grŵp oedran, yn sicrhau bod gan arweinyddion/penaethiaid amser digyswllt digonol er mwyn cyflawni cyfrifoldebau allweddol o godi safonau, sicrhau bod trefniadau gweinyddu a rheoli cefnogol mewn lle, a chysoni'r gwariant y pen ar draws yr ynys i fod yn fwy cyfartal.

Erys y gyrwyr ar gyfer newid yn gyson, sef:

- Gwella safonau addysgu a chyrhaeddiad.
- Lleihau nifer y lleoedd dros ben er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.
- Anelu i leihau'r amrediad gwariant fesul disgybl gan sicrhau mwy o gyfle cyfartal ar draws ysgolion.
- Capasiti Arweinyddiaeth a Rheolaeth.
- Cynllunio olyniaeth
- Darpariaeth gyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- Sicrhau bod adeiladau ysgolion addas i bwrpas.

Cyflwynir adroddiad manwl ar yr ymgynghoriad ynghyd â'r casgliadau a'r argymhelliad yn yr atodiad.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Ystyriwyd cyfanswm o 9 opsiwn yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol yn ardal Llangefni. Defnyddiwyd y gwerthusiad o'r opsiynau fel sail ar gyfer cymeradwyo opsiwn B. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw – Mae'n un o'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar Ionawr 13, 2014. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae sylwadau'r Uwch Dim Arweinyddiaeth wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Mae cyfrifiadau swyddogion Cyllid wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dylid ymdrin ag unrhyw fater Adnoddau Dynol sy'n codi o'r argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori ac AD eraill cydnabyddedig |
| 6 | **Eiddo** | Dim sylw |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Dim sylw |
| 8 | **Sgriwtini** | Trafodwyd y mater gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 23 Ebrill 2018. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd, a'r sylwadau a wnaed, PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith -<br>• Bod penderfyniad ar unrhyw ysgol yn cael ei ohirio tan fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn Llywodraeth Cymru yn gwneud datganiad ar ysgolion bach a gwledig.<br>• Bod Ysgol Henblas ac Ysgol Bodffordd yn aros ar agor oherwydd goblygiadau codi nifer fawr o dai yn ardal Llangefni sy'n debygol o greu cynnydd mawr yn y nifer o blant yn y dyfodol, a hefyd –<br>• Bod gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol bryderon ynghylch yr ansicrwydd mewn perthynas â pherchnogaeth tir ac adeilad cymunedol sydd ynghlwm wrth Ysgol Bodffordd. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Mae sylwadau un o'r Aelodau Etholedig lleol wedi ei gynnwys yn yr adroddiad |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Cafodd nifer o sylwadau gan randdeiliaid eraill eu cynnwys yn yr adroddiad |

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | Dim yn berthnasol |
| 2 | **Gwrthdlodi** | Dim yn berthnasol |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | Dim yn berthnasol |
| 4 | **Amgylcheddol** | Dim yn berthnasol |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Cafodd asesiad effaith cydraddoldeb ei gwblhau fel rhan o'r broses ymgynghori statudol |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | Dim yn berthnasol |
| 7 | **Arall** | Dim yn berthnasol |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiadau 1 a 2 |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| 1. Y ddogfen ymgynghori statudol (20 Chwefror – 6 Ebrill 2018) |

**SWYDDOGOL – *OFFICIAL***

# ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD STATUDOL - ARDAL LLANGEFNI (Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Henblas)
# *REPORT ON THE STATUTORY CONSULTATION – LLANGEFNI AREA (Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir and Ysgol Henblas*)

## 20 Chwefror – 6 Ebrill 2018 / *20 February – 6 April 2018*




**CYNGOR SIR YNYS MÔN / *ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL***
**ADRAN DYSGU GYDOL OES / *LIFELONG LEARNING DEPARTMENT***

**www.ynysmon.gov.uk / www.anglesey.gov.uk**

| Rhif | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | CYFLWYNIAD A CHEFNDIR | 3 |
| 2. | GYRWYR NEWID | 3 |
| 3. | Y BROSES YMGYNGHORI | 5 |
| 4. | SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI | 5 |
| 5. | YMATEBION O YSGOL BODFFORDD | 6 |
| 6. | YMATEBION O YSGOL CORN HIR | 7 |
| 7. | YMATEBION O YSGOL HENBLAS | 7 |
| 8. | YMATEBION ERAILL | 9 |
| 9. | ADBORTH GAN DDISGYBLION | 10 |
| 10. | YMATEB I'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD | 15 |
| 11. | YSTYRIAETHAU ARIANNOL | 18 |
| 12. | YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL | 19 |
| 13. | CASGLIADAU ac ARGYMHELLIAD | 20 |
| 14. | ADBORTH AR LEIN | 22 |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae Cyngor Sir Ynys Môn am sicrhau'r ddarpariaeth addysgol orau un ar gyfer holl blant a phobl ifanc yr ynys.

Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor yn adnabod bod moderneiddio addysg a sicrhau bod ein hadeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu deniadol sy'n symbylu plant a phobl ifanc i ddod yn ddysgwyr effeithiol a chyflawni sgiliau bywyd yn brif flaenoriaeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor am foderneiddio ysgolion er mwyn:

- gwella deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc a thorri'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel,
- gwella ymhellach safonau arweinyddiaeth ac ansawdd addysgu a dysgu,
- sicrhau ysgolion sector-arweiniol a safonau sector-arweiniol ar gyfer pob cymuned.

Bydd cyflwyno'r rhaglen foderneiddio uchelgeisiol hon yn gofyn am uno ysgolion sydd yn bodoli drwy gyfuniad o ffederasiynau ysgol, ad-drefnu dalgylchoedd yn helaeth yn seiliedig ar ailfodelu adeiladau ysgolion sydd yn bodoli neu adeiladu ysgolion ardal newydd a chau ysgolion nad ydynt yn addas i bwrpas.

## 2. GYRWYR NEWID MODERNEIDDIO FYDD YN DYLANWADU AR BENDERFYNIAD YNGHYLCH Y DDARPARIAETH ORAU I'R ARDAL

Nodir isod rhai o'r gyrwyr moderneiddio fydd yn dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y ddarpariaeth orau i'r ardal.

*Codi safonau addysgol*

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i barhau i godi safonau'n os am gyrraedd ei nod o fod yn un o'r 5 Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru. Yn ôl gwaith ymchwil presennol, awgrymir ei bod yn anodd cysylltu safonau â maint ysgol. Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod gan ysgolion cynradd mwy [dros 150 o ddisgyblion neu fwy] dimau arweinyddiaeth sydd â mwy o gapasiti i sicrhau gwelliannau; athrawon gydag ystod ehangach o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill a thrwy hynny yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau gwaith plant. Mewn ysgolion llai [o gwmpas 50 neu lai] mae dosbarthiadau oedrannau cymysg yn cynnwys hyd at bedwar grŵp oedran, ac sydd weithiau yn rhychwantu cyfnodau allweddol. Mae hyn yn gosod her sylweddol i athrawon os am sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ymestyn hyd eithaf i'w allu. Mae'r strategaeth moderneiddio ysgolion yn anelu i ddileu esiamplau o ddosbarthiadau gyda mwy na 2 grŵp oed. Gweler Atodiad 2 am wybodaeth am safonau a chost y pen yr ysgolion dan sylw.

*Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl*

Mae'r gost fesul disgybl yn amrywio'n sylweddol, o £2,795 i £10,828, ar draws ysgolion cynradd y sir. Roedd gwariant y Cyngor ar ysgolion cynradd yn 2017-18 [£3,962 y disgybl ar gyfartaledd] yr uchaf ond un yng Nghymru. Bydd angen i'r rhaglen moderneiddio roi sylw i normaleiddio'r gost y disgybl ar draws yr awdurdod a'i chysoni â'r cyfartaledd Cymru gyfan.

*Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib*

Mae gwella ansawdd yr adeiladau ysgol a sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posibl [sy'n adlewyrchu'r rhai yn ein hadeiladau ysgolion ddiweddaraf – Ysgol y Graig, Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan] ar gyfer ein plant yn hanfodol bwysig i gwrdd ag anghenion dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r math hyn o amgylchedd yn cynnwys cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau, cyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf, mannau chwarae addas, ardaloedd staffio a gweinyddu priodol, ynghyd â diogelwch ar gyfer adeiladau'r ysgol a safle'r ysgol. Noda Estyn bod "gwella ansawdd yr adeiladau'n cael effaith lesol iawn ar ansawdd yr addysgu

a morâl y staff sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad plant." Bydd gan bob plentyn fynediad at gyfleusterau addas fel y gellir darparu ystod lawn o brofiadau addysgol.

Nid yw yn bosib i'r Cyngor gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio ac yn gostus i'w cynnal. Rhaid sefydlu patrwm newydd o ysgolion sydd yn dileu'r diffygion yn yr adeiladau presennol, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch sylweddol sy'n gysylltiedig â'r adeilad neu'r safle. Mae angen datblygu cyfundrefn o ysgolion lle mae trefniadau cynnal a chadw ar eu cyfer sy'n gynaliadwy.

*Creu'r amodau fel bod Penaethiaid yn llwyddo - cynyddu capasiti arweinyddol*

Mae ysgolion effeithiol yn cael eu harwain yn dda. Mae gan ysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys y Llywodraethwyr. Mae'r sialensiau sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r disgwyliadau'n parhau i gynyddu. Mae angen amser digyswllt digonol ar Bennaeth, gyda chefnogaeth dirprwy bennaeth neu uwch dîm rheoli, i sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu o'r radd flaenaf, i werthuso a chodi safonau, i ddatblygu gweithdrefnau hunan-arfarnu trylwyr ac i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Mae'r rhain yn ddisgwyliadau sylweddol. Mae angen sicrhau bod gan Benaethiaid o leiaf 50% o amser digyswllt. Golyga hyn bod angen i ysgol [neu ffederasiwn o ysgolion] gael o leiaf 100 o ddisgyblion os am ddarparu'r amser angenrheidiol i'r Pennaeth i gyflawni'r rôl arwain yn llwyddiannus.

*Sicrhau cyflenwad digonol o Benaethiaid at y dyfodol*

Dros y pum mlynedd nesaf mae'n debyg y bydd 28% o'n penaethiaid cynradd yn ymddeol. Oherwydd bod llawer ohonynt yn arwain ysgolion bach, bydd angen i'r Cyngor ystyried y modelau arweinyddiaeth fwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae nifer yr ymgeiswyr am swyddi pennaeth wedi lleihau ac mae hyn yn destun pryder. Mae angen i'r rhaglen moderneiddio ysgolion geisio ateb y broblem drwy sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion unigol. Mae angen arweinwyr rhagorol ar ein hysgolion. Bydd y rhaglen foderneiddio'n rhoi sylw i faterion cynllunio olyniaeth ac yn diogelu a datblygu'r talentau arweinyddiaeth sydd gennym yn ein hysgolion.

*Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol*

Mae ymchwil yn awgrymu bod ysgolion gyda gwasanaethau ychwanegol fel clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, gwarchod plant, gweithgareddau haf a phenwythnos yn cyflawni safonau uwch a chyswllt gwell â rhieni a'r gymuned. Disgwylir i ysgolion hefyd fod yn adnodd i'r gymuned leol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol. Mae'r math yma o weithgaredd yn bwysig i ddatblygu'r cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned leol. Bydd ysgolion a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio yn gweithredu fel ysgol ardal h.y. yn darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau sy'n aml yn digwydd y tu allan i'r diwrnod ysgol, i helpu i gwrdd ag anghenion y plant, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

*Lleihau nifer llefydd gweigion*

Ym Medi 2017, roedd nifer y llefydd gweigion mewn ysgolion cynradd ym Môn yn 12.3%. Y sefyllfa gyfredol [Medi 2017] yn y tair ysgol dan sylw yw bod 13% o lefydd gweigion yn Ysgol Henblas, 1.6% yn Ysgol Bodffordd tra bod Ysgol Corn Hir 9.3% dros capasiti. Er hynny, mae angen i'r Cyngor, barhau i leihau nifer y llefydd gweigion er mwyn cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac ymateb i un o feirniadaethau Estyn yn adroddiad 2012. Golyga hyn bod angen anelu at sefyllfa lle bo ysgolion yn fwy na 85% llawn gan anelu bod 90% o'r llefydd wedi eu llenwi ar draws y sector cynradd.

*Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog*

Bydd unrhyw drefniant a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio'n rhoi blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg / dwyieithrwydd.

## 3. Y BROSES YMGYNGHORI

Ymgynghorodd y Cyngor gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yn y tair ysgol a hefyd gyda'r cynghorwyr lleol a chyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori'n digwydd rhwng 20 Chwefror hyd at 6 Ebrill 2018.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda rhanddeiliaid fel a ganlyn.

| | | | Cyfarfod gyda | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Dyddiad (yn 2018)** | | **Staff** | **Llywodraethwyr** | **Rhieni** |
| Henblas | Dydd Llun | 26 Chwefror | 3.30 | 6.00 | 7.00 |
| Bodffordd | Dydd Mawrth | 27 Chwefror | 3.40 | 5.45 | 6.45 |
| Corn Hir | Dydd Mercher | 28 Chwefror | 4.00 | 5.00 | 6.00 |

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ariannu ysgol newydd, mae angen i'w buddsoddiad gwrdd ag amcanion buddsoddi sef:-

1. lleihau llefydd gweigion
2. cynyddu amser di gyswllt i athrawon
3. i'r ysgol fod o safon ysgol yr unfed ganrif ar hugain
4. gwella deilliannau addysgol
5. lleihau ôl groniad cynnal a chadw
6. gwella effeithlonrwydd ynni

Cynigwyd y syniad gan rieni y dylid adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol yn Llangefni. Os yw hyn yn golygu adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol i'r ysgolion sydd yno yn bresennol, ni fyddai Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi hyn oherwydd er byddai'r ysgol gynradd newydd yn ysgol yr unfed ganrif ar hugain, yn unol â'r meini prawf uchod, ni fyddai'n :

- lleihau llefydd gweigion. Yn wir gall arwain at gynnydd mewn llefydd gweigion
- yn sicrhau newid y sefyllfa o ran amser di-gyswllt i athrawon.
- gwella deilliannau addysgol ohono'i hun
- lleihau ôl groniad cynnal a chadw
- gwella effeithlonrwydd ynni. Yn wir, byddai ysgol ac adeilad ychwanegol yn arwain at ddefnyddio mwy o danwydd.

Yn ogystal, mae'n annhebygol iawn byddai Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ysgol gynradd newydd oni bai fod cyfuno ysgolion yn rhan o'r broses.

Mae'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol fydd eu plentyn yn ei mynychu. Petai ysgol gynradd newydd yn cael ei hadeiladu yn Llangefni, byddai angen adolygu'r dalgylchoedd presennol a ffurfio dalgylch i'r ysgol gynradd newydd. Yn unol â'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu gorfodi rhieni i symud eu plant i'r ysgol gynradd newydd. Byddai hyn yn cynyddu'r risg o lefel uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol gynradd newydd.

## 4. SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI

Rhestrir rhai sylwadau a phryderon o bob un o'r cyfarfodydd isod (nid yw'r rhain yn gofnodion o'r cyfarfodydd). Ceir fwy o sylwadau yn rhan 5-7 o'r adroddiad hwn.

**<u>Ysgol Bodffordd</u>**

- Roedd rhai yn teimlo nad oedd pwynt ymateb i'r ymgynghoriad
- Holwyd am safle posib ac amserlen posib y gwaith

- Pryderon am ddiogelwch y plant yn ystod y gwaith adeiladu
- I ba raddau fydd yr ysgol newydd posib yn barod ar gyfer cwricwlwm Donaldson
- Pryder am effaith posib y cynnig ar staffio a swyddi
- Pryder am ddyfodol y Ganolfan Gymunedol a'r Cylch Meithrin

**Ysgol Corn Hir**

- Holwyd am y cynlluniau ar gyfer yr ysgol bresennol os fydd y cynnig yn cael ei wireddu
- Holwyd am effaith posib cyflawni'r cynnig ar y meithrin ac ar glwb ar ôl ysgol
- Pryderon am swyddi'r staff
- Holodd rai am safle posib yr ysgol gynradd newydd arfaethedig ac am unrhyw gysylltiad rhwng yr ysgol newydd ac Ysgol Gyfun Llangefni.

**Ysgol Henblas**

- Pryder ynglŷn â pha ysgol byddai disgyblion Ysgol Bodorgan yn trosglwyddo iddi petai Ysgol Henblas yn cau
- Nid oedd rhanddeiliaid yn deall pam fod yr Awdurdod yn ystyried cau Ysgol Henblas
- Pryderon am swyddi'r staff
- Beth fyddai'n digwydd i'r adeilad petai'r ysgol yn cau?
- Rhai rhieni'n teimlo y dylid rhoi cyfle i'r Pennaeth newydd

## 5. YMATEBION O YSGOL BODFFORDD

5.1 Derbyniwyd dros 260 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol ac roedd y mwyafrif helaeth yn anghytuno gyda'r posibilrwydd o gau'r ysgol.

5.2 Cyflwynwyd deiseb i'r Awdurdod oedd â'r pennawd "Na i gau Ysgol Gymuned Bodffordd". Roedd 43 o lofnodwyr wedi arwyddo'r ddeiseb. Bydd y ddeiseb yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 15 Mai 2018.

5.3 Yn ei llythyr, dywedodd Ysgrifennydd Clwb Pensiynwyr Bodffordd fod "nifer o gymdeithasau yn cynnal eu gweithgareddau yn y Ganolfan sydd ynghlwm â'r ysgol". Yn ôl yr ysgrifennydd, y Ganolfan yw "calon y pentref".

5.4 Dywedodd llefarydd ar ran Cylch Llenyddol Bodffordd eu bod yn defnyddio'r Canolfan Cymunedol 5 gwaith y flwyddyn. Ei farn oedd bod "angen strategaeth i gadw'r Ganolfan ar agor i'r pentref".

5.5 Yn eu llythyr, roedd cyd-arweinyddion y Cylch Meithrin ym Modffordd yn dweud fod y Cylch yn "rhan bwysig o'r pentref a'r gymuned". Dywedodd y ddwy fod y Cylch wedi ei gynnwys "yn adroddiad blynyddol Estyn fel cylch rhagorol sydd yn arwain yn y sector, yr unig un yng Nghymru." Gallai cau'r Cylch olygu fod plant yn "colli allan ar ddechrau hanfodol yn ei bywyd addysgiadol, cymdeithasol a diwylliannol."

5.6 Dywedodd cyn arweinydd y Cylch Meithrin mai'r "ysgol a'r Ganolfan Gymuned yw calon y pentref". Yn ôl y cyn arweinydd, mae'r "Cylch Meithrin ... yn llawn" a bod "100% o'r plant sydd yn mynychu yn Gymraeg iaith gyntaf...iaith y cartref!!" Ei barn yw bod "rhaid cadw'r diwylliannau cryf yma yn enwedig mewn ardal sydd mor gynnes, chymunedol a chefnogol". Roedd yn nodi fod y Cylch Meithrin "wedi cael rhagoriaeth gan Estyn yn 2016" a'u cynnwys "yn adroddiad blynyddol Estyn fel Cylch a oedd yn arwain y sector".

5.7 Roedd athrawon a staff ategol yr ysgol yn dymuno lleisio "eu gwrthwynebiad i'r opsiwn gwreiddiol ac ymhellach i'r opsiwn 'newydd' sydd wedi ei osod yn y ddogfen ymgynghori statudol". Roeddent yn dymuno tynnu sylw'r Awdurdod at rai o'r ffactorau a ganlyn.

- Dewis rhieni yn cael ei danseilio
- Creu ansicrwydd
- Cefnogaeth rhieni i barhad ysgol Bodffordd yn "llwyr"
- Naws ac ethos yr ysgol yn gryf
- Mae'r Mudiad Meithrin yn rhan annatod o "gychwyn taith plant yr ardal trwy eu taith addysgol".
- Mae'r ysgol yn "rhan annatod o gymuned ddiwylliannol a Chymreig fyw"
- Byddai cau'r ysgol "yn mynd yn groes i Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol"

## 6. YMATEBION O YSGOL CORN HIR

6.1 Cafwyd 2 ymateb gan randdeiliaid Ysgol Corn Hir. Daeth y cyntaf gan Lywodraethwyr Ysgol Corn Hir. Roedd yr ymateb ar ffurf 5 pwynt bwled. Nodir y pwyntiau isod:

1. Mae'r cynnig o gael rhif mynediad o 64 yn creu problemau trefnu dosbarthiadau. Dylid rhoi rhif mynediad o 75 sy'n rhoi cyfle i ysgol greu trefn ddosbarthiadau hyfyw a chreu capasiti ar gyfer tyfu. Mae achos cryf iawn yn yr ardal i fynd dros y 10% ychwanegol o ystyried yr hyn sydd eisoes wedi digwydd yn Ysgol y Graig a'r ffaith fod angen ailymweld â'r ysgol honno dim ond ar ôl cwta ddeng mlynedd. Mae'r sylwadau ym mhwynt 5 hefyd yn cynnig datrysiad ychwanegol o ran creu mwy o gyllid i ariannu'r cynllun.
2. Er nad yw hyn yn cael ei gynnig dylid sicrhau trefn o addasu ffiniau dalgylch yr ysgol – byddai hyn yn tynnu'r pwysau o ddalgylch Ysgol y Graig ar gyfer y dyfodol byddai yn ei dro yn golygu fod posib edrych ar addasu'r cynigion addasu yn yr ardal honno e.e. fydd angen buddsoddi mewn tiroedd ychwanegol o gwbl – gall hyn yn y pendraw **arbed** costau i'r Cyngor.
3. Mae angen dirfawr am gynllun interim ar gyfer Ysgol Corn Hir er mwyn galluogi'r ysgol allu parhau i gynnig cwricwlwm llawn i'r disgyblion. Mae'r problemau sydd wedi'i adnabod parthed gofod a diffyg lle a niferoedd mewn dosbarthiadau yn yr adroddiad ymgynghorol eisoes yn broblem yn yr ysgol ac angen eu datrys ar fyrder er tegwch i'r disgyblion ar staff yn yr ysgol. Mae hyn hefyd yn datblygu i fod yn broblem Iechyd a Diogelwch difrifol.
4. Mae'r ysgol (yn staff a llywodraethwyr) yn dymuno i'r Cyngor symud ar yr agenda ar fyrder oherwydd difrifoldeb y sefyllfa yn yr ysgol parthed gofod a niferoedd dosbarth – problem sydd yn fwy na hysbys i Adran Addysg y Cyngor.
5. Mae cwestiwn parthed ydi'r Cyngor yn cael gwerth am arian wrth werthu'r safleoedd ac ystyrir y ffigwr sydd wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad yn isel – mae angen edrych i weld os fyddai posib sicrhau caniatâd cynllunio ar y safleoedd cyn eu gwerthu er mwyn cael y gwerth am arian gorau.
6. Gan fod y cynllun yn pontio Band A a Band B mae cyfle yma i greu ysgol gwbl gynhwysol i'r holl gymuned ac yn adnodd wirioneddol werthfawr i holl aelodau'r gymuned nid yn unig plant yr ysgol, i gynnwys gwasanaethau ychwanegol - e.e. gyda'r gwasanaeth iechyd, yn sicrhau gofal o oed cynnar iawn, ystafelloedd hyfforddi (cyrsiau i rieni ayyb), gwasanaethau chwaraeon fel bod yr ysgol yn 'one stop shop' ar gyfer yr holl adnoddau fydd y rhieni eu hangen.

6.2 Roedd y rhanddeiliad arall yn pryderu byddai ysgol newydd posib i 450 o blant yn rhy fach. Yn ogystal, roedd yn teimlo fod yr ymgynghoriad yn ofer a bod y penderfyniad wedi ei wneud.

## 7. YMATEBION O YSGOL HENBLAS

7.1 Derbyniwyd 118 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol ac roedd y mwyafrif helaeth yn anghytuno gyda'r posibilrwydd o gau'r ysgol.

7.2 Cyflwynwyd deiseb i'r Awdurdod oedd yn gofyn am "gefnogaeth i gadw Ysgol Henblas ar agor drwy arwyddo'r ddeiseb hon." Roedd 107 o lofnodwyr wedi arwyddo'r ddeiseb, gyda nifer o du allan i'r

ardal wedi ei harwyddo. Bydd y ddeiseb yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 15 Mai 2018. Erbyn 11 Ebrill 2018, roedd 901 o unigolion wedi arwyddo deiseb electronig oedd yn gofyn i "gadw Ysgol Henblas ar agored" – nifer o du allan i ddalgylch yr ysgol.

7.3 Yn ei hymateb, dywedodd Cadeiryddes Cylch Meithrin Henblas fod y Cylch Meithrin yn "hynod o dda" ac "yn orlawn". Ychwanegodd fod hyn yn "arwydd gwych y bod gair da y Cylch a'r Ysgol gyda hapusrwydd y plant yn arwain tuag at ddyfodol disglair i dalgylch Henblas".

7.4 Dywedodd aelod etholedig lleol sydd hefyd yn un o Lywodraethwyr Ysgol Henblas ei fod o'r farn "**y dylai penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2017 sefyll,** ac nad oes cyfiawnhad digonol wedi ei gyflwyno dros y cynnig dan sylw, sef cau Ysgol Henblas , a chyfuno Ysgolion Bodffordd, Corn Hir a Henblas mewn i ysgol newydd." Rhestrodd resymau pam oedd yn meddwl y dylid cadw'r ysgol ar agor.

- Niferoedd yn yr ysgol ar hyn o bryd a gellid cynyddu hyn ar ôl ymestyn yr ysgol.
- Bod yr adeilad yn weddol fodern ac yn addas iawn ar gyfer ei ddiweddaru i safonau'r Unfed Ganrif ar Hugain.
- Byddai cau Henblas yn golygu trefnu cludiant o Langristiolus a Cherigceinwen i Langefni. Mae cludiant ysgol yn un o'r meysydd sy'n gorwario'n gyson, gorwariant a fyddai yn lleihau unrhyw arbedion posibl o gyfuno'r ysgolion.
- Pryder byddai llawer o rieni yn dewis cludo plant ieuengaf i'r ysgol mewn ceir preifat. Mae croesi'r A5 yn Tyrpeg Nant yn berygl. Byddai cynyddu'r drafnidiaeth sy'n croesi Tyrpeg Nant ar oriau brig yn cynyddu'r perygl hwn.
- Penodi Pennaeth newydd yn wyneb y broses ymgynghori yn dysteb i wytnwch yr Ysgol, ac mi fydd y penodiad hwn yn cryfhau arweinyddiaeth a sicrhau safonau'r ysgol tuag at y dyfodol.
- Mae ysgolion yn ffocws i'r gymuned ac mae'n hanfodol fod Sir wledig fel Ynys Môn yn cadw ysgolion gwledig hyfyw fel Ysgol Henblas

7.5 Ysgrifennodd llefarydd ar ran Ysgol Sul Eglwys Llangristiolus. Roedd yn gofyn i'r Awdurdod "ystyried y pwyntiau canlynol yn llawn cyn penderfynu cau ysgol wledig arall:

- Mae gwirfoddolwyr lu yn Henblas sydd wedi sicrhau llwyddiant cenedlaethol ym maes chwaraeon ac ar lwyfan eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Ceir ymdeimlad o gymdeithas ar ei gorau yma ac mae hyn yn ymestyn i deulu'r eglwys. Mae'r teimlad o berthyn ac o gyfrifoldeb yn deillio o'r profiadau a geir yn yr ysgol a'u hatgyfnerthu yn yr Ysgol Sul.
- Mae yna ganran uchel o rieni o du allan i'r dalgylch yn gyrru eu plant i Ysgol Henblas – ar hyn o bryd ceir dewis teg o ysgol drefol ac ysgol wledig yng nghylch Cefni. Rhaid gwrando ar lais y bobl sy'n mynnu cael dewis am y ffordd maent yn magu eu plant. Os collwn y cymunedau clos rhain ar draul moderneiddio ni fydd troi nôl. Mewn oes lle ceir fwy o 'ffrindiau' ar wefannau cymdeithasol ond llai o wir gyfeillion rhaid dal ein gafael ar cymunedau fel Henblas.
- Yn Henblas mae pawb yn cael dewis bod yn y côr, adrodd, tîm pêl-droed, tîm pêl rwyd, cystadleuaeth gymnasteg – mewn ysgol fawr o dros 400 mi fyddai hyn yn amhosib. Rhaid sicrhau fod ein plant yn cael pob chwarae teg i fod yn aelodau llawn a chyfrifol o gymdeithas. Gwn am nifer o blant mewn ysgolion mawr ar yr ynys nad ydynt yn cael y cyfleoedd hyn gan fod disgyblion eraill 'yn well'. Pa fath o neges mae hyn yn ei roi i blentyn bychan?

Roedd y llefarydd yn gofyn i'r Awdurdod ddychwelyd i'r penderfyniad gwreiddiol sef adnewyddu Henblas a thrysori cymunedau fel Llangristiolus sy'n cyfrannu cymaint i Gymreictod a chymuned arbennig Môn."

7.6 Derbyniwyd e-bost gan Arweinydd Adran yr Urdd Henblas oedd yn "datgan eu gwrthwynebiad i'r argymhelliad i gau Ysgol Henblas, Llangristiolus." Eu teimlad oedd "mai camgymeriad llwyr fyddai cau ysgol sydd mor ganolog i'r gymuned yma yn Llangristiolus. Mae Adran yr Urdd wedi'i sefydlu yn y pentref ers blynyddoedd lawer bellach ac mae gennym dîm o wirfoddolwyr ymroddedig sy'n sicrhau fod y plant yn elwa o holl weithgareddau'r Urdd." Roeddent o'r farn "os bydd yr Ysgol yn cau, bydd

hynny, yn ddi-os yn ddiwedd ar yr Adran. Byddai cau'r ysgol yn golled ddiwylliannol ddrudfawr i'r gymuned gyfan”.

7.7 Derbyniwyd ymateb gan Gadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Henblas. Er yn “cydnabod fod gan y Cyngor benderfyniadau anodd iawn i’w gwneud”, roedd y Corff o’r farn nad “aberthu Ysgol Henblas” oedd yr ateb. Eu teimlad am y cynnig fyddai’n golygu cau Ysgol Henblas oedd:

- Y byddai’n lleihau ‘r dewis o ysgolion ar gael i blant yn yr ardal
- Nad oedd y cynnig yn gwneud synnwyr yn ariannol
- Os byddai’r ysgol yn cau, byddai hynny’n arwain at “broblemau amgylcheddol, diboblogi cefn gwlad, effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg ac ar ddiwylliant Gymreig”
- Na ddylid cau’r ysgol o ystyried datganiad diweddar yr Ysgrifennydd Cabinet ar Addysg.
- Y diffygion roeddent yn eu gweld yn y broses ymgynghori
- Barn y Grŵp na ellid cyfiawnhau cau 2 ysgol “o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion”

7.8 Derbyniwyd sylw mai ystyriaethau ariannol oedd y rheswm i gynnwys disgyblion Ysgol Henblas yn eich cynlluniau. Cwestiynwyd os oedd y penderfyniad yn rhan o strategaeth ar waith.

**NODER** - Mae Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas ar restr yr ysgolion gwledig gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o’r ymgynghoriad ar y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Nid yw’r newidiadau arfaethedig i’r Cod Trefniadaeth Ysgolion wedi dod i rym.

## 8. YMATEBION ERAILL

8.1 Yn ogystal â chwrdd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni, anfonwyd y ddogfen ymgynghori at y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyngor Gwynedd;
- Swyddogion Llywodraeth Cymru;
- Aelodau Cynulliad rhanbarthol a lleol ac Aelod Seneddol
- Estyn;
- undebau’r athrawon ac undebau staff ategol;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol sef GwE;
- y Consortiwm Trafnidiaeth Ranbarthol sef Taith;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru;
- y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf;
- Mudiad Meithrin;
- Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod;
- Ysgol Gyfun Llangefni.

8.2 Yn ei grynodeb, dywedodd Estyn “Ym marn Estyn, mae’r cynnig yn debygol i o leiaf gynnal y ddarpariaeth a’r safonau ar gyfer disgyblion yn yr ardal”.

8.3 Cafwyd ymateb gan swyddogion undeb yr N.E.U. Roedd eu swyddog yn dweud: “Mae Is-adran Ynys Môn o Undeb Addysg Genedlaethol (Adran yr UDG neu N.U.T.) yn cefnogi Rhaglen Ysgolion C21. Er yn yr achos hwn, ymddengys nad yw maint y lleoedd dros ben ac oedran adeiladau’r ysgol yn yrwyr newid allweddol, mae manteision y cyfleusterau / hyblygrwydd staffio / lleoedd ychwanegol, o ysgol ardal C21 newydd yn ddiymwad. **Yr hyn mae'r Undeb yn parhau i wrthwynebu yw'r risg i swyddi aelodau a symud i ddiswyddiadau gorfodol. Mae graddfa’r diswyddiadau yn ad-drefnu Santes Dwynwen wedi ansefydlogi aelodau ar draws yr ynys a gall hyn gynyddu’r gwrthwynebiad i ad-drefniadau pellach.** Rydym yn gwerthfawrogi eich ymdrech i "ail-leoli" aelodau sydd wedi colli eu swyddi, ac yn awgrymu bod yr Awdurdod yn cyhoeddi unrhyw lwyddiant yn hyn o beth, gan wrth gwrs, amddiffyn preifatrwydd unigolion.”

8.4 Dywedodd swyddog Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru: “Mae UCAC yn ymwybodol mai un o flaenoriaethau’r Cyngor yw gwella’r deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc o ardaloedd difreintiedig drwy dorri’r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyflawniad addysgol isel. Wrth ystyried y pwysau gwaith sydd ar benaethiaid ac athrawon yn ein hysgolion y dyddiau hyn, mae UCAC yn falch iawn o ddeall fod yr Awdurdod yn cydweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd i ddatblygu model sy’n lleihau baich biwrocratiaeth a gwella trefniadau rheoli busnes i’r sector gynradd, drwy’r cynllun grantiau Ysgolion Bach a Gwledig a Rheoli Busnes.”

8.5 Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Cymuned Llangristiolus a Cerrigceinwen. Eu hymateb oedd: “Mae aelodau Cyngor Cymuned Llangristiolus yn gryf o blaid cadw'r ysgol yn agored. Mae'r aelodau'n yn teimlo pe byddai'r ysgol yn cau byddai'n effaith fawr ar y gymuned. Mae nifer fawr o blant yn yr ysgol ac mae perfformiad yr ysgol yn rhagorol.”

8.6 Derbyniwyd ymateb gan Bennaeth Ysgol Gyfun Llangefni. Roedd yn mynegi ei siom nad oedd sôn am opsiwn o gael “ysgol 3-18 ar safle Ysgol Gyfun Llangefni” “yng nghorff yr adroddiad”. Roedd yn teimlo “gyda dyfodiad y cwricwlwm newydd yn 2022, fod hwn yn gyfle euraidd i ddatblygu cyfundrefn arloesol ar gyfer disgyblion yr ardal”.
Aeth ymlaen i ddisgrifio manteision posib ysgol 3-18 sef:

- Safonau a Darpariaeth
- Datblygiad Proffesiynol ac Arweinwyr y Dyfodol
- Adnoddau

8.7 Derbyniwyd ymateb gan lefarydd ar ran Grŵp Ymgyrch Addysg, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Roedd y grŵp yn datgan eu gwrthwynebiad i'r cynnig i gau ysgolion Henblas, Bodffordd ac Ysgol Corn Hir er mwyn creu ysgol ardal newydd. Y prif bwyntiau yn yr e-bost oedd:

- Y diffygion roeddent yn eu gweld yn y broses ymgynghori
- Barn y Grŵp na ellid cyfiawnhau cau 2 ysgol “o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion”
- Barn y Grŵp fod “diffyg ystyriaeth opsiynau eraill” gan yr Awdurdod
- Effaith y cynigion ym marn y Grŵp ar gymunedau Cymraeg

8.8 Yn ychwanegol i’r ffurflenni a’r llythyrau adborth ar yr ymgynghoriad roedd cyfle i’r rhanddeiliaid gyfrannu at arolwg electroneg trwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn. Cyflwynir crynodeb o’r arolwg [101 o ymatebion] yn rhan 14.

## 9. ADBORTH GAN DDISGYBLION

9.1 Cyfarfu swyddogion y Cyngor gyda disgyblion Ysgol Henblas, Bodffordd a Corn Hir. Y bwriad oedd cynnal cyfarfodydd byr gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion o’r tair ysgol, er mwyn canfod eu barn am y cynnig i newid eu hysgol bresennol.

Eglurwyd i’r disgyblion fod ymgynghoriad wedi ei gynnal gyda’r oedolion yn y gymuned, ac roedd hyn yn gyfle i’r plant o’r ysgolion fynegi eu barn am gynlluniau’r Cyngor ar gyfer moderneiddio ysgolion. Pwysleisiwyd bod eu barn yn bwysig gan mai nhw sy’n mynychu’r ysgolion. Dywedwyd wrthynt bydd y wybodaeth a gyflwynir ganddynt yn cael eu trosglwyddo i ffurf adroddiad a’i gyflwyno i Gynghorwyr y Cyngor fel rhan o’r Ymgynghoriad Statudol.

Eglurwyd mai’r rhesymau dros foderneiddio oedd:

- Angen gwneud yn siŵr bod yr holl ddisgyblion yn cael addysg dda
- Angen gwneud siŵr fod yr ysgol yn fodern ac yn cynnig adnoddau da
- Bod y Cyngor yn gwario eu harian ar ysgolion mewn ffordd deg
- Mae gan ysgolion Ynys Môn ormod o lefydd gwag neu dim digon o lefydd mewn rhai o’u hysgolion

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i’r plant.

1. Beth oedd y disgyblion yn hoffi am eu hysgol bresennol?
2. Beth yw eich barn am y cynnig i gyfuno Ysgol Henblas, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd ac adeiladu ysgol newydd?
3. A oeddent yn cytuno gyda'r rhesymau dros newid
4. Unrhyw sylwadau eraill

Yn ystod rhai sesiynau, ysgrifennodd rhai plant eu sylwadau ar bapur ac fe'i cyflwynir yn iaith y plant.

## 9.2 Barn Plant Ysgol Bodffordd

| Cwestiwn - Beth rydych yn hoffi am eich ysgol bresennol? |
| --- |
| ▪ Mannau chwarae tu allan<br>▪ Staff da<br>▪ Pobl garedig - staff a phlant<br>▪ Gwaith diddorol<br>▪ Teimlo'n saff<br>▪ Gwybod at pwy i droi<br>▪ Dim yn ysgol i'w gau<br>▪ Ardaloedd da i chwarae<br>▪ Lle / gofod mawr ar gyfer ymarfer corff<br>▪ Adnabod pawb yn yr ysgol<br>▪ Pawb yn ffrindiau yma<br>▪ Cinio da<br>▪ Brecwast da yma<br>▪ Gemau pêl-droed<br>▪ Tri amser chwarae<br>▪ Hwyl<br>▪ Pawb yn cael eu trin yn deg<br>▪ Digon o gyfrifiaduron/ digon o adnoddau<br>▪ Digon o siarad Cymraeg<br>▪ Pawb yn helpu<br>▪ Dim eisiau colli ffrindiau<br>▪ Plant a staff yn gymwynasgar<br>▪ Pawb yn barod eu cymwynas<br>▪ Pan rydym yn poeni - mae'r staff pob amser yn eich helpu<br>▪ Staff yn edrych ar ein holau<br>▪ Bydd ffrindiau yma i'n helpu, os nad yw staff ar gael<br>▪ Pobl yma i chwarae<br>▪ Digon o fwyd iachus<br>▪ Neb yn annifyr efo'i gilydd |

| Cwestiwn - Beth yw eich barn am y cynnig i gyfuno Ysgol Henblas, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd ac adeiladu ysgol newydd |
| --- |
| ▪ Ffrindiau yn cael eu gwahanu<br>▪ Staff yn colli gwaith<br>▪ Dim yn hapus a dim yn cytuno gyda'r cynnig<br>▪ Adnabod pawb yma<br>▪ Nid ydym eisiau cau'r ysgol yma. Mae Corn Hir eisiau'r ysgol gau- felly pam na wnewch estyniad iddyn nhw<br>▪ Mae ysgol i 500 o blant yn ormod<br>▪ Ni fyddwn yn gwybod lle i fynd (bydd yr ysgol yn fawr)<br>▪ Mwyaf yw'r ysgol, mwyaf yw'r problemau |

- Os bydd plant yn cael eu gwahardd o'r ysgol newydd, a'r ysgolion eraill yn llawn - i ba ysgol fydd y plant sydd wedi eu gwahardd yn mynd?
- Heb ysgol nid oes dim ym Modffordd - mae'n ysgol i'r gymuned e.e. cynnal partïon pen-blwydd, Eisteddfod Bodffordd, Eisteddfod Celf a Chrefft
- Mewn ysgol fawr nid oes cyfle teg. Mae mwy o chwarae teg mewn ysgol fach
- Dim eisiau bod yn ddisgybl mewn ysgol fawr
- Byddaf yn swil mewn ysgol fawr ac yn teimlo mwy cyfforddus mewn ysgol fach
- Bydd angen ystyried diogelwch yn yr ysgol, gan y bydd mwy o ddrysau yn yr ysgol newydd
- Ffrindiau dieithr - bydd rhaid cael cyfle i ddod i'w adnabod
- Ni fydd y staff yn adnabod y plant o ran eu henwau

**Holwyd y plant os yr oeddent yn cytuno efo'r rhesymau dros newid:**
**Yr angen i gynllunio llefydd priodol**
**Gwneud yn siŵr fod pawb yn parhau i gael addysg dda**
**Ysgol fodern ac offer da**
**Gwario arian ar ein hysgolion mewn ffordd deg**

- Roedd rhai o'r Cyngor ysgol yn cytuno efo'r rhesymau ac eraill ddim.
- Nododd un plentyn – rwy'n casáu'r cynllun sy'n cael ei ystyried gan y Cyngor, a holwyd pam nad yw'r Cyngor wedi meddwl ymhellach am estyniad i Ysgol Bodffordd.

## 9.3 Barn Plant Ysgol Corn Hir

**Cynrychiolaeth o flynyddoedd 2-6**

**Cwestiwn - Beth rydych yn hoffi am eich ysgol bresennol?**

- Chwarae pêl-droed yn yr haf
- Ysgol fach - teimlo'n saff yma a phobl glên
- Dathlu diwrnod y llyfr
- Cystadlaethau a'r Eisteddfod
- Lot o ffrindiau
- Cyfle i wneud mwy o ffrindiau yn yr ysgol newydd
- Gwaith yn cŵl
- Mathemateg
- Agos at dai - ac nid yn ysgol sydd yn ganol cae yn rhywle
- Cerdded yma
- Lot o adnoddau
- Dod ar ein beics i'r ysgol a chyfleoedd chwaraeon
- Cwl Cymru
- Iard feics
- Ffrâm ddringo
- Babanod ac Iau a Derbyn (3 iard)
- Os ydynt yn cael ysgol newydd - eisiau parc bach fel sy'n Ysgol y Graig
- Rydym eisiau trampolinau - os yw hynny yn iawn efo Iechyd a Diogelwch
- Rydym angen toiledau mwy eu maint
- Mwy o blant a mwy o siawns iddynt frifo
- Dosbarthiadau mwy
- Neuadd fwy. Neuadd bresennol yn fach
- Yn dymuno i'r gegin ysgol newydd fod fel un Ysgol Gyfun Llangefni
- Bydd mwy o staff yn yr ysgol newydd i wneud y bwyd
- Sut bydd plant anabl yn mynd i fyny grisiau os yw'r ysgol dros 2 lawr?
- Bydd mwy o wersi yn yr ysgol e.e. Coginio
- Efallai daw cyfle i blant baratoi bwyd yn yr ysgol newydd
- Rydym yn dymuno cael gôl arall yn yr ysgol newydd er mwyn cael chwarae pêl-droed yn ystod y gaeaf

- Yn yr ysgol newydd rhannu'r iard yn deg rhwng y rhai sy'n chwarae pêl droed  a'r rhai sydd ddim
- Cael AstroTurf
- Mae cyfleodd chwaraeon yn bwysig
- Bydd yn anfantais i blant Ysgol Henblas - bydd gofyn iddynt deithio yn bellach
- Rydym eisiau gweld cydweithio rhwng yr adran iau a'r babanod
- Yn dymuno cael neuadd arall i ymarfer corff, gan fod bwyd ar lawr yn y neuadd pan yn cael ymarfer corff yn bresennol
- Dim digon o ystafelloedd yn yr ysgol yn bresennol ac yn gorfod jyglo ystafelloedd
- Yn dymuno cael man chwarae AstroTurf a chynnwys cadeiriau ar gyfer pobl ddod yno i wylio, fel stadiwm
- Yn awyddus i gael ysgol sy'n fwy modern
- Ysgol fawr - cadw'n iach a saff
- Yn dymuno cael gofod bach i chwarae a chael cyfleoedd i weu ac ati
- Nyrs ysgol
- Ystafell fwy o ran maint i'r Clwb ar ôl ysgol a chyfrifiadur i bawb

**Cwestiwn - Beth yw eich barn am y cynnig i gyfuno Ysgol Henblas, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd ac adeiladu ysgol newydd**

- Anfanteision, ond hefyd bydd mwy o fanteision
- Gwell - bydd nwy i le i gadw'r offer, sy'n ein helpu efo gwaith
- Eisiau dillad ymarfer corff sy'n fwy lliwgar
- Bydd y traffig yn 'ofnadwy' - bydd rhaid meddwl yn ofalus amdano
- Bydd yn well, oherwydd lot mwy o athrawon. A fydd swyddi i'r athrawon?
- Cael bysus ysgol
- Eisiau gwersi dawnsio
- Beth sy'n digwydd i adeiladau presennol yr ysgolion
- Ydi'r ysgol newydd am fynd tu ôl i ysgol y Graig
- Dim eisiau agor y Rheilffordd yn Llangefni
- Gallwn gystadlu a llwyddo mwy yn yr Eisteddfod gan y bydd mwy o blant yn ysgol
- Bydd mwy o reolau, os bydd mwy o blant
- Yn awyddus i siarad efo'r pensaer am y dyluniad
- Eisiau loceri yn lle pegiau i ddal ein cotiau ac ati
- Rydym eisiau logos a gwisg ysgol newydd
- Awgrym am enw i'r ysgol newydd:   Ysgol Corn Henffordd
- Eisiau sicrhau bod yna lot o ffonau yn yr ysgol newydd
- Eisiau sioe pob wythnos yn yr ysgol newydd
- Rwy'n ypset na fyddaf yn mynd i'r ysgol newydd. Erbyn hynny byddaf yn yr uwchradd
- Cael adnoddau da a phethau sy'n gweithio e.e. cyfrifiaduron
- Syniad da - gan ein bod yn brin o le yn yr ysgol yma
- Mae'n bwysig i'r ysgol fod yn lân
- Mae dysgu am y byd natur yn bwysig hefyd
- Parhau efo seren yr wythnos a seren y diwrnod

**Holwyd y plant os yr oeddent yn cytuno efo'r rhesymau dros newid:**
**Yr angen i gynllunio llefydd priodol**
**Gwneud yn siŵr fod pawb yn parhau i gael addysg dda**
**Ysgol fodern ac offer da**
**Gwario arian ar ein hysgolion mewn ffordd deg**

Yn deall y rhesymau dros newid

## 9.4 Barn Plant Ysgol Henblas
### Cynrychiolaeth o flynyddoedd 2-6

| Cwestiwn - Beth rydych yn hoffi am eich ysgol bresennol? |
| --- |
| ▪ Dysgu pethau gwahanol. Cyfleoedd<br>▪ Ffrindiau<br>▪ Athrawon Clên<br>▪ Pawb yn mwynhau<br>▪ Cinio<br>▪ Lot o ffrindiau<br>▪ Bywyd yn ddiflas heb ysgol a ffrindiau<br>▪ Gwaith hwyl<br>▪ Ysgol yn saff<br>▪ Ysgol agos at dai/ cartref<br>▪ Dysgu a gwneud ffrindiau newydd<br>▪ Criced ar ôl ysgol<br>▪ Gweithgareddau ar ôl ysgol<br>▪ Popeth<br>▪ Mae'n hwyl<br>▪ Gwersi offerynnau<br>▪ Adnoddau da<br>▪ Athrawon a chymorthyddion yn edrych ar ein holau - dim bwlio<br>▪ Os ydym yn drist mae gennym ffrindiau i'n helpu<br>▪ Trio pethau newydd - pob math o bethau gwahanol<br>▪ Rydym yn cael trio pethau newydd fel bwydydd sy'n dod o Affrica<br>▪ Cawsom wneud 'Fudge' cyfnod y Nadolig<br>▪ Awgrymiad am Ysgol newydd. FforCenblas (Cyfuniad o'r 3 ysgol)<br>▪ Cyfle i wylio ffilm yn yr ysgol<br>▪ Ysgol yn y Gymuned<br>▪ Ysgol i'r gymuned |

| Cwestiwn - Beth yw eich barn am y cynnig i gyfuno Ysgol Henblas, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd ac adeiladu ysgol newydd |
| --- |
| ▪ Mae'r ysgol rŵan yn agos at le dwi'n byw, ac mae fy ffrindiau yn bwysig<br>▪ Mae ysgol bentref yn bwysig, bydd dim ysgol yma<br>▪ Bydd bwlio yn broblem yn yr ysgol newydd<br>▪ Pwysig i'r Cyngor feddwl am sut fydd y plant yn cyrraedd yr ysgol yn saff<br>▪ Rwy'n poeni bydd y plant, sydd rŵan yn ffrindiau, yn cael eu gwahanu<br>▪ Dim cyswllt efo'r gymuned unwaith bydd yr ysgol yn mynd<br>▪ Mewn dosbarthiadau mwy, ni fyddwn yn cael sylw'r athrawes<br>▪ Ni chawn gymaint o sylw osbydd y dosbarthiadau yn fwy<br>▪ Ysgol fwy yn teimlo llai saff<br>▪ Pwysig parhau efo lle chwarae yn Llangristiolus<br>▪ Mae nifer o'r plant yn defnyddio tir yr ysgol i chwarae, ar ôl i'r ysgol gau<br>▪ Mae gennym barc newydd yma, pam rydych yn ei ddinistrio |

| Holwyd y plant os yr oeddent yn cytuno efo'r rhesymau dros newid:<br>Yr angen i gynllunio llefydd priodol<br>Gwneud yn siwr fod pawb yn parhau i gael addysg dda<br>Ysgol fodern ac offer da<br>Gwario arian ar ein hysgolion mewn ffordd deg |
| --- |
| Barn gyffredinol oedd eu bod yn deall y rhesymau dros newid |

| **Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan y plant**<br>**13 sylw ysgrifenedig wedi ei gyflwyno ar y diwrnod (yng ngeiriau'r plant)** |
|---|
| ▪ Bydd yr ysgol yn fawr<br>▪ Gormod o blant i'r athrawon rhoi sylw iddynt.<br>▪ Os bydd un ohonom yn gofyn i rywun mewn ysgol arall i chwarae, beth os fydd y nhw yn dweud na ac yn gwneud i ni deimlo yn drist.<br>▪ Rydym ni wedi talu miloedd o bunnoedd ar yr ysgol buasai'r pres i gyd yn mynd i wast, mae technoleg fodern yma yn barod, a fydd cael addysg well mewn ysgol lai.<br>▪ Fy marn i am gau Henblas - Dwi eisiau i fy mhlant fynd i Ysgol Henblas felly dwi ddim eisiau 'ysgol ardal' ac mae'n agos at fy nhŷ. Dwi ddim mynd holl ffordd i Langefni i fynd i'r ysgol. Felly na i gau ysgol Henblas! Henblas am byth!<br>▪ Fy marn yw cadw'ch yr ysgol ar agor. Nid ydym am gyfuno. Mae'r ysgol yn dda.<br>▪ Dwi'n hapus yn yr ysgol ac mae lot o ffrindiau yma.<br>▪ Os fydd yr ysgol yn cau, yn yr ysgol newydd gall blant fynd ar goll.<br>▪ Ni fydd plant yn cael chwarae ar ôl ysgol ar yr iard / tir.<br>▪ Na i gyfuno. Dim ysgol ardal.<br>▪ Bydd dim ysgol cymuned.<br>▪ Yn fy marn i ella bydd rhai o'r athrawon yn colli eu swyddi. Os bydd yr ysgol yn cael ei ddymchwel yna mwy o dai ac wedyn mwy o bobol yn yr ysgol. Diolch am gymryd fy marn.<br>▪ Dwi'n caru'r ysgol yma oherwydd mae pawb gyda ffrindiau ac mae llawer o atgofion yma.<br>▪ Ella bydd gormod o blant mewn dosbarth a ni fydd digon o sylw i blant sydd ei hangen. Fydd yna ormod o blant. |

## 10. YMATEB I'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD

Nid yw yn bosib ymateb i'r holl sylwadau unigol a dderbyniwyd am sawl rheswm gan gynnwys y ffaith fod nifer ohonynt yn debyg. Cyflwynir isod ymateb yr Awdurdod i'r rhai o'r prif themâu a gyflwynwyd mewn cymhariaeth â'r prif yrwyr newid yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion [adran 2].

### *10.1 Ysgol Henblas*

1. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn y sylwadau a dderbyniwyd at y ffaith fod safonau yn Ysgol Henblas wedi bod yn isel dros gyfnod o amser a gadarnheir gan adroddiad Estyn (Mai 2017). Ers hynny, nid yw'r ysgol wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig ac mae'n ffaith fod y nifer dyddiau o amser cefnogi ysgol a ddarparwyd i'r ysgol yn llawer uwch na nifer sylweddol o'r ysgolion eraill. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gwelliant diweddar dan arweiniad y Pennaeth drosdro ond erys cwestiynau ynghylch gallu'r ysgol i wella a chyrraedd y safonau sydd yn ddisgwyliedig gan yr Awdurdod. Beth bynnag fydd y penderfyniad terfynol, mae angen dybryd i'r Awdurdod, rhieni a'r Corff Llywodraethu barhau i gydweithio dros y flwyddyn nesaf i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

2. Nid yw maint yr ysgol yn caniatáu i benodi dirprwy ac mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod cryn waith i'w wneud i gyrraedd pwynt lle byddai arweinyddiaeth ddosranedig [nifer o athrawon yn cyfrannu at arweinyddiaeth yr ysgol] yn un o gryfderau'r ysgol. Yn sgîl hyn gellid dadlau bod datblygu diwylliant o ddatblygu arweinyddiaeth a chynllunio olyniaeth am fod yn her sylweddol yn yr ysgol.

3. Mae maint yr ysgol yn golygu bod dosbarthiadau o oedran cymysg yn yr ysgol. Mae hyn, ynghyd â'r disgwyliad i baratoi gwaith addas ar gyfer yr ystod o alluoedd mewn dosbarth, yn cynnig lefel uwch o her i athrawon mewn ysgolion llai.

4. Noda nifer sylweddol o’r ymatebion bod cyflwr yr ysgol yn dda. Yn ôl asesiad cyfredol yr Awdurdod mae cyflwr presennol yr adeilad yn foddhaol ac mae ôl-groniad cynnal a chadw o £112,000. Angen gwirio hyn.

5. Mae nifer o’r ymatebion wedi cyfeirio at ddefnydd cymunedol o’r ysgol. Cwestiynir os yw yn uwch na’r hyn sydd yn digwydd mewn nifer o ysgolion/ardaloedd eraill. Bydd yr asesiad effaith cymunedol a ddatblygwyd gan yr Awdurdod yn edrych yn fanylach ar y defnydd cymunedol o’r ysgol.

6. Cyfeirir at y ffaith fod y defnydd o’r Iaith Gymraeg yn well yn Ysgol Henblas nag mewn ysgolion eraill. Nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn gan fod y defnydd o’r Gymraeg yn un o gryfderau’r tair ysgol ac mae’r sylw yn sarhad ar arferion cyfredol y ddwy ysgol arall. Honnir hefyd byddai sefydlu ysgol fwy yn cael dylanwad negyddol ar y Gymraeg. Nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn. Nodir hefyd bod plant yr ardal yn cyfrannu’n helaeth yn ddiwylliannol yn Ynys Môn yn sgîl eu profiad yn yr ysgol. Mae esiamplau i gefnogi y rhan gyntaf o’r datganiad ond cwestiynir os yw hyn yn well na chyfraniad yr ysgolion eraill dan sylw, yn ddiwylliannol ac mewn meysydd eraill. Nid yw’r asesiad effaith Ieithyddol yn cadarnhau nifer o’r materion hyn.

7. Cyfeirir at y parc chwarae newydd ar y cae ysgol. Er bod hyn yn fater o bwys nid yw yn ffactor allweddol wrth ystyried dyfodol yr ysgol gan y byddai’n bosib rhoi ystyriaeth i hyn ar lefel gymunedol petai penderfyniad yn cael ei wneud i gau'r ysgol. Yn yr un modd mae cyfeiriad at y defnydd o neuadd yr ysgol yn berthnasol i’r ysgolion eraill dan sylw; cwestiynir hefyd os yw’r defnydd o’r neuadd ysgol yn uwch na’r hyn sydd yn digwydd yn yr ysgolion eraill ac ar draws y Sir.

8. Nid oes unrhyw gyfeiriad at gost y disgybl - Henblas yw’r uchaf o’r tair ysgol. Mae 13% o lefydd gweigion yn yr ysgol er gwaethaf y ffaith fod % y disgyblion all-dalgylch [32%], er wedi lleihau yn ddiweddar, yn gymharol uchel.

**10.2 Ysgol Bodffordd**

1. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn y sylwadau a dderbyniwyd at y ffaith fod safonau yn Ysgol Bodffordd wedi bod yn isel dros gyfnod o amser - ffaith a gadarnheir gan adroddiad Estyn (Mehefin 2015). Yn ogystal, mae’r cynnydd sydd wedi’i wneud ers hynny wedi bod yn araf ac fe ellid dadlau bod y gefnogaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod, trwy GwE, wedi bod yn allweddol er mwyn sicrhau hyn. Mae’r amser cefnogi ysgol a ddarparwyd i Ysgol Bodffordd yn llawer uwch na nifer sylweddol o’r ysgolion eraill.

2. Cyfyd yr uchod gwestiynau ynghylch ansawdd arweinyddiaeth yn yr ysgol ac yn y cyd-destun byddai’r Awdurdod yn cydnabod yr her sydd mewn ysgolion llai o fod yn gyfrifol am ddosbarth am ran sylweddol o’r wythnos yn ogystal â bod yn gyfrifol am holl agweddau o arwain ysgol.

3. Mae maint yr ysgol yn golygu bod dosbarthiadau o oedran cymysg. Mae hyn, ynghyd â’r disgwyliad i baratoi gwaith addas ar gyfer yr ystod o alluoedd mewn dosbarth, yn cynnig lefel uwch o her i athrawon mewn ysgolion llai.

4. Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod defnydd cymunedol sylweddol o’r ysgol sydd yn ymddangos yn llawer uwch na’r ysgolion eraill dan sylw ac ar draws y sir. Petai'r penderfyniad terfynol yn un o gau’r ysgol cydnabyddir yr angen i gydweithio gyda’r gymuned i ganfod datrysiad fyddai’n caniatáu i’r gweithgareddau cymunedol i barhau.

5. Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod y defnydd o’r Iaith Gymraeg yn gryfder yn yr ysgol. Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan yr asesiad effaith Ieithyddol.

6. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn y sylwadau a dderbyniwyd ynghylch cost y disgybl o £4,500 sydd yn uwch na chyfartaledd Ynys Môn (£3,972). Yn ogystal mae angen nodi bod ôl-groniad cynnal a chadw o £209,000 sydd yn adlewyrchu oedran a chyflwr yr adeilad.

**10.3 Ysgol Corn Hir**

1. Mae'r Awdurdod yn cydnabod mai Ysgol Corn Hir yw'r ysgol fwyaf dan sylw ac yn sgîl hynny bod angen i'r opsiwn terfynol adlewyrchu hynny. Cydnabyddir hefyd bod diffyg capasiti yn yr ysgol yn gyfredol ac nad yw yn bosib ehangu'r ysgol ar y safle gyfredol.

2. Mae safonau cyfredol yr ysgol yn dda. Fodd bynnag, fe fyddai'r Awdurdod yn dadlau bod lle i wella.

3. Mae ôl-groniad cynnal a chadw yn yr ysgol o £239,000

4. Cost y disgybl yw'r isaf o'r tair ysgol dan sylw ac fe ellid dadlau bod hyn yn arwain at her gyllidol sylweddol uwch i'r ysgol na'r ysgolion eraill dan sylw. O ganlyniad mae'r dosbarthiadau yn fawr yn yr ysgol ac yn sgîl hyn a'r ffaith fod ysgolion mwy yn aml yn gwasanaethu ardaloedd mwy difreintiedig, gellid dadlau nad yw hyn yn hyrwyddo cyfle cyfartal.

5. Mae dirprwy ac mae esiamplau o unigolion yn symud ymlaen i swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion eraill.

6. Mae'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn yr ysgol yn dda iawn. Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan yr asesiad effaith Ieithyddol.

**10.4 Sylwadau Cyffredinol**

Derbyniwyd sylwadau oedd yn gyson ar draws yr ysgolion ac fe ymatebir i'r rhai mwyaf cyffredin isod.

- Roedd nifer o sylwadau ynghylch y Gymraeg ac yn cwestiynu statws ieithyddol ac ansawdd y Gymraeg yn yr ysgol newydd; bod maint ysgol yn effeithio ar ansawdd y Gymraeg. Mae yn flaenoriaeth gan y Cyngor i gryfhau a diogelu'r Gymraeg. Bydd unrhyw gynllun ysgol newydd a gyflwynir yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith. Yn ogystal, mae'n ddisgwyliad gan y Cyngor i ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion barhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod ysgolion llai yn fwy effeithiol mewn perthynas â hyrwyddo safonau uchel yn y Gymraeg.
- Cyflwynir y sylw bod ysgolion mwy yn llai effeithiol mewn perthynas â chreu 'ymdeimlad o deulu' ac nad oes yr un cyfle i'r plant gael y cyfle i gynrychioli'r ysgol. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn yn wir - mae trefnioadau mewn ysgolion cynradd i sicrhau cyfleoedd i'r holl ddisgyblion gyfranogi e.e. timau blynyddoedd, corau oedran penodol.
- Honnir bod 'ysgolion yn galon y gymuned' ac y byddai'r gymuned yn dirywio pan fo ysgol yn cau. Derbynnir bod hyn un her ond mae esiamplau penodol lle bo ysgol newydd wedi creu cymuned 'ehangach'. Yn ogystal mae esiamplau lle mae'r gymuned yn parhau i ffynnu mewn pentrefi lle mae'r ysgol wedi cau.

**11. YSTYRIAETHAU ARIANNOL**

Cyllidir costau cyfalaf unrhyw ysgol newydd a adeiladir dan Band A o raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru drwy gyfuniad o grantiau a benthyciadau. Darperir 50% o'r gyllideb gan Llywodraeth Cymru drwy grantiau cyfalaf a benthyca gyda chefnogaeth (cyllidir ad-daliadau dyled blynyddol a chostau llog yn y Grant Cymorth Refeniw). Mae'n rhaid cyllido'r 50% sy'n weddill gan yr Awdurdod Lleol drwy

unrhyw incwm a gynhyrchir drwy werthu hen safleoedd ysgolion a drwy benthyca di-gefnogaeth lle mae'n rhaid i'r Cyngor gyllido'r cost blynyddol o ad-dalu dyled a llog blynyddol.

Mae adeiladu ysgolion newydd yn fuddsoddiad cyfalaf sylweddol a rhaid i'r gwerthusiad ariannol o'r opsiynau ystyried y rhwymedigaeth refeniw i'r dyfodol er mwyn sicrhau fod y baich ariannol o adeiladu ysgolion newydd i genedlaethau'r dyfodol cyn lleiad â phosib. Mae adeiladu ysgolion newydd mwy hefyd yn arwain at economïau maint a chostau refeniw llai. Mae'r gostyngiad yng nghostau refeniw hefyd yn ffactor bwysig yn y gwerthusiad ariannol gan fod yr arbedion a gynhyrchir yn cyfrannu tuag at y costau cyllido cyfalaf ychwanegol.

Cynhyrchir arbedion refeniw gan fod rhedeg un ysgol fawr yn llai costus yn nhermau cynnal a chadw adeilad ac ynni, costau rheoli llai (un Pennaeth yn lle dau neu dri) a gellir gosod meintiau dosbarthiadau i'r lefel orau posib sy'n gostwng costau dysgu.

Cyn cyrraedd yr opswin a gynigir, ymgymerwyd â gwerthusiad ariannol ar y 4 opsiwn isod:-
1. Peidio gwneud dim a pharhau i gynnal Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas
2. Agor ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd a pharhau i gynnal Ysgol Henblas
3. Agor ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas (ar yr un safle ag opsiwn 2).
4. Agor ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas (ar safle gwahanol). Mae'r gwerthusiad ariannol yn ystyried y gost o gyllido'r benthyciad, yr arbedion refeniw a gynhyrchir a'r costau ychwanegol o gludo disgyblion i'r ysgol newydd. Er mwyn ymgymryd â'r gwerthusiad ariannol, gwnaed y rhagdybiaethau isod.
    - Ystyried benthyciadau i gyllido'r ysgolion newydd dros gyfnod o 50 mlynedd gyda'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf wedi ei gyfrifo ar ddull llinell syth 2%.
    - Ystyried benthyciadau i gyllido'r costau cynnal a chadw ôl-groniad dros gyfnod o 20 mlynedd gyda'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf wedi ei gyfrifo ar ddull llinell syth 4%.
    - Defnyddio graddfeydd llog cyfredol i fodelu costau.
    - I gyfrifo costau refeniw'r ysgol newydd, defnyddiwyd y wybodaeth gyfredol ynglŷn â niferoedd disgyblion, prydau ysgol am ddim, anghenion addysgiadol arbennig disgyblion, ac ati, er mwyn gwneud dyraniad amcangyfrifiedig ar gyfer yr ysgol newydd.
    - Ni chynhwyswyd costau unwaith ac am byth yn y gwerthusiad ariannol, gan gynnwys costau apwyntio Pennaeth cyn i'r ysgol newydd agor, costau diswyddiadau, diogelu cyflogau a chostau cynnal y gyn safleoedd. Fe gymerir y rhain i ystyriaeth pan lunnir y cynllun busnes manwl o'r opsiwn y cytunir arno

Ni fyddai cynnal y 3 ysgol gyfredol yn arwain at gostau cyfalaf sylweddol, ond byddai angen rhoi sylw i'r cynnal a chadw ôl-groniad y tair ysgol o £406k, gyda phosibilrwydd o gostau ychwanegol pellach wrth i'r adeiladau nesáu at ddiwedd eu hoes ddefnyddiol. Fe all costau ychwanegol godi wrth dalu i gludo plant i ysgolion arall, sydd y tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti, yn enwedig yn Ysgol Corn Hir, ond mae'n anodd pennu'r rhain ar yr adeg yma ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y gwerthusiad.

Byddai adeiladu un ysgol i gymryd lle Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas yn ddrutach ond be wrthbwysir y gost ychwanegol yma'n rhannol gan gynnydd yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru a'r derbyniad cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu safle Ysgol Henblas. Byddai cau Henblas yn cynyddu'r economïau maint yr ysgol newydd a byddai'n cynhyrchu mwy o arbedion refeniw.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwerthusiad ariannol o'r 4 opsiwn a nodir uchod

| | **Opsiwn 1** **Gwneud Dim** | **Opsiwn 2** **Ysgol newydd yn lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd. Ysgol Henblas i aros ar agor gydag addasiadau** | **Opsiwn 3** **Ysgol newydd yn lle Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas Ar yr un safle ag Opsiwn 2** | **Opsiwn 4** **Ysgol newydd yn lle Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas** **Ar safle gwahanol** |
|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif Cost Cyfalaf | £0 | £8,143,000 | £8,412,000 | £10,162,000 |
| Cost cynnal a chadw ôl-groniadol | £406,000 | £0 | £0 | £0 |
| **Cyfanswm Costau Cyfalaf** | **£406,000** | **£8,143,000** | **£8,412,000** | **£10,162,000** |
| Cyllid Llywodraeth Cymru | £0 | (£4,071,500) | (£4,206,000) | (£5,081,000) |
| Derbyniadau Cyfalaf | £0 | (£320,000) | (£770,000) | (£770,000) |
| **Benthyca Di-gefnogaeth Net** | **£406,000** | **£3,751,500** | **£3,436,000** | **£4,311,000** |
| **Rhwymedigaethau Refeniw** | | | | |
| Cost flynyddol Darpariaeth Refeniw Isaf | £20,300 | £75,030 | £68,720 | £86,220 |
| Cost Llog Blynyddol @ 2.3% | £9,340 | £86,280 | £79,030 | £99,150 |
| Costau Cludo Ychwanegol | Heb ei gyfrifo | £32,000 | £64,000 | £64,000 |
| **Cyfanswm Costau Refeniw Ychwanegol** | **£29,640** | **£193,310** | **£211,750** | **£249,370** |
| Arbedion Refeniw | £0 | (£25,700) | (£110,470) | (£110,470) |
| **Costau Refeniw Ychwanegol Net** | **£29,640** | **£167,610** | **£101,280** | **£138,900** |

## 12. YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL

Cafodd Strategaeth Ynni'r Awdurdod ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith yn 2017. Nod y strategaeth yw i leihau allyriadau carbon yr Awdurdod o 15% erbyn 2022. Gweler isod wybodaeth am wariant yr Awdurdod ar danwydd a thrydan, dros y tair blynedd ariannol diwethaf, i'r ysgolion:

| | **Gwariant (ar drydan a thanwydd)** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2014-2015** | **2015-2016** | **2016-2017** | **Cyfartaledd (y flwyddyn)** | **Cyfartaledd cost y disgybl** |
| **Bodffordd** | £6,491 | £5,560 | £6,814 | £6,288 | £101 |
| **Corn Hir** | £9,178 | £8,442 | £9,525 | £9,048 | £42 |
| **Henblas** | £7,380 | £6,834 | £7,467 | £7,227 | £82 |

Mae'r tabl isod yn manylu ar allyriadau carbon deuocsid o'r ysgolion dros y dair blynedd ariannol diwethaf:

| | **Tunnell $CO_2$ (trydan a thanwydd)** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2014-2015** | **2015-2016** | **2016-2017** | **Cyfartaledd *** | **Cyfartaledd y disgybl** |
| **Bodffordd** | 25 | 31 | 27 | 28 | 0.45 |
| **Corn Hir** | 35 | 34 | 47 | 38 | 0.18 |
| **Henblas** | 34 | 28 | 26 | 29 | 0.33 |

**Allwedd - * tunnell $CO_2$**

Gweler mai gan Ysgol Corn Hir mae'r allyriadau carbon deuocsid uchaf ond hefyd sydd a'r cyfartaledd allyriadau **$CO_2$** lleiaf, y disgybl, o'r tair ysgol.

## 13. CASGLIADAU AC ARGYMHELLIAD

13.1 Ceisir isod grynhoi'r prif faterion a gyflwynir yn yr adrannau blaenorol a cheisio defnyddio hynny i gyflwyno argymhelliad ar gyfer sylw'r Pwyllgor.

13.2 Mae'r dystiolaeth uchod yn arwain at y casgliadau a ganlyn.

- Bod angen i Ysgol Corn Hir yn sgîl nifer disgyblion, capasiti cyfredol, cost y pen ac ôl-groniad cynnal a chadw fod yn ganolog i unrhyw drefniadaeth newydd.
- Bod safonau cyfredol yr ysgol, cyflymder y gwelliant ac ansawdd arweinyddiaeth, maint yr ysgol, ôl-groniad cynnal a chadw a chost y pen yn golygu nad yw yn bosib cyfiawnhau dyfodol Ysgol Bodffordd. Dylid fodd bynnag nodi bod angen i unrhyw benderfyniad gymryd ystyriaeth o'r angen i geisio sicrhau dyfodol y ddarpariaeth gymunedol.
- Mae nifer o faterion sydd angen sylw wrth ystyried dyfodol Ysgol Henblas.
    - Mae safonau'r ysgol yn is na'r disgwyl ac wedi bod dros gyfnod o amser ac mae cyflymder y gwelliant yn siomedig iawn.
    - Mae cryn waith i'w wneud i ddatblygu arweinyddiaeth yn yr ysgol.
    - Mae maint yr ysgol yn golygu bod dosbarthiadau o oedran cymysg yn yr ysgol ac mae hyn, ynghyd â'r disgwyliad i baratoi gwaith addas ar gyfer yr ystod o alluoedd mewn dosbarth, yn cynnig lefel uwch o her i'r athrawon.
    - Yn ôl asesiad cyfredol yr Awdurdod mae cyflwr presennol yr adeilad yn foddhaol ac mae ôl-groniad cynnal a chadw o £112,000.
    - Mae cost y pen yn uwch yn yr ysgol na'r ddwy ysgol arall.
    - Mae 13% o lefydd gweigion yn yr ysgol er gwaethaf y ffaith fod % y disgyblion all-dalgylch, er wedi lleihau yn ddiweddar, yn gymharol uchel.
- Cydnabyddir fodd bynnag y gallai penderfyniad i gau Ysgol Henblas ddylanwadu ar argaeledd addysg mewn ardal wledig ynghyd â chyfarfod a dymuniad rhai rhieni am fath gwahanol o ysgol. Yn sgîl hyn gellid cyflwyno achos i gefnogi Ysgol Henblas cyn belled â bod tystiolaeth bendant bod y gwelliannau diweddar yn parhau a'r cyflymder gwelliant yn cynyddu.

13.3 Dengys y dadansoddiad ariannol bod cost ôl-groniad y tair ysgol yn £406k ac y byddai'r swm hyn yn cynyddu wrth i'r adeiladau nesáu at ddiwedd eu hoes ddefnyddiol. Nodir hefyd byddai adeiladu un ysgol i gymryd lle Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas yn ddrutach nag adeiladu un ysgol ar gyfer Corn Hir a Bodffordd ond fe wrthbwysir y gost ychwanegol yma'n rhannol gan gynnydd yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru a'r derbyniad cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu safle Ysgol Henblas. Byddai cau Henblas yn gwella gwerth am arian yr ysgol newydd gan y byddai'n arwain at fwy o arbedion refeniw.

13.4 Yn sgîl yr uchod, a'r holl sylwadau a dderbyniwyd cyflwynir yr opsiynau a ganlyn.

*Opsiwn 1*
Adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd, Corn Hir a Henblas.

*Opsiwn 2*
Adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd a Corn Hir a pharhau i gynnal darpariaeth addysgol yn Llangristiolus. Fe allai'r ddarpariaeth yn Llangristiolus olygu cynnal Ysgol Henblas ar ei ffurf gyfredol neu ysgol aml-safle [h.y. uno Henblas gyda'r ysgol newydd a chreu un ysgol ar ddau safle]. Byddai rhaid i'r penderfyniad hwn fod yn gysylltiedig â chael sicrwydd mewn blwyddyn bod safonau yn Ysgol Henblas yn codi, bod y raddfa gwelliant cyfredol yn cynyddu a bod rhagolygon niferoedd disgyblion yn parhau'n gyson neu yn codi. Byddai rhaid i unrhyw waith cynllunio ar gyfer yr ysgol newydd gymryd ystyriaeth o hyn.

13.5 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu symud ymlaen gyda naill ai

*Opsiwn 1*
Adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd, Corn Hir a Henblas.

Neu

Opsiwn 2


Adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd a Corn Hir a pharhau i gynnal darpariaeth addysgol yn Llangristiolus. Fe allai'r ddarpariaeth yn Llangristiolus olygu cynnal Ysgol Henblas ar ei ffurf gyfredol neu ysgol aml-safle [h.y. uno Henblas gyda'r ysgol newydd a chreu un ysgol ar ddau safle]. Byddai rhaid i'r penderfyniad hwn fod yn gysylltiedig â chael sicrwydd mewn blwyddyn bod safonau yn Ysgol Henblas yn codi, bod y raddfa gwelliant cyfredol yn cynyddu a bod rhagolygon niferoedd disgyblion yn parhau'n gyson neu yn codi. Byddai rhaid i unrhyw waith cynllunio ar gyfer yr ysgol newydd gymryd ystyriaeth o hyn.

## 14. ADBORTH AR LEIN


Yn ychwanegol i'r ffurflenni a'r llythyrau adborth ar yr ymgynghoriad roedd cyfle i'r rhanddeiliaid gyfrannu at arolwg electroneg trwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn .Cyflwynir isod grynodeb o'r arolwg.

Rydym yn ddiolchgar i'r 101 o bobl a gymerodd ran yn yr arolwg gyda chynrychiolaeth o'r tair ysgol dan sylw.

**Holwyd y rhanddeiliaid pa grŵp roeddent yn eu cynrychioli, a dyma'r ymateb:**




**Dyma grynodeb o gynrychiolaeth yr ysgolion dan sylw, gyda rhai unigolion wedi dewis mwy nac un ysgol.**




**Holwyd y rhanddeiliaid a fyddai'r cynnig o adeiladu ysgol gynradd newydd Llangefni a chau ysgolion Henblas, Bodffordd a Chorn Hir yn cael effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg?'**

| Bydd effaith negyddol | Dim effaith negyddol |
|---|---|
| 73% | 27% |

**Dyma grynodeb o  brif fesurau lliniaru a gyflwynwyd gan y rhanddeiliaid i leihau'r effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg, os cymeradwyir y cynnig.**

| |
|---|
| Cadw Ysgol Henblas ar agor<br>Cadw Ysgol Bodffordd ar agor<br>Cadw Canolfan a Chylch Meithrin ar agor.<br>Trosglwyddo'r ganolfan yn ôl i eiddo'r gymuned. Cadw ysgolion bach, cymunedol, wledig ar agor. Mae gan ysgol wledig fwy o ffocws ar addysg Gymraeg |
| Angen i gyfleoedd o annog diwylliant a thraddodiadau Cymreig barhau |
| Sicrhau bod y defnydd o'r Iaith Gymraeg yn parhau i fod yn gryf yn ystod amser egwyl, cinio ayyb. |
| Sicrhau bod staff Cymraeg yn cael eu penodi |
| Mae'n amhosib lleihau'r effaith negyddol, ac yn anodd ei reoli yn ystod amseroedd egwyl ac ati |
| Parhau gyda gweithgareddau megis Eisteddfodau pentref sy'n annog Cymreictod a diwylliant Cymreig |
| Rhoi sicrwydd am statws Ieithyddol yr ysgol newydd. Datblygu cynllun ar gyfer ymdrin â theuluoedd di-gymraeg sy'n symud i'r ardal o ganlyniad i Horizon a phrosiectau eraill. |
| Ymestyn Ysgol Henblas a'i gadw yn y gymuned i sicrhau'r Iaith Gymraeg |
| Rhoi sicrwydd i Gymdeithas yr Iaith ac eraill na fydd cau ysgolion gwledig (os cymeradwyir hynny) yn yr achos yma yn cael effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg |
| Niferoedd uchel o ddysgwyr yn golygu bydd angen i'r ysgol newydd fod â statws Ieithyddol dwyieithog. |
| Cyfuno Ysgol Henblas ac Ysgol Bodorgan - er mwyn cadw'r cysylltiad rhwng Iaith a'r Gymuned |
| Hybu'r Iaith yn yr ysgol. Gwersi trwy gyfrwng y Gymraeg |

**Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r uchod am y pryderon am yr Iaith Gymraeg**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yr un yw'r disgwyliad mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer pob ysgol, sy'n rhoi cyfle i bob disgybl yn y Sir feddu ar y sgiliau priodol i fod yn hyderus yn eu dwyieithrwydd. Yng ngoleuni hyn, bydd unrhyw gynllun ysgol newydd a gyflwynir - yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan ysgolion gwledig ran allweddol i'w chwarae mewn cyfrannu at gymunedau, y defnydd o'r Iaith Gymraeg a ffordd o fyw. Wrth ystyried opsiynau moderneiddio ysgolion bydd y Cyngor yn rhoddi ystyriaeth i gydbwyso anghenion addysgol gydag anghenion tymor hir ein cymunedau.

Mae'n ddisgwyliad gan y Cyngor i ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion barhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith.

Bydd yn flaenoriaeth gan y Cyngor i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog.

**Holwyd y rhanddeiliaid 'Pa effaith fydd y cynnig yn ei gael ar deuluoedd lleol?'**

| |
|---|
| Effaith negyddol ar deuluoedd sydd heb fynediad at gerbyd neu ddull o gludiant eu hunain, yn enwedig teuluoedd sy'n gallu cerdded i'w hysgol yn bresennol. |
| Mae'n rhesymol i deithio rhai milltiroedd i'r ysgol. Bydd rhieni dal yn gallu cymdeithasu wrth giât yr ysgol. Gallaf weld y bydd yn bechod cau ysgol ond nid oes disgwyliad i drethdalwyr dalu am sefydliad i'r lleiafrif, a rhaid bod yn realistig. |
| Mwy o bellter teithio i'r ysgol newydd. |
| Effaith negyddol ar deuluoedd tlawd, sydd heb fynediad at geir, a'u gorfodi i edrych am ffyrdd gwahanol o deithio. Costau ychwanegol ar gyfer cludiant i deuluoedd. |
| O ganlyniad i gau ysgol Bodorgan ac Aberffraw a'r cynnig dan sylw byd ardal ddaearyddol fawr heb ysgol. |
| Bydd yn achosi anhawster. Bydd yn cael effaith ariannol, personol ac emosiynol. |
| Colli cysylltiadau clos presennol |
| Colli canolbwynt cymunedol. |
| Prisiau tai yn gostwng yn yr ardaloedd heb ysgol |
| Diffyg dewis ysgol wledig i rieni |
| Pryder am ddyfodol pentrefi i'r dyfodol |
| Pryder am gyfeillgarwch rhieni, yn credu fod perthynas rhwng rhieni yn haws mewn ysgol lai |
| Poendod am blant ifanc 4 oed yn teithio ar fysus ben eu hunain |
| Colli perthynas rhwng rhieni a staff yr ysgol Colli'r ymdeimlad o 'deulu' sydd yn yr ysgolion presennol |
| Dinistriol, yn gyffredinol |
| Mae plant yn teimlo mwy diogel mewn ysgol lai ei maint |
| Bydd yn straen ar deuluoedd |
| Ni fydd cau ysgol Bodffordd yn cael effaith niweidiol ar deuluoedd lleol. Bydd pawb yn gweld ei gilydd yn yr ysgol newydd. |
| Os bydd yr ysgol yn cau , bydd yr ysgol Feithrin yn colli adeilad. Yn hanesyddol maent yn colli niferoedd ac yn cau. |
| Bydd cau ysgolion pentref yn gallu arwain at wneud y lle yn llai atyniadol i bobl ifanc a theuluoedd. Canlyniad anochel hynny yw tlodi yng nghefn gwlad |

| |
|---|
| Dinistriol - meddyliwch am y tymor hir ac nid yn ariannol. Yn gwerthfawrogi bod rhaid i'r Awdurdod wneud arbedion. |
| Bydd teuluoedd yn cael eu gorfodi i symud yn agosach at yr ysgol newydd. Byddaf yn ystyried symud gan nad wyf yn hapus i anfon fy mhlant ar y bws, gan nad yw'n ddiogel. |
| Ofnadwy. Rydym wedi symud i ardal Henblas ac wedi cael croeso. Mae amryw o ddogfennaeth wedi eu datblygu i amlinellu'r effaith o gau ysgol wledig ar y cymunedau. |
| Effaith negyddol ar Iechyd. Yn bresennol mai rhai yn gallu cerdded i'r ysgol a chael ymarfer corff |
| Colli mynediad at wasanaethau e.e. Cylchoedd Meithrin |
| A oes ystyriaeth i'r teuluoedd a oedd yn mynychu Ysgol Llandrygarn , a'r oblygiadau teithio ychwanegol |
| Anoddach i grwpiau penodol megis rhieni sengl. |
| Materion traffig. Bydd y traffig yn drymach |
| O safbwynt chwaraeon a diwylliannol, mae niferoedd llai mewn ysgol yn rhoi mwy o hyder a chyfleodd i gynrychiolir ysgol.<br>Poeni am golli cyfleoedd mewn ysgol fwy ei maint. Poeni bydd mhwyo bwyslais ar lwyddiant yn hytrach na'r cymryd rhan |
| Straen ychwanegol ar deuluoedd i chwilio am ddarpariaeth i'r plant |
| Mae ysgolion bach gyd dosbarthiadau llai, ac felly mae'r plant yn cyfranogi mwy. Mae problemau yn cael eu hadnabod gan athrawon oherwydd y berthynas rhwng y plant a'r athrawon. |
| Gwneud gofal cyn ac ar ôl ysgol yn anoddach. |
| Bydd yn cael effaith andwyol ar deuluoedd lleol ac mae nifer wedi symud mewn i'r pentref/ardal er mwyn gallu mynychu'r ysgol. |
| Effaith negyddol iawn.  Mae ysgol Henblas wedi bod trwy lawer o newidiadau yn y blynyddoedd diwethaf. Mae rhai teuluoedd wedi symud eu plant o'r ysgol, yn bennaf oherwydd problemau staffio. Mae'r mwyafrif o deuluoedd wedi aros yn ffyddlon i'r ysgol, yn gwybod pwysigrwydd yr ysgol i'r gymuned leol a bod eu plant yn hapus yn yr ysgol. Mae apwyntiad Pennaeth ifanc, brwdfrydig yn ddiweddar wedi rhoi hwb enfawr i'r ysgol. Mae rhieni, plant a staff yr ysgol yn edrych ymlaen at y dyfodol ac i weld ysgol Henblas yn serennu unwaith eto. |

**Holwyd y rhanddeiliaid 'Sut bydd y cynnig yn effeithio cymunedau?'**

| |
|---|
| Yn gyffredinol yn teimlo y bydd cau unrhyw ysgolion mewn cymunedau yn cael effaith negyddol. Heb os ac oni bai, bydd unrhyw gyfleoedd yn gyfyngedig o'u cymharu â'r sefyllfa bresennol gan y byddai'n rhaid rhannu a chynnig y cyfleoedd hynny i nifer fwy o blant ond gyda llai o adnoddau dynol. Yn anorfod felly bydd y plant hynny yn cael llai o sylw ac o risg o gael eu colli i'r system. |
| Y golled fwyaf fydd y ganolfan, er nad oes defnydd mawr ohono, hwn yw'r unig gyfleuster yn y pentref. Colli hwb canolog y gymuned. Yn adeilad pwysig ar gyfer ymgynnull a chyfarfodydd. |
| Lleihau cyfleoedd i bobl gymdeithasu a chwrdd â phobl o'r un pentref a bydd hyn yn cael effaith negyddol ar lesiant yr ardal. |
| Ni fydd yn parhau i fod yn bentref, dim ond ystâd o dai. |
| Mae'r agosatrwydd naturiol sy'n bodoli a'r gefnogaeth yn mynd i wanhau a chwalu yn y diwedd. Heb galon a chyswllt dyddiol ni fydd yna fwrlwm na theimlad o berthyn. |
| Bydd yn ddistaw iawn. |
| Peryg o droi Bodffordd yn bentref sydd ond yn un  gyda phobl yn mynd oddi yno i'w gwaith,  neb o gwmpas yn y dydd. |
| Colli calon y pentref. Colli safle ymgynnull y pentre' .Colli'r ymdeimlad o gymuned a phlant gwledig. |
| Dirywiad mewn iaith, diffyg cyfathrebu ac adnabod pawb gan fod gormod o rieni a staff. Plant yn debygol o gael eu hanghofio amdanynt, os yn blant distaw, neu gydag anhawster dysgu. |

| |
|---|
| Bydd y Gymuned yn dioddef. Colli'r cydweithio rhwng y gymuned leol a'r ysgol.. Mae llawer o drigolion a henoed y pentref yn cefnogi cyngherddau 'Dolig, Diolchgarwch a nosweithiau coffi sydd yn cael eu cynnal gan yr ysgol, unai yn y Neuadd Gymuned neu'r Capeli lleol. Os bydd yr ysgol yn cau ni all hyn ddigwydd ar eu carreg drws. |
| Effaith mwyaf ar gymuned Llangristiolus fydd cau'r ysgol. Yr ysgol yw calon y gymuned hon. Mae plant yn gallu cerdded a beicio i'r ysgol. |
| Dinistriol |
| Bydd colli Ysgol Gymuned Bodffordd yn drychineb mawr i'r gymuned. Colli hwb y pentref. Diwylliant a thraddodiad Cymreig yn dod i ben. |
| Lleihau parodrwydd newydd-ddyfodiaid i siarad Cymraeg. Seisnigeiddir ardal.  Colli diwylliant. |
| Dim gwahaniaeth. Bydd trefnu cyfarfodydd eraill er mwyn cael sgwrs. |
| Mae’r Cyngor yn euog o ddilyn system sydd ddim yn effeithiol. (defnyddio model Lloegr, ac maent erbyn hyn yn ail edrych ar y model ac yn gweld y buddiannau o ysgolion llai). Nid oes ffydd yn y cynnig gan fod Ysgol y Graig yn enghraifft o hynny, bellach sydd ddim yn addas i bwrpas na chynaliadwy ond yn ysgol newydd. |
| Bydd yn cael effaith ddifrifol ar gymuned Bodffordd |
| Nid oes tafarn na siop yn y gymuned, felly bydd cau’r ysgol yn stopio’r cyfleoedd o’r gymuned ddod at ei gilydd. |
| Yn bresennol yn gymdeithasol iawn ar ôl ysgol, mae plant yn aros yn y maes chwarae a chae chwarae’r ysgol. Y rheini yn sgwrsio tra bod y plant yn chwarae. Bydd cymuned teuluoedd ifanc Llangristiolus yn dioddef. |
| Effaith negyddol iawn- llai o deuluoedd yn symud oherwydd mae cael ysgol leol yn atyniad mawr. Gyda hyn bydd dim yn ardal Llangristiolus a bydd yn gymuned. Bydd y rhieni sydd yma'n barod yn colli'r cysylltiad lleol drwy orfod mynd â'u plant ymhellach |
| Dim cymuned yn Llangristiolus. |
| Mae yna gymuned arbennig yn Llangristiolus ac Ysgol Henblas yw calon y pentref. Nid oes siop na thŷ tafarn nac unrhyw fan arall i bobl ymgynnull yma, heb yr ysgol dim ond pasio heibio'i gilydd fyddai pawb a bydd y gymuned Gymraeg, gryf, naturiol sydd yma yn cael ei cholli. Ar amryw o achlysuron mae rhieni a thrigolion y pentref yn dod at ei gilydd, e.e. i godi pres at Eisteddfod Môn, at Adran Urdd Henblas neu at elusen arall, ac mae amryw o helfeydd trysor, prynhawniau te a.y.b. wedi cael eu trefnu. Os na fydd ysgol yn parhau yn y pentref fydd y gymuned ar chwâl a bydd colli cymuned Gymraeg naturiol arall. |
| Chwalu cymunedau. Teuluoedd ifanc yn symud yn agosach at yr ysgol ardal ac ail dai fydd yn ein pentrefi. |
| Prisiau tai yn gostwng. Dim canolbwynt.. |
| Colli cysylltiadau lleol. Colli’r Gymraeg |
| Difrifol mae’r ysgol yn galonnog i'r pentref. Chwalu cymuned heb fod eisiau. |
| Pobl ddim yn adnabod ei gilydd |
| Dim hwb cymunedol |
| Effaith dinistriol ar gymuned fach |
| Ymfudiad yn anochel |
| Bydd y pentref yn rhesi o dai heb galon. Ni fydd ffrindiau yn bodoli. Yr ysgol yw calon y gymuned ac mae ei gau yn drosedd. |
| Poblogaeth Llangristiolus wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer o deuluoedd ifanc yn ymgartrefu. Yr ysgol yw hwb y gymuned. |
| Bydd cau ysgol Henblas yn lladd y gymuned. Mae'n gymuned lewyrchus gyda nifer o deuluoedd ifanc wedi symud yma dros y blynyddoedd diwethaf ar ysgol yn un o'r prif atynfeydd iddynt symud yma. Mae'r Cylch Meithrin yn llawn , bydd 2 sesiwn yn cael ei gynnal o Fedi 2018. |


| |
|---|
| Effaith ar y gymuned gyfan. Yr ysgol yw canolbwynt y pentref. Mae'r gymuned  yn dod at ei gilydd oherwydd yr ysgol a hebddi bydd cymuned arall yn chwalu a'r iaith Gymraeg yn dechrau diflannu. |
| Effaith ar fywyd cymunedol yn amlwg, gyda llai o deuluoedd yn dewis byw ym mhentrefi'r ynys. |
| Colli gwaith. |

## Perfformiad Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Henblas

Mae adroddiad thematig Estyn "Ysgolion Cynradd Bychain yng Nghymru (2006)" yn dynodi nad oes gwahaniaeth gwirioneddol rhwng safonau addysg mewn ysgolion bach ac ysgolion mawr, ond "gall fod yn fwy anodd i athrawon mewn ysgolion bach gyfateb y gwaith i anghenion disgyblion, gan y gall disgyblion mewn dosbarth amrywio'n sylweddol yn nhermau oed a chamau datblygiad. Mae hyn yn berthnasol i ysgolion llai. Mae hydwythdedd o safbwynt staffio wedi gwella yn yr ysgolion mwy eu maint."

Defnyddir dangosyddion diwedd cyfnod allweddol i arfarnu perfformiad ysgol - y Cyfnod Sylfaen (7 oed) a Chyfnod Allweddol 2 (11 oed).

Mae'r siart isod yn dangos % y disgyblion sy'n cyflawni deilliant 5+ yn y cyfnod Sylfaen yn y tair ysgol a'r ffigurau cyfatebol ar gyfer Ynys Môn a Chymru:




Mae angen cymryd gofal wrth gymharu canlyniadau gan y gall niferoedd disgyblion fod yn fach a natur y fintai ac amgylchiadau disgyblion unigol gael effaith sylweddol ar berfformiad terfynol.

Mae'r tabl isod yn dangos yr un ffigyrau ond gydag ysgolion yn cael eu cymharu ag ysgolion cyffelyb yn genedlaethol yn defnyddio set ddata meincnodi:

| Ysgol | DCS | | |
|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
| **Bodffordd** | **100** | **77.8** | **80.0** |
| **Corn Hir** | **97.1** | **96.4** | **93.5** |
| **Henblas** | **86.7** | **78.6** | **85.7** |
| **Ynys Môn** | **86.2** | **84.7** | **85.8** |
| **Cymru** | **86.8** | **87.0** | **87.3** |

1 – Deilliant 5+ yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen

Chwartel uchaf    Canolrif Uchaf    Canolrif Isaf    Chwartel Isaf

Yn gyffredinol, ceir peth amrywiant mewn perfformiad ysgol h.y. mae rhai ysgolion wedi bod yn y chwartel isaf yn amlach nag eraill ac mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y categori lliw o ddangosydd ysgol.

Mae'r tabl isod yn dangos y patrwm dros y tair blynedd diwethaf ar gyfer Cyfnod Allweddol 2.

| Ysgol | CA2* Canlyniadau Ysgol | | |
|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
| Bodffordd | 88.9 | 100 | 88.9 |
| Corn Hir | 93.8 | 95.2 | 93.3 |
| Henblas | 84.2 | 93.8 | 100.0 |
| Ynys Môn | 91.8 | 89.4 | 91.4 |
| Cymru | 87.7 | 88.6 | 89.5 |

*Lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu, mathemateg a gwyddoniaeth wedi eu cyfuno

Mae perfformiad yr ysgolion wedi amrywio yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Ar ôl 2009/10, lleihawyd nifer y cwestiynau yn Fframwaith Arolygu Estyn i 3 ond gydag isadrannau. Y tri Cwestiwn Allweddol yw:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth?

Mae'r tair ysgol h.y Ysgol Bodffordd, ysgol Corn Hir ac Ysgol Henblas wedi eu harolygu o dan y fframwaith diweddaraf hwn ac mae'r canlyniadau fel yr amlinellwyd yn y tabl isod:

| Ysgol | Bodffordd* | Corn Hir | Henblas** |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Mehefin 2015** | **Mai 2013** | **Mai 2017** |
| Cwestiwn Allweddol 1 | Digonol | Da | Digonol |
| Safonau | Digonol | Da | Digonol |
| Lles | Da | Rhagorol | Da |
| Cwestiwn Allweddol 2 | Digonol | Da | Digonol |
| Profiadau dysgu | Digonol | Rhagorol | Anfoddhaol |
| Addysgu | Digonol | Da | Digonol |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da | Da | Digonol |
| Yr amgylchedd dysgu | Da | Da | Da |
| Cwestiwn Allweddol 3 | Digonol | Da | Anfoddhaol |
| Arweinyddiaeth | Digonol | Da | Anfoddhaol |
| Gwella ansawdd | Digonol | Rhagorol | Anfoddhaol |
| Gweithio mewn partneriaeth | Da | Da | Digonol |
| Rheoli adnoddau | Digonol | Da | Digonol |
| Perfformiad presennol | Digonol | Da | Digonol |
| Rhagolygon gwella | Digonol | Da | Anfoddhaol |

**Graddau Estyn** –

| | |
|---|---|
| Rhagorol | - Llawer o gryfderau, yn cynnwys enghreifftiau sylweddol o ymarfer sector-arweiniol |
| Da | - Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant sylweddol |
| Digonol | - Cryfderau'n gorbwyso'r meysydd sydd angen gwelliant |
| Anfoddhaol | - Meysydd pwysig sydd angen gwelliant yn gorbwyso cryfderau |

Er bod llawer o raddau da yn y tabl, ceir nifer o raddau digonol yno hefyd. Mae'r Awdurdod yn awyddus i sicrhau bod deilliannau arolygiadau'n dda.

*__NODER__ – Daeth Estyn yn ôl ar ymweliad monitro ym mis Tachwedd 2016 a dywed ei adroddiad: "Bernir bod Ysgol Gymuned Bodffordd wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn ymweliad Estyn yn Hydref 2016. Byddwn yn awr yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Ni fydd mwy o ymweliadau monitro gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn."

**__NODER__ – Dywed adroddiad Estyn: "Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn".

Os yw Pwyllgor Gwaith yr Awdurdod yn gweithredu'r cynnig, bydd yr Awdurdod yn ceisio i o leiaf cynnal y deilliannau a'r ddarpariaeth uchod yn unrhyw ysgol newydd gyda'r nod i adeiladu ar a gwella'r safonau yn y ddau gyfnod allweddol. Yn ogystal, byddai'r capasiti i ehangu ar arweinyddiaeth a rheolaeth dosranedig yn yr ysgol yn cael ei wella.

Yn nhermau deilliannau Estyn, byddai'r Awdurdod yn disgwyl deilliant o Dda neu Rhagorol ar bob pwynt, gyda'r ysgol gynradd newydd posib yn y categori gwyrdd neu melyn (ysgol sydd angen hyd at 4 neu 10 diwrnod o gefnogaeth yn ôl trefn).

Disgwylir bydd yr ysgol newydd yn traddodi'r cwricwlwm llawn yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

## Cost y disgybl

Mae'r tabl yn dangos gwariant y pen yn y tair ysgol:

| Ysgol | Dyraniad y disgybl 2017/18 |
|---|---|
| **Bodffordd** | **£4,500** |
| **Corn Hir** | **£3,475** |
| **Henblas** | **£4,778** |
| **Cyfanswm** | **Cyfartaledd am y 3 ysgol - £3,952** |
| **Ynys Môn** | **Cyfartaledd o £3,972** |
| **Cymru** | **Cyfartaledd o £3,690** |

Mae'r tabl yn dangos bod gwariant y disgybl ar gyfer 2017/18 yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (£3,690) mewn 2 o'r dair ysgol gyda Henblas a Bodffordd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Ynys Môn (£3,972). Mae'r gwahaniaeth ac amrywiad yng ngwariant angen ei leihau ar draws yr ysgolion.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **30 Ebrill, 2018** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Gwrth Dlodi** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Elliw Llŷr**<br>**01248752137**<br>**ElliwLlyr@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Pob aelod lleol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:-

**A1.** Bod y Strategaeth Taclo Tlodi yn mynd i ymgynghoriad

**Rhesymau**

Fel bod modd ymateb yn Gorfforaethol i'r angen i ddelio gyda tlodi o fewn cymunedau Môn gan hyrwyddo perchnogaeth Gwasanaethau ac i gydweithio gydag ein partneriaid allanol.

**1.0 Cefndir**

**1.1** Mae tlodi yn effeithio canran uchel o'r boblogaeth ac fe welwn ddatganiadau dyddiol yn y wasg o sut mae tlodi yn cael effaith drwy gostau byw uwch, cyflogau a chyfleoedd gwaith isel sydd yn atal pobl rhag ymgymryd yn llawn o fewn eu cymunedau.

**1.2** Mae'r Strategaeth Gwrth Tlodi yn ein cychwyn ar siwrne i godi ymwybyddiaeth o faterion tlodi a sut gallwn gyd weithio i daclo tlodi. Mae'r Strategaeth yn cynnig diffiniad corfforaethol o dlodi ac yn gosod gweithgaredd cyfredol dros gyfnod o amser yn ôl tymor byr, canolig a hir

**1.3** Mae llawer o weithredu yn digwydd yn barod ac mae'r Strategaeth yn cynnig modd o gydlynu hyn dan un ymbarél

**1.4** Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd gyda Penaethiaid a Rheolwyr mae'r Cynllun Gwaith yn tynnu yng nghyd ychydig o'r gweithgareddau.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'r Cynllun Corfforaethol, 2017-2022 yn nodi bod angen 'Sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor sydd wedi'u dylunio i fynd i'r afael â thlodi wedi'u cydlynu'n effeithiol'. Byddai peidio cyflwyno Strategaeth yn golygu na fyddai posib cyflawni hyn neu byddai ymatebion yn ddarniog.

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Gan ei fod yn amcan o fewn y Cynllun Corfforaethol,2017-2022, mae angen cymeradwyaeth er gallu mynd i ymgynhoriad ar y Strategaeth |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylwadau |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | Effaith Bositif |
| 2 | **Gwrthdlodi** | Effaith Bositif |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | Effaith Bositif |
| 4 | **Amgylcheddol** | Effaith Bositif |
| 5 | **Cydraddoldeb** | Effaith Bositif |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| Strategaeth Gwrth Dlodi |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
| --- |
| |

**Strategaeth Taclo Tlodi**

**Mawrth 2018**

**Strategaeth Gwrth Dlodi Drafft**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r teitl Tlodi yn ymddangos yn y newyddion yn ddyddiol bellach, gyda thlodi yn amlygu ei hun mewn amrywiol ffyrdd, o ddiwygiadau lles, tlodi tanwydd i lefelau incwm isel. Cyfeiri at deuluoedd sydd yn gweithio ar gyflogau isel fel 'Just about manging' (JAM). Yn aml teimlir nad oes modd i unigolion a theuluoedd wella eu sefyllfa eu hunain ac fe ymhelaethir ar hyn gan Joseph Rowntree Foundation (JRF):

*'Poverty is damaging to those directly affected and to our economy and society. Poverty is linked to additional public spending on health, education, social care and police and criminal justice services in Wales of around £3.6 billion a year, equivalent to over 20% of the Welsh budget, with additional costs from lost tax revenues and costs to the social security system.*

*Poverty casts a long shadow over people's lives. Children who grow up in low-income households have poorer mental and physical health than those who grow up in better-off families, and people who have experienced poverty or live in a deprived area have fewer years of life free from illness or disability and are likely to die sooner. At every stage of education, children from low-income backgrounds achieve worse results at school than those from better-off homes, increasing the risk that poverty will be passed from one generation to the next. And poverty acts as a brake on economic growth, limiting the skills and talents available to employers, reducing earnings potential which affects Treasury tax revenues, and diverting resources to top-up low wages that could be used in other ways*.'

Un o'r negeseuon cryfaf am dlodi yng Nghymru bellach yw bod nifer o bobl sydd o fewn oedran gweithio mewn mwy o dlodi o'i gymharu â 10 mlynedd yn ôl.

## 2. Pwrpas cyflwyno'r Strategaeth

Mae'r angen am Strategaeth Gwrth Dlodi wedi ei adnabod fel blaenoriaeth ar gyfer rhaglen waith yr Uned Strategol, Gwasanaethau Tai yn 2017-18 ac yn cael ei yrru ymlaen gan y Cynllun Corfforaethol, 2017-22 sydd yn nodi'r angen i:

- Greu'r amodau fydd yn galluogi pawb i gyflawni eu potensial tymor hir
- Gefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl
- Weithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i'w galluogi i ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol

Mewn ymateb i'r uchod mae'r Strategaeth yn cael ei gyflwyno er mwyn:

- Cael cytundeb ar ddiffiniad o dlodi yn gorfforaethol
- Codi ymwybyddiaeth a gosod gwaelodlin o weithgaredd Gwasanaethau a phartneriaid
- Datblygu dull o fesur effaith Gwasanaethau a'r daclo tlodi o fewn ein cymunedau

Y bwriad yw cyflwyno Strategaeth Gwrth Dlodi bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith er mwyn cynnal ymgynghoriad allanol yn fuan yn 2018. Nid oes Strategaeth Taclo Tlodi Corfforaethol yn bodoli yn bresennol.

Mae'r Strategaeth Gwrth Dlodi yn atgyfnerthu rôl y Cyngor gyda'r agenda atal er mwyn cael canlyniad gwell, golyga hyn, yn hytrach na cheisio datrys materion ymhellach ymlaen pan maent yn fwy cymhleth ac yn tynnu ar fwy o adnoddau.

### 3. Beth yw tlodi?

| |
|---|
| Mae gan bawb syniad personol o beth yw tlodi gan nad oes un diffiniad pendant i'w ddisgrifio. Er mwyn cynnig cysondeb mae'r diffiniad isod yn cael ei gynnig gan y Joseph Rowntree Foundation (JRF) gan nad yw yn cyfeirio at incwm yn unig :-<br><br>**Pan rydym yn son am dlodi, yr elfen fwyaf amlwg yw incwm- ond gall hefyd gynnwys diffyg mewn gallu i gael nwyddau a mynediad i wasanaethau angenrheidiol** |
| **'When a person's resources (mainly their material resources) are not sufficient to meet their minimum needs (including social participation).'** |

Mae hyn yn gyson gyda'r ddogfen ddiweddar Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 gan Lywodraeth Cymru (LLC) sydd yn rhoi pwyslais ar  ffyniant sydd yn golygu 'mwy na chyfoeth materol − mae'n golygu bod pob un ohonom yn cael bywyd o ansawdd da, ac yn byw mewn cymunedau cryf a diogel'.

Mae'r Cynllun Gweithredu sy'n nodi sut bydd yr uchod yn cael ei gyflawni wedi ei gyhoeddi gan LLC yn Rhagfyr,2017 fydd yn:

- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg
- Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw
- Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid
- Darparu seilwaith modern a chysylltiedig

http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf

Mae rhain yn rhoi sail i'r Cyngor fabwysiadu 5 thema ar lefel strategol, sef:

1. **Twf economaidd i bawb**- drwy gael swyddi gwell, swyddi lleol a chymorth i bobl allu cael gwaith
2. **Cynnydd mewn addysg a sgiliau** - sicrhau safon uchel o ddysgu, prentisiaeth, sgiliau ar gyfer oedolion a chyngor gyrfaol da
3. **Cryfhau teuluoedd a chymunedau** -darparu gwasanaethau sydd yn cefnogi teuluoedd a chymorth blynyddoedd cynnar, mynediad amserol i wasanaethau fel iechyd meddwl
4. **Arbed costau a lleihau'r galw**- drwy ddarparu tai fforddiadwy a gwasanaethau fel trafnidiaeth, we a lleihau gofynion fel costau ynni a chynyddu effeithlonrwydd ynni
5. **Cefnogaeth i bobl sydd mewn tlodi** - bydd nifer fechan o'r boblogaeth angen mwy o gefnogaeth oherwydd sefyllfa bersonol fel digartrefedd,iechyd meddwl neu drais yn cartref a bydd angen sicrhau gwasanaeth sydd yn rhoi'r person yn y canol gan gynnydd cryfderau'r unigolyn dros amser achynnig gwasnaethau ataliol

Mae'r uchod yn seiliedig ar adroddiad diweddar gan JRF 'Prosperity without Poverty' sydd yn gosod fframwaith yn benodol ar gyfer Cymru. Wrth gyflwyno y themau uchod bydd hyn yn hwyluso i wasanaethau berthnasu ei meysydd gwaith i'r themâu hyn.Mae modd perthnasu'r rhain i'r Cynllun Corfforaethol cyfredol.

## 4. Cyd-destun Cenedlaethol a Lleol

Mae’r isod yn gosod cyd-destun Cenedlaethol a Lleol i pam bod angen Strategaeth Taclo Tlodi:

Mae’r ddogfen **Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol** sydd wedi ei chyhoeddi yn ddiweddar yn nodi bod ‘ffyniant yn golygu mwy na chyfoeth materol’.

Nod hirdymor y Strategaeth Genedlaethol yw creu Cymru sy’n ffyniannus a diogel, sy’n iach ac egnïol, sy’n uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sy’n unedig a chysylltiedig. Mae Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen,* yn nodi’r prif ymrwymiadau i’w gwireddu rhwng nawr a 2021. Prif themâu'r Strategaeth Ffyniant i Bawb yw bod Cymru yn:

**Ffyniannus a Diogel** - nod yw creu economi yng Nghymru sy’n cynnig cyfleoedd i bawb ac sy’n mynd i’r afael ag anghydraddoldeb, gan sicrhau ffyniant i unigolion ac i’r genedl.
**Iach ac Egnïol** – nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau.
**Uchelgeisiol ac yn Dysgu** – nod yw creu’r awydd ym mhawb i ddysgu drwy gydol eu bywydau, a’u hysbrydoli i fod y gorau y gallant fod.
**Unedig a Chysylltiedig** - nod yw meithrin cenedl lle y mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn yr hunaniaeth Gymreig a’r iaith Gymraeg, ac yn ein lle yn y byd.

Nol yn 2010, cyflwynwyd LLC Mesur Plant a Theuluoedd, Cymru oedd y genedl gyntaf yn y DU i gynnwys ymrwymiad i drechu tlodi plant yn ei deddfau.Fe gyhoeddwyd i Strategaeth Tlodi Plant i Gymru gyda’r bwriad o wella canlyniadau aelwydydd incwm isel, gan roi dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus i gydweithio i taclo tlodi plant.

Mewn adolygiad y 2015, maent yn cydnabod nad ydynt am wireddu’r uchelgais o gael gwared o dlodi plant erbyn 2020, fel a nodir yn Neddf Tlodi Plant, 2010. Mae LLC felly am ddatblygu dull amgen mwy realistig, lle byddent yn canolbwyntio ar yr elfennau hynny o dlodi plant y gall Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ledled Cymru ddylanwadu’n uniongyrchol arnynt. Un dull o gyflawni hynny yw drwy’r Ffyniant i Bawb a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

### Cysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Mae Datganiad Amcanion Lles y Cyngor yn adlewyrchu asesiad ‘drafft’ o lesiant gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn nodi fel Cyngor, byddwn yn gweithio tuag at Ynys sy'n datblygu ac yn meithrin:

- unigolion annibynnol o fewn teuluoedd cryf sy'n byw mewn cymunedau iach sydd yn:
    - ffynnu
    - llewyrchus
    - fywiog ac yn
    - gwydn

### Amcanion Llesiant

Mae Amcanion Llesiant y Cyngor ar gyfer 2017-18 yn seiliedig ar yr asesiad drafft a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yr amcanion Llesiant yw:

- Creu cymunedau cynaliadwy drwy ddatblygu economi ffyniannus a llewyrchus sy'n cynnig y cyfle i bob trigolyn lwyddo, waeth beth fo'u cefndir.
- Gwella rhagolygon tymor hir teuluoedd a phlant drwy sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, eu bod yn ddiogel ac yn iach a bod pob disgybl, waeth beth fo'u cefndir neu eu hoedran, yn cyrraedd eu potensial.

- Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig trwy sicrhau isadeiledd modern o ansawdd da sy'n addas i unigolion a busnesau fel ei gilydd
- Sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy ac o ansawdd uchel a rheoli'r cyflenwad hwnnw er mwyn datblygu cymunedau dwyieithog gwydn sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a sicrhau dyfodol tymor hir yr iaith ar yr ynys.

Mae Cynllun Llesiant Drafft Gwynedd ac Ynys Môn yn blaenoriaethu effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau gan adnabod yr angen i ddatblygu dealltwriaeth fanwl o sut mae tlodi yn effeithio ar ein hardaloedd ac yn ceisio sicrhau bod y gwaith sy'n digwydd yn y maes ar draws y cyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru effaith hir dymor tlodi.
https://www.llesiantgwyneddamon.org/cy/

Mae safle we Llesiant Gwynedd a Mon yn rhoi linc i wybodaeth am ddata sydd yn perthnasol i Ynys Mon
https://www.llesiantgwyneddamon.org/Uploads/Pages/Documents/3-4-4-22-2-Tablau-Data-Asesiad-o-Leisant-Lleol-Gwynedd-a-M244n.pdf

**Cynllun Corfforaethol Mon,2017-22**

Fel nodwyd eisoes mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi'r angen i weithio tuag at Ynys Môn fydd yn iach, yn ffynnu ac yn llewyrchus' ar angen i gydlynu yn effeithiol i daclo tlodi.

Ers 2013 mae pob ymgynghoriad gan y Cyngor wedi derbyn neges glir i gefnogi'r bobl fwyaf bregus, datblygu'r economi a sicrhau llesiant pobl yr Ynys. Y blaenoriaethau hyn felly yw sail y meysydd ffocws yn y cynllun corfforaethol.

## 6. Pam bod angen taclo tlodi?

Wrth lunio'r Strategaeth daethpwyd ar hyd nifer o wybodaeth am effaith tlodi, mae'r isod yn crynhoi ychydig o'r gwaith ymchwil:

Mae gwybodaeth gan Uned Ystadegau ac Ymchwil yn dangos gwybodaeth diweddaraf am dlodi ar draws Cymru, gweler yr linc isod:

https://www.slideshare.net/YstadegauCymru/tlodi-incwm-cymharol-prif-ffigurau-2018?next_slideshow=1

**Tlodi Tanwydd**

Mae Tlodi Tanwydd yn effeithio nifer o bobl oherwydd:

- Cynnydd mewn costau ynni
- Dim cynnydd mewn incwm ac effaith diwygio lles
- Tai preifat aneffeithiol lle na all tenant wella ei sefyllfa ei hun
- Dulliau gwresogi aneffeithiol, yn enwedig o fewn sector breifat
- Tariff ynni yn tueddu i fod yn uwch i bobl fregus oherwydd nad ydynt yn newid cyflenwyr neu yn defnyddio 'meters pre-paid'

Mae gofynion ECO ar gwmnïau ynni yn golygu bod rhaid iddynt roi cymorth i rai sydd yn stryglo i gynhesu eu cartref sef rhai sydd ar gyflogau isel ac yn fregus.

Mae Gwaith Ymchwil gan **JRF** yn dangos mai costau tŷ sydd yn cael effaith mwyaf ar aelwydydd ym Mhrydain, gyda 3.4 miliwn yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae'r ffigwr hwn wedi cynyddu yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf gyda llawer yn byw yn y sector breifat, gyda 70% yn gwario mwy na thraen eu hincwm ar gostau tŷ.

Gall tenantiaid tai cymdeithasol gael eu heffeithio yn ogystal, gan fod y berthynas rhwng pa mor sensitif yw lefelau rhenti i lefelau tlodi yn agos iawn. Mae budd dal tai wedi bod o gymorth i rai sydd yn methu talu eu costau tŷ, tra ar yr un pryd wedi cyfrannu at ddiffyg cymhelliad ariannol i weithio ac wedi creu cylch tlodi. Mae Credyd Uniongyrchol yn symud i ffwrdd o hyn. Ond, mae gosod lefel ar faint all aelwyd ei hawlio mewn budd dal yn golygu bod llawer yn gorfod defnyddio arian sydd i fod yn rhan o gostau byw ar gyfer costau tŷ.

**Rhentu yn y sector breifat**

Mae gwaith ymchwil gan Brifysgol Sheffield Hallam yn dangos bod tenantiaid sydd yn byw mewn tai sector preifat yn goddef tai oer gan eu bod yn poeni am gostau gwresogi uchel a byddent yn cael eu taflu allan os byddent yn cwyno.

**Tlodi a Phobl Hyn**

Mae diwygio lles a mesuriadau caledi wedi golygu llai o wariant ar wasanaethau ar gyfer pobl hyn. Mae Age Uk yn nodi bod bron i filiwn o bobl hyn hefo gofynion gofal cymdeithasol sydd ddim yn cael eu cwrdd.

**Tlodi mewn gwaith oherwydd cyflogau isel**

Adroddiad Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn dangos cynnydd mewn tlodi i deuluoedd sydd mewn gwaith. Mae diffiniad o gyflog isel yn cael ei osod ar £7.43 yn y gwaith ymchwil hwn.

Mae rhai sydd yn gweithio o fewn gwasanaethau arlwyo a llety mwyaf tebygol o fod ar gyflogau isel, gyda bron i 60% o weithlu Cymru o fewn y categori hwn. Mae rhai sydd yn gweithio o fewn gofal preswyl, cyfanwerthu a mân-werthu hefo lefel isaf o gyflogau, gyda thua 40% o’r gweithlu yn y categori hwn.

**Effaith ar ffordd mae pobl yn gwneud penderfyniadau**

Mae adroddiad gan JRF yn dangos fel mae byw mewn tlodi yn effeithiol ffordd mae pobl yn gwneud penderfyniadau:

https://www.jrf.org.uk/report/how-poverty-affects-peoples-decision-making-processes

Mae’r astudiaethau yn dangos bod rhai sydd yn byw mewn tlodi neu yn agos at dlodi yn profi newid yn eu prosesau seicolegol, cymdeithasol a diwylliannol a all llesteirio eu gallu i wneud penderfyniadau fyddai o fudd yn y tymor hir. Mae nifer o benderfyniadau ac ymddygiad isymwybod yn delio gyda’r presennol yn hytrach na’r dyfodol a’r damcaniaethol. Mae penderfyniadau felly wedi eu haddasu a’u cyfyngu i’r amgylchiadau presennol.

**Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE)**

Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) yn brofiadau trawmatig sy'n digwydd cyn 18 oed ac maent yn cael eu cofio drwy gydol oedolaeth.

Mae'r profiadau hyn yn amrywio o ddioddef cam-drin meddyliol, rhywiol a chorfforol i gael eu magu mewn cartref lle ceir cam-drin domestig, cam-drin alcohol, rhieni'n gwahanu neu gamddefnyddio cyffuriau.

Mae tystiolaeth yn dangos bod plant sy'n profi plentyndod llawn straen ac o ansawdd isel yn fwy tebygol o ddatblygu ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd a gwrthgymdeithasol, yn fwy tebygol o berfformio'n wael yn yr ysgol, ac yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn troseddau ac yn llai tebygol o fod yn aelod cynhyrchiol o'r gymdeithas yn y pen draw.

## 7. Gosod Gwaelodlin

Mae’r tablau isod yn rhestr y gweithgareddau fydd yn digwydd ar draws Gwasanaethau yn y tymor byr, canolig a hir gan ddefnyddio'r 5 thema strategol :

| Blaenoriaeth1: | Twf economaidd i bawb- drwy gael swyddi gwell, swyddi lleol a chymorth i bobl allu cael gwaith gweithredu drwy: | | |
|---|---|---|---|
| | **Tymor byr** | **Tymor Canolig** | **Tymor Hir** |
| **Datblygu Economaidd** | Cyflawni cynlluniau TRI Llywodraeth Cymru gan ddarparu gwybodaeth am nifer ac effaith y cynlluniau | Peilota Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol<br><br>'Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol https://futuregenerations.wales/cy/documents/mae-fframwaith-cenedlaethaur-dyfodol/<br><br>Future Generations Framework<br><br>Cefnogi a dylanwadu Cais Twf, Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru | Sicrhau buddsoddiad o fewn sector fusnes preifat er mwyn cynyddu swyddi yn lleol<br><br>Uchafu buddion economaidd lleol drwy Wylfa Newydd a datblygiadau newydd eraill |

| Blaenoriaeth 2: | Cynnydd mewn addysg a sgiliau - sicrhau safon uchel o ddysgu, prentisiaeth, sgiliau ar gyfer oedolion a chyngor gyrfaol da gan weithredu drwy: | | |
|---|---|---|---|
| | **Tymor Byr** | **Tymor Canolig** | **Tymor Hir** |
| **Addysg** | Cynnig gwasanaeth gofal plant i ardaloedd penodedig gyda bwriad o'i gyflwyno ar draws yr Ynys<br><br>Addysg gydol oes- darparu hyfforddiant ar wella sgiliau digidol gan adrodd ar nifer fydd hefyd o gymorth ar gyfer newidiadau diwygio lles | Darparu gweithgareddau i annog teuluoedd gymryd rhan mewn digwyddiadau celf a chymdeithasol gan adrodd ar nifer sydd wedi cymryd rhan | Rhaglen moderneiddio Ysgolion er mwyn rhoi'r cyfleusterau gorau i wella cyfleoedd addysg<br><br>Cyflawni Strategaeth STEM Ysbrydoli Pobl Ifanc Ynys Môn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwasanaethau Plant** | **Tymor byr** | **Tymor Canolig**<br><br>Nifer sydd wedi gallu magu sgiliau i allu chwilio am waith drwy Dechrau'n Deg | **Tymor Hir** |

| **Blaenoriaeth 3:** | **Cryfhau teuluoedd a chymunedau -darparu gwasanaethau sydd yn cefnogi teuluoedd a chymorth blynyddoedd cynnar, mynediad amserol i wasanaethau fel iechyd meddwl** | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwasanaethau Plant** | **Tymor byr**<br><br>Adolygu dulliau ymyrraeth a chynnal teuluoedd er mwyn gallu targedu adnoddau yn effeithiol<br><br>Adrodd ar nifer o blant sydd wedi gwireddu eu hamcanion o fewn Cynlluniau drwy Teulu Môn | **Tymor Canolig**<br><br>Cynnig gwasanaethau ataliol drwy Teulu Mon a Dechrau'n Deg<br><br>Gwireddu Strategaeth Ataliol ar gyfer Plant a Theuluoedd | **Tymor Hir**<br><br>Gallu mesur effaith o gyfrannu at wydnwch teuluoedd |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwasanaethau Oedolion** | **Tymor byr**<br><br>Darparu gwasanaeth Cydlynwyr Cymunedol er mwyn atal unigedd | **Tymor Canolig**<br><br>Datblygu Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol | **Tymor Hir**<br><br>Datblygu model o gyd- weithredu er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau |

| Blaenoriaeth 4: | Arbed costau a lleihau'r galw- drwy ddarparu tai fforddiadwy a gwasanaethau fel trafnidiaeth, we a lleihau gofynion fel costau ynni a chynyddu effeithlonrwydd ynni drwy weithredu yn ystod y tymor byr / canolig ar: |
|---|---|
| **Gwasanaethau Tai** | Gwireddu Cynllun Busnes HRA<br><br>Gwireddu Strategaeth Asedau Tai<br><br>Gwireddu Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | Cynnig gwasanaethau drwy Teulu Môn, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau yn Deg, Taliadau Uniongyrchol |
| **Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth** | Darparu dulliau digidol sydd yn eu gwneud yn hawdd i drigolion gysylltu gyda'r Cyngor |
| **Gwasanaeth Budd daliadau** | Mabwysiadu Polisi Casglu Dyledion Corfforaethol |
| **Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | Darparu gwasanaeth Cludiant Cymunedol Mon gan ddangos nifer sydd yn defnyddio'r gwasanaeth<br><br>Darparu gwasanaeth cludiant cyhoeddus sydd yn seiliedig ar anghenion teithwyr i allu cyrraedd canolfannau sydd yn rhan o strategaeth cynllunio lle |

| Blaenoriaeth 5: | Cefnogaeth i bobl sydd mewn tlodi gan weithredu drwy: | | |
|---|---|---|---|
| | **Tymor byr** | **Tymor Canolig** | **Tymor Hir** |
| **Ar lefel gorfforaethol** | Gweithredu ar gynllun gwaith Diwygio Lles | Datblygu Strategaeth Cynllunio Lle<br><br>Ymateb i amcan o fewn Cynllun Llesiant i adnabod effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau | Adolygu Strategaeth Gwrth Dlodi sydd yn seiliedig ar ddata er mwyn helpu pobl rhag mynd i dlodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Sicrhau bod gwasanaethau ataliol ar gael drwy fframwaith ataliol-Gwasanaethau Oedolion, Plant a Chefnogi Pobl<br><br>Paratoi ar gyfer dosbarthu grant ataliol wedi ei gyfuno gan LLC,2019 ymlaen<br><br>Cymraeg.pdf | Cydweithio gyda'n partneriaid er mwyn cynnig gwasanaethau amgen ac sydd yn cynnal pobl rhag mynd i dlodi | |

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

**BENTHYCIAD I GRŴP NEUADD BENTREF LLANDDONA /**
**BRIDGING LOAN TO LLANDDONA VILLAGE HALL GROUP**

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Dylai'r Cyngor anelu I fod yn agored a thryloyw mewn perthynas a'i gyllid a'I benderfyniadau'n ymwneud â'r defnydd o arian cyhoeddus.<br><br>The Council should aim to be open and transparent in respect of its finances and on decisions relating to the use of public money. | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae'r adroddiad yn datgelu manylion trafodion masnachol rhwng y Cyngor a thrydydd parti ac, hefyd, mae'n darparu manylion o grant rhwng y trydydd parti a Llywodraeth Cymru.<br><br>The report discloses details of a commercial transaction between the Council and a third party and also provides details of a grant between the third party and the Welsh Government. |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

Document is Restricted

This page is intentionally left blank